ECO'R WYDDFA

Rhif 118 HYDREF 1986 Pris: 20c

CEFNOGWCH EISTEDDFODAU'R FRO

Yn ystod y mis nesaf bydd **PEDAIR** o eisteddfodau'n cael eu cynnal o fewn y fro. Bu'r gwahanol bwyllgorau gwaith wrthi'n ddygn ers misoedd yn paratoi rhaglen a ddylai fod at ddant pawb o'r ieuengaf i'r hynaf. Felly, chwi ddarllenwyr yr "Eco", cefnogwch eich 'steddfod leol. Ewch iddi i gystadlu, i wradno, i gymeradwyo ac i FWYNHAU. Dyma'r dyddiadau i'ch atgoffa:-

1. **EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANRUG** – yn Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug, pnawn a nos Sadwrn, Hydref 11eg.
2. **EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI** – Hydref 24ain a 25ain.
3. **EISTEDDFOD BETHEL** – YN Y Neuadd, bnawn a nos Sadwrn, Tachwedd 1af.
4. **EISTEDDFOD ARDAL Y WAUNFAWR** – YN Y Ganolfan, bnawn a nos Sadwrn, Tachwedd 8ed.

Os am luniau yn yr 'Eco', cofiwch drefnu i gael benthyg y camera!

DIFETHA DAU FWTHYN

LLOSGI TAI HAF YN Y FACHWEN

Llanastr Bryn Fedwen, bwthyn yn eiddo i deulu Cymraeg o Ddyffryn Clwyd.

Sgerbwd Cae Goronwy, bwthyn 200 oed

Yn gynnar ar fore dydd Gwener, Medi 26ain, darganfuwyd fod dau fwthyn gwyngalchog ar lethrau'r Fachwen wedi eu llosgi'n ulw. Credir ar hyn o bryd mai parhad o'r ymgyrch losgi tai haf yw'r ddau dân diweddar hyn. Yn ystod yr un noson llosgwyd tŷ haf arall ym Mhennal ger Tywyn ym Meirionnydd. Nid yw'n bosibl mynd at yr un o'r ddau dŷ gyda char, ond mae'r ardal yn frith o lwybrau troed, a gallai'r llsogwyr fod wedi cyrchu tua'r tai o amryw o gyfeiriadau.

Perchnogion Bryn Derwen ers tua deng mlynedd yw Mr a Mrs Davies o Lanfwrog, ger Rhuthun. Mae ef yn ymgynghorydd gyda Chyngor Sir Clwyd a nithau'n athrawes yn Ninbych. Siopwr o Childwall yn Lerpwl yw Mr J Needham, perchennog Cae Goronwy. Bu'r bwthyn yn eiddo iddo ers tua wyth mlynedd. Mae'r ddau dŷ o fewn rhyw ddau can llath i'w gilydd, ac yn agos i'r llwybr troed sy'n arwain i'r goedwig dderw sy'n rhan o Barc Gwledig Padarn. Mae'n ardal boblogaidd iawn gan gerddwyr.

Nid dyma'r tro cyntaf i'r ymgyrch losgi daro bythynnod bro'r Eco. Ym mis Hydref, 1981, llosgwyd Pen Ceunant Isa, Llanberis. Mae bellach wrthi'n cael ei ail-adnewyddu. Ym mis Tachwedd y llynedd, aeth Tŷ Coch Hir Bach, ger Penisa'rwaen ar dân, ac yna, fis Mawrth eleni llosgwyd Parc Newydd rhwng y Waunfawr a Rhosgadfan. Difethwyd bwthyn gwyliau arall rai blynyddoedd yn ôl ym Metws Garmon. Ar rai o'r achlysuron hyn, hawliwyd mai grŵp yn galw eu hunain yn 'Feibion Glyndŵr' a fu'n gyfrifol am y llosgi. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw un wedi ei 'restio ynglŷn â'r difrodi hwn.



Aelwyd Bryn Fedwen a'r hen degell yn hongian ar bwys y simdde. 'Roedd trawst y pentan yn dal i fud-losgi pan dynnwyd y llun fore Sadwrn.

MENTRO I AWSTRALIA

Bryn yn ffarwelio â Wavell tu allan i'r siop yn Llanrug.

Ar ddydd Sul, Hydref 12fed, bydd Bryn Williams, o Didfa, Llanrug, yn ffarwelio â'i gynefin ac yn mentro ar draws y byd i Awstralia bell. Bydd yn glanio yn Sydney, a gobeithia weithio'i ffordd o gwmpas y wlad, gan aros yno am flwyddyn. "Ond peidiwch a dychryn os bydda'i 'nôl mewn mis!" meddai, pan fu un o ohebwyr yr "Eco" yn ei holi.

Gweithio'n siop cigydd Wavell Roberts yn Llanrug roedd Bryn, a bydd colled ar ôl ei wên siriol a'i gymeriad hynaws. Roedd yn boblogaidd iawn gan y cwsmeriaid (er fod amryw'n ei bryfocio'n ddidrugaredd!) a bydd cryn chwithdod ar ei ôl meddai Wavell.

Dymuna'r "Eco" bob llwyddiant iddo yn y dyfodol, a gan fod Bryn eisoes wedi bod yn darged i Draenog ar un achlysur, ni allai'r creadur bach pigog hwnnw adael i'r cyfle hwn fynd heibio heb 'ddweud ei ddweud' 'chwaith.

Ffarwel i siop y cigydd,
Ffarwel i'r "chops" a'r biff;
Mae'n mynd i wlad sy' a'i phen i lawr
Gerllaw y 'Barrier Reef'.

Ffarwel i'r 'mince' a'r sosej,
Ffarwel i'r oen a'r ham;
Mae'n mentro i wlad y cangarŵ,
A phawb sy'n holi "Pam?"

Am unwaith, y mae Draenog
Yn methu ateb 'chwaith!
Ond siawns na chaiff o glywed sôn
Am Bryn a'i deithio maith!

ECO'R WYDDFA

RHIF 118
HYDREF

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL AC ERTHYGLAU: Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug. (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Amranwen Lynch, Gwyddfor, Penisarwaun (Llanberis 870575).

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd Evans, 9 Sycharth, Penisarwaun. (Llanberis 872407)

TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:

DYDDIADUR Y MIS: Mrs. Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Peny Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis. (871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian.

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Tal-y-bont. (Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrig-y-drudion, Nant Peris.

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9 Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU:

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
HYDREF 30ain
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
HYDREF 21ain
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

YMATEB I'R HEN LUNIAU

YSGOL BRYNERYR LLANRUG?

Annwyl Olygydd,

Ysgol Bryneryr 1923?

Gair parthed y llun dosbarth dan y pennawd uchod yn rhifyn Medi o'r Eco. O graffu, gwelir yn syth nad yw yr adeilad yn y cefndir yn debyg i furiau a ffenestr Ysgol Bryneryr. Gwnaeth hynny i mi amau dilysrwydd y darlun.

Roeddwn i fy hunan yn ddisgybl yn Ysgol Bryneryr tan Awst 1925 a chofiaf i fachgen bach o'r enw John Edward Robinson a drigai yn Hafodlas, Ceunant, pryd hynny ddod i'r ysgol yn Awst 1925 o Ysgol St. Stephen, Bury, Lancs. Roedd tua 6-7 oed yn dod i'r Ceunant a chredaf ei fod yn rhyw berthynas i deulu Edward Howard, Tancastell, Bryn Bras.

Doedd yr athrawes yn y llun, na'r plant yn y dosbarth yn debyg i neb a adwaenwn i yn Ysgol Bryn Eryr yn 1923 ac awgrymaf mai llun Edward Robinson yn nosbarth babanod ei ysgol yn Bury ydyw.

Gobeithiaf fod hyn yn bodloni perchennog y llun.

Yn gywir,
R. Williams,
'Llain Gwta',
5 Gwelfynydd,
Llanrug

YSGOL BRYNREFAIL 1920

Annwyl Olygydd

Llun Dosbarth 4,
Ysgol Brynrefail, 1920

Roeddwn yn falch bod John wedi anfon y llun, a'i fod yn dal yn fyw ac yn iach er mae'n siŵr yn hiraethu am gae pêl-droed Llanber. Mae o yn gwneud camgymeriad, nid oedd yna Fiss Davies yn dysgu yn yr Ysgol y pryd yna. Rwyf yn meddwl mai yr hogan fawr ar y chwith ydyw Elsi Roberts o Lanbabo, fel y gelwid Deiniolen y pryd hynny, ac mae Griffith Madog, sydd yn byw ym Mhwllheli ac yn y llun, o'r un farn. Y genethod ydynt Hannah Roberts (Penisarwaun), Enid Mabel Thomas (Llanberis), Mary Williams (Penisarwaun), Olwen Parry Jones (Cwm-y-Glo), Miss C. Parry (Miss Parry Bach) Athrawes Cymraeg, Lladin a Hanes, chwaer y Parch Meic Parry a fu yn arweinydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol am flynyddoedd. Gadawodd hi am Ruthun yn 1921. Elinor Jones (Llanbabo), chwaer H.R. Jones, sefydlydd Plaid Cymru, Edith Parry (Llanbabo), Gwladys Williams (Penisarwaun) a Lisi Jane Ffoulkes (Llanrug).

Do, fe ymfudodd Trebor Prosser i Dde-Affrica i geisio adfer ei iechyd, ond yn ofer. Bu farw yno yn fuan wedyn. Hyd y gwn mae Gordon, John, Guto Madog ac Enid Mabel yn dal ar dir y byw.

Herbert Thomas,
Y Rheithordy,
Llannor

CYNGOR Y DYSGWYR

Dyfed. SY23 2AX

Ffôn: Aberystwyth 0970 3177

Annwyl Gyfeillion,

'Dw i newydd gael fy mhenodi i'r swydd o Drefnydd Cyngor y Dysgwyr. Mudiad cymharol newydd ydyw, sy'n ceisio pontio'r gagendor rhwng y Cymry Cymraeg a'r rhai hynny sydd yn, neu wedi dysgu'r iaith. Mudiad pwysig iawn gyda phosibiliadau pell gyrhaeddol.

Ar hyn o bryd mae yna ddeunaw cangen o CYD dros Gymru gyfan. Daw'r aelodau at ei gilydd yn rheolaidd gan ddilyn rhaglen o weithgareddau yn ystod tymor yr hydref tan yr haf. Teg fyddai cymharu'r mudiad i fudiad Merched y Wawr neu'r Urdd, ond ein bod â'r nod o gynorthwyo dysgwyr i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg. Estynnir croeso cynnes i bawb ymaelodi ac mae angen Cymry Cymraeg arnom. Beth amdani? Cymdeithasu a gweithio i hybu'r iaith Gymraeg ar yr un pryd!

Os oes yna gangen yn eich ardal chwi, cysylltwch gyda'r Trefnydd Lleol. Os nag oes, wel beth am fynd ati a sefydlu un! Am ragor o wybodaeth neu fanylion, cysylltwch gyda mi ar unwaith.

CYD-weithiwn dros ein hiaith
W.DYFRIG DAVIES
Yr adran Gymraeg
Coleg Prifysgol Cymru
Aberystwyth

O.N.
Os carai unrhyw fudiad neu sefydliad wybod mwy am CYD, mi fyddwn yn ddigon parod i ddod a rhoi sgwrs am y gwaith.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Y DDADL YN PARHAU

Annwyl Olygydd,

Sylwaf i chwi roi'r teitl "Safle'r Gymraeg — Y Dafarn neu'r Capel?" uwch y llythyron yn rhifyn Medi o'r Eco. 'Doeddwn i ddim yn bwriadu i'r fath ddewis fod ynglŷn â dyfodol yr iaith, i mi mae ei siarad yn y ddau le mor bwysig a'i gilydd. Yn sicr, cyd-ddigwyddiad oedd i'm dau lythyr ymddangos yn yr Eco yr haf hwn ynglŷn â dylifiad y di-Gymraeg i'n hardaloedd ac anerchiad grymus Dr Meredydd Evans yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Heb os, mae'n hen bryd i ni sylweddoli maint yr effaith ddinistriol y mae'r dylifiad "tawel" yma yn ei gael ar ein cymdeithas a'n harferion. Ofnaf nad oes hanner digon o sylw yn cael ei roi i'r broblem hon, a rhaid i mi fod yn berffaith onest a dweud na welaf unrhyw ffordd o'i hatal.

Er mwyn i ni ganfod yr alanastr, gofynnaf unwaith eto ar i nifer o bobl ym mhentrefi Eco'r Wyddfa fynd ati rhag blaen i gymharu'r nifer o Gymry Cymraeg sydd yn ein gwahanol bentrefi heddiw a'r nifer oedd yno yn 1960 neu 1970, a hefyd nodi nifer y di-Gymraeg yn y blynyddoedd hyn, — ceisied gopïau o restr yr etholwyr gan Gyngor Arfon neu yn y llythyrdy am y cyfnodau hyn. Mae'n golygu chwysu tipyn, fe wn o brofiad, rwyf wedi cychwyn ar y gwaith yn fy mhentref i fy hun.

Gair bach yn ogystal mewn ateb i lythyr John E. Williams. Nid pawb ohonom sydd yn dymuno cyhoeddusrwydd drwy roi ein henwau'n llawn fel y brawd, gwell gan rai ohonom fod yn "anon" rwan ac yn y man! Od iawn i mi oedd sylwi fod John E. Williams yn brygawthan ynglŷn â'r ffugenw 'rwy'n ei roi o dan y sylwadau hyn yn lle fy enw'n llawn, a minnau fel cannoedd o ddarllenwyr yr Eco yn troi i dudalen 16 yn rhifyn Medi o'r Eco a chanfod stori'r "Cael a Chael" gan y "Gwalch". Pam na chafwyd enw'r awdur yn llawn? Mae angen "ceiliog gwyn i ganu" all'swn feddwl!

Ond manion ydi'r rhain — y broblem sydd yn ein wynebu yw cadw'r ardaloedd hyn yn Gymreig ei natur, ac fe garwn i, fel W.A. Jones 'rwy'n sicr weld y Cymry ifanc pybyr yn rhoi eu hysgwyddau o dan y baich yn ein heglwysi a'n myrdd gymdeithasau diwyllianol — canys yno yn sicr gen i y mae talp go dda o'r "pethe" sydd nid yn unig mor nodweddiadol ohonom ni fel cenedl, ond sydd hefyd yn ein gwneud mor wahanol i'r mewnfudion di-Gymraeg sydd fel yr ysgall, o dipyn i beth, yn dinistrio'n porfa a'n bodolaeth.

Sylwedydd

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

Perchennog: E.P. Hughes
MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

ÎFS

ATGOFION ALWYN PLEMING PENNAETH ADRAN GYMRAEG YSGOL BRYNREFAIL

Roedd hi'n drist, os nad yn syndod, clywed am farwolaeth Evan Roberts, 'Evie Art' i genedlaethau o blant yma yn Ysgol Brynrefail. Cafodd gystudd hir, ond phlygodd o ddim, ac mi barhaodd yn siriol i'r diwedd.

Roedd o wedi bod yn arwr i mi ers pan oeddwn i'n hogyn bach – yn chwarae ar yr asgell chwith i dîm Nantlle Vale – ac ergyd troed chwith allai eich syfrdannu ar brydiau. Byddai Dafydd Owen, hen ofalwr Ysgol Dyffryn Nantlle yn dweud wrthym ni hogia mai gan Ifs yr oedd y droed chwith gletaf a welodd erioed – wedi torri dau arddwn goli o Gaerwen a fu'n ddigon gwirion i roi ei ddwylo yn ffordd un o'r ergydion hynny. Yn sicr yr oedd yn bel droediwr o fri yn ei ddydd – bu efo Wrecsam am gyfnod, a byddai wrth ei fodd dangos rhaglen gêm brawf yno gyda rhai o fawrion y dydd ar y cae – ac yn eu plith ar yr asgell chwith 'Roberts' Penygroes.

Ac mi fyddai'n hynod falch o'i ddyffryn genedigol a Chymru. Byddai'n gwybod am bobl gyda chysylltiad â'r dyffryn yn y llefydd rhyfedda ac yn medru olrhain achau dros genedlaethau os byddai hynny'n medru profi rhyw gysylltiad â Phenygroes iddo. Os byddai rhywun ar hyd a lled y byd efo enw a swnia'n Gymreig mewn unrhyw ffordd, byddai Ifs am eu mabwysiadu fel Cymry. Clywais ef yn ei ffordd bryfoclyd ei hun yn haeru sawl gwaith y dylai cricedwyr fel Roberts, Davies, Williams, etc., chwarae efo Morgannwg i gyd, d'oedd wahaniaeth yn y byd fod eu crwyn cyn ddued â'r glo – roedd eu henwau yn awgrymu tras Gymreig a dyna oedd yn bwysig.

Byddai wrth ei fodd yn tynnu coes – yn ysgafn bob amser, a byth yn bersonol. Chlywais i erioed mohono yn cael gair croes efo neb, nac yn dweud dim beirniadol am neb, ac mewn ugain mlynedd a mwy yn yr un ysgol, – y mae hynna'n ddweud go fawr. Byddai rhai o'i ddywediadau yn ogleisiol. Mae'n anodd peidio â phwffian chwerthin rwan wrth feddwl amdano wedi mynd i bysgota un haf sych, ac yn cwyno y bore canlynol fod y dŵr mor isel yn yr afon nes bod y pysgod ynb codi llwch

Byddai ganddo ddiddordeb mawr yn y disgyblion fyddai wedi bod dan ei ofal; wrth ei fodd eu gweld yn gwneud yn dda. Byddai'n cystadlu'n flynyddol mewn cystadleuthau – yr Urdd, y Genedlaethol, Cadbury's. Waeth beth fyddai'r gystadleuaeth, byddai ymdrechion o Frynrefail yn cael eu hanfon yn gyson – ac yn hynod o lwyddiannus. Bron na fyddai'n amhosibl rhestru'i lwyddiannau dros y blynyddoedd. Ei unig ymateb pan wnaech ei longyfarch fyddai "Mi wnaethon yn reit dda, 'ndo" Ond gwyddech ar yr un pryd ei fod wrth ei fodd drostyn nhw. Os rhoddodd athro erioed gyfle i blant ymestyn eu hunain, Evie, yn ei ffordd ddiymhongar ddiymwthiol oedd hwnnw.

Byddai wrth ei fodd arbrofi. Rwy'n cofio un flwyddyn i ni gael rhyw arholiad lefel 'O' 'Fabric Design'. Yr hyn nad oedd neb wedi sylweddoli oedd mai'r unig ffordd i gael y 'design' ar y 'fabric' oedd ei waldio efo gordd. Ac am beth a ymddangosai fel wythnosau bywgilydd buom yn gwrando ar ddosbarth ar ôl dosbarth yn cnocio gydag afiaith, ac Evie yn y canol yn gwbl ddigynnwrf. Mi lwyddodd Mr David Jones, y Prifathro i'w ddarbwyllo erbyn y flwyddyn wedyn, a dychwelodd heddwch i'r ysgol.

Byddai'n anodd . cael aelod ffyddlonach mewn ysgol nag ef – unwaith yn unig y mae gennyf gof iddo golli – a hynny pan gafodd drawiad drwg o'r eryr. Ar wahan i hyn byddai mor gyson â'r dydd – yn aml yn ymdrechu i gyrraedd, yn amlwg heb fod hanner da, ond ni allai neb ei ddarbwyllo i aros gartref.

Os haeddodd rhywun ymddeoliad dedwydd, Evie oedd hwnnw. Roedd ganddo gymaint o ddiddordebau i'w ddifyrru – arlunio, crwydro, casglu darluniau print, hel darluniau hynafol o'i ddyffryn. Roedd ganddo gymaint amrywiaeth ar ei blat teimlech na allai byth ddiflasu. Ond nid felly y bu. Ychydig fisoedd ar ôl iddo ymddeol fe'i trawyd gyntaf gan yr afiechyd ciaidd, a oedd i'w ddinistrio o fewn tair blynedd fer. Ymdrechodd yn galed. Byddai'n ymddangos ar brydiau ei fod ef am ei orchfygu, ond yna deuai'r adroddiad ei fod yn ôl yn yr ysbyty, ac nad oedd arno eisiau gweld neb. Evie yn amharod am sgwrs, roedd yn anodd dychmygu'r peth, ond dyna'r arwydd sicraf i mi o'i waeledd. A bythefnos yn ôl daeth y newyddion am ei farwolaeth. Mae'n drist meddwl ei fod o wedi mynd – na chlywn ni mohono yn ymffrostio'n ddiniwed yn ei ddyffryn, neu yn ei bel droed. Yr unig beth y gellir ei ddweud yw iddo fyw bywyd cyfoethog ei amrywiaeth a bod ein bywyd ninnau gymaint tlotach o'i golli.

Alwyn Pleming

Mr Evie Roberts,
Pennaeth Adran Gelf 1957-82

Fe fu Evie Roberts, a fu farw ddydd Sadwrn Medi 13eg, yn athro Celf yn yr Ysgol am chwarter canrif. Yn ystod yr amser yma daeth yn bur enwog fel athro Celf arbennig o ddawnus, gyda'i ddisgyblion yn cael canlyniadau arholiad ardderchog yn ogystal ac ennill mewn llu o gystadlaethau. Yr oedd hyn yn arbennig o wir am Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, ac nid âi blwyddyn heibio heb i'w ddisgyblion ennill sawl gwobr yn yr Adran Gelf. Yr oedd yn gymeriad hoffus dros ben, yn barod iawn ei gymwynas. Yr oedd ei gyd-athrawon â'i ddisgyblion fel ei gilydd yn ei hoffi ac yn ei barchu ac y mae dyled cenedlaethau o blant yr ardal hon yn fawr iddo.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w weddw Marberth ac i'r teulu i gyd.

W.E. Thomas

AR EICH SGRÎN – DROS Y GAEAF

YR "HEN" – A'R "NEWYDD"

POBOL Y CWM

Nos Sul, Hydref 5 bydd **Pobol y Cwm** yn dychwelyd i'r sgrîn am y drydedd gyfres ar ddeg.

Bydd y mwyafrif o gymeriadau adnabyddus Cwmderi i'w gweld yn y gyfres newydd, ond fe gaiff amryw ohonynt droeon annisgwyl, rhai'n ddifyr a rhai'n ddifrifol. Fe geir hefyd gymeriadau newydd, gan gynnwys gweithiwr yn lle Dic Deryn yn y Bragdy a rhywun yn ymgartrefu gyda Sylvia Bevan yn Llwynderi ac un arall gyda Carol Gwyther. Ac ar ôl ei wahardd rhag mynd i'w hen gartref fe fydd rhaid i Stan Bevan gael lle i fyw. Cawn ymweld â Brynawelon ac â'r dafarn â'r caffi â'r siop yn ôl yr arfer. Fe awn hefyd i'r ysgol lle bydd Beth yn brifathrawes nid yn unig ar y plant ond ar J.W. hefyd!

HEL STRAEON

Gair yw hwn i'ch atgoffa y byddwn 'mewn busnes' yn fuan iawn: eisoes yn brysur yn wir yn 'Hel Straeon' ar gyfer y rhifyn cyntaf o'r rhaglen newydd fydd yn cael ei darlledu ar y 15fed o Hydref.

Chwilio rydym am unrhyw beth sy'n adlewyrchu bwrlwm a llawnder bywyd bro – ei lliw, ei llwyddiannau, ei throeon trwstan ac, yn achlysurol, ei thristwch hefyd. Ond, ran fynycha' bydd y pwyslais ar y difyr, y diddorol, yr anarferol neu'r prin.

Felly beth amdani? Anfonwch eich syniadau rhag blaen er mwyn i'ch bro chi gael sylw Cymru gyfan?

Cysylltwch â Ffilmiau'r Nant,
Gronant,
Caernarfon
Ffôn: 77595

Cofio Harri Gwyn

Ar ddydd Sadwrn, Hydref 11eg, cynhelir cyfarfod arbennig iawn – wedi ei drefnu gan Yr Academi Gymreig – ym Mhlas Menai ger Caernarfon, i gofio Harri Gwyn.

Bydd y diwrnod yn dechrau gyda choffi am 10.30 am ac yn ystod y dydd bydd TECWYN LLOYD yn cyflwyno portread o ryddiaith Harri Gwyn gyda TREFOR EDWARDS yn darllen ei waith. Cawn hefyd atgofion personol gan JOHN ROBERTS WILLIAMS, WIL SAM ac IFOR REES a bydd BRYAN MARTIN DAVIES yn cyflwyno portread o'i farddoniaeth. Ceir hefyd arddangosfa lenyddol wedi'i pharatoi gan Uned Ymchwil yr Academi.

DERWYN HUGHES
Treflys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
870945

Am nenfydau a waliau siapus

Artex

SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU?
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFLUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YSGOL TAN-Y-COED
Derbyniodd tri o'r plant Dystysgrifau Presenoldeb Llawn am y flwyddyn 1985-86 sef Dyfan Evans, Elisabeth Ann Jones a William Lewis. Da iawn chi blant!

YSGOL SUL BOSRA
Fe ail gychwynodd yr Ysgol Sul ar Fedi 7fed, wedi gwyliau'r haf. Daeth pymtheg o blant yno a chroesawyd Wena Williams sy'n bedair oed i'n plith. Bydd y plant yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth Cymdeithas y Beiblau yn Eglwys Santes Helen, bnawn Sul, Hydref 5ed am 2.0 o'r gloch. Bydd gwasanaeth Diolchgarwch ganddynt fore Sul, Hydref 19 am 10.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

EGLWYS SANTES HELEN
Dydd Sul, Medi 21ain, cyflwynodd Bryn Griffith anrheg i Siôn Williams am ei ffyddlondeb i'r Eglwys. Bydd Siôn yn dechrau ei yrfa yn y Brifysgol yn Huddersfield. Dymunwyd pob llwyddiant iddo i'r dyfodol.

Fe gynhelir gwasanaeth Cymdeithas y Beiblau ddydd Sul, Hydref 5ed. Gwasanaeth y Plant am 2.00 a Chymanfa Ganu am 6.00. Dydd Sul Diolchgarwch, Hydref 19, gweinyddir y Cymun Bendigaid am 10.30a.m. a phregeth am 4.30 p.m. Bydd Ffair Hydref yn cael ei chynnal nos Lun, Hydref 20fed yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

LLONGYFARCHIADAU
Ganwyd mab bychan, David John i Rhian a John, merch Eiriona ac Ieuan Williams, Glyn Euron. Llongyfarchiadau iddynt fel teulu. Fe groesewir Manon Glyn yn gynnes i'n plith yn Stâd Bryn Eglwys – merch fach i Ffion a Derec. Llongyfarchiadau i'r rhieni, ac i nain a taid, sef Myfanwy a Dic Parry, Tawelfor. Y mae Tom Parry, Porthmadog a ddathlodd ei benblwydd yn 100 yn ddiweddar yn **hen hen daid** i Manon Glyn, Llongyfarchiadau iddo yntau.

Pob dymuniad da i Mr a Mrs E Hughes, Tŷ Newydd, Cae Hywel ar eu Priodas Ruddem, Medi 21ain, oddi wrth Ann, Alun, Bryn, Pat, Irfon, Heddwen a'r wyrion.

Llongyfarchiadau i Hefina Jones, Tai Arthur, llwyddodd mewn arholiad i'r piano Gradd 3. Da iawn chdi Hefina!

"RARGIAN FAWR!"
Nos Iau, Awst 28ain, aeth llond bws i'r Ganolfan yn Llanfairfechan fel rhan o gynulleidfa rhaglen deledu Gari Williams "Rargian Fawr!" Fe fwynhaodd pawb ei hun yn fawr – er fod **un** ohonom yn ysu am dynnu hynny o wallt! sydd gan Gari pan gaiff afael ynddo y tro nesaf!

OLIVER
Nos Wener, Awst 29ain, trefnwyd bws gan Ann Patterson i fynd i weld 'Oliver' yn Theatr Gwynedd. Cafwyd perfformiad penigamp ac roeddem yn hynod falch fel pentrefwyr o gael gwylio Dyfed Jones, Bryntirion, yn cymryd rhan yn y Côr. Rydym yn sicr fod hyn wedi bod yn brofiad amhrisiadwy i Dyfed a dymunwn pob llwyddiant iddo eto i'r dyfodol.

"O LAW I LAW"
Y mae'r bws i Theatr Gwynedd i weld addasiad o nofel enwog T. Rowland Hughes yn llawn. Bydd yn cychwyn o King am 6.45 p.m. nos lau, Tachwedd 6ed.

CYDYMDEIMLO
Medi 17, yn dawel yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon, bu farw Hughie Wyn Jones, 89 Cae Mur, Caernarfon, ac yntau ond 64 mlwydd oed. Roedd yn briod i'r diweddar Elisabeth a thad hoff Yvonne, Stephen a Sioned, a thaid cariadus Katy a Robin a thad yng nghyfraith Richard. Roedd yn ddarllenwr cyson o'r Eco a chydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll. Cydymdeimlwn yn arbennig â'i chwaer Mrs Maggie Rees Thomas, Mrs B E Hughes, ei nith, a Mrs Mary Davies, chwaer yng nghyfraith. Bu'r angladd ddydd Sadwrn, Medi 20fed ym Mynwent Santes Helen.

Cydymdeimlwn â Mr Iorwerth Thomas, Bron Gaer, yntau wedi colli ei frawd, Elfed Thomas yng Nghwmbria.

DIOLCH
Dymuna Bronwen a Kevin Jones, Cae Glas, Rhiwlas, ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion ar enedigaeth eu mab bychan, Rhys.

Dymuna teulu y diweddar Hughie Wyn Jones, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth.

SGANIWRAMA
Cynhelir noson o hwyl a chwerthin gan Ffyliaid y Fro yn Ysgol Brynrefail, nos lau, Hydref 9fed am 7.30 Yr arweinydd fydd Arwel Jones. Bydd elw'r noson yn mynd at apêl y Sganiwr. Felly, dowch i gefnogi'r apêl hwn. Fe drefnir bws o'r pentref, enwau i Elisabeth Jones, os gwelwch yn dda.

CLWB CANT
Gweithgaredd mis Medi fydd Bingo yn Neuadd yr Eglwys, nos Wener, Medi 26 am 6.30

Nos Calangaeaf yw nos Wener, Hydref 31 – bydd cystadlaethau yn Neuadd yr Eglwys a'r beirniad fydd Anwen Jones.

GWELLA
Gobeithio fod yr Ha' Bach Mihangel wedi gwneud i lawer ohonoch deimlo'n well yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion at bawb ohonoch sy'n dioddef a dymunwn adferiad iechyd buan i chwi.

CLWB YR HEULWEN
Treuliwyd 'pnawn difyr yng nghwmni Selwyn Griffith, Crud yr Awen yn son am Farddoniaeth ac Adroddiadau i Blant o'i waith ei hun. Dywedodd fel y bu iddo gael y gwahoddiad cyntaf i feirniadu adrodd yn Eisteddfod Bentref Penisarwaun, ac ar ôl hynny bu'n beirniadu led-led Cymru ac yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Diolchwyd iddo gan Mrs K Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Gwynedd Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Fisher a Mrs G Lewis. Bydd y cyfarfod nesaf, ddydd Mawrth, Hydref 21.

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands

SGANIWRAMA: Cynhelir noson o hwyl a chwerthin gan Ffyliaid y Fro yn Ysgol Brynrefail, nos lau, Hydref 9fed am 7.30. Yr arweinydd fydd Arwel Jones. Bydd elw'r noson yn mynd at apêl y Sganiwr.

SYMUD O'R ARDAL
Yn ystod y mis diwethaf aeth Mr a Mrs V Smith, Gareth ac Iestyn, 1 Tan-y-Bryn i fyw i Frynrefail. Pob dymuniad da a hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

TÎM PÊL-DROED
Colli o chwe gôl i ddwy fu hanes y tîm yn erbyn Caernarfon yn ddiweddar gydag Andrew Roberts a Mark Porter yn sgorio i Cwm. Gwell lwc i chwi hogia yn y gêm nesaf.

YMDDIHEURIAD: Yn rhifyn diwethaf yr Eco anfonwyd dymuniadau da i'r Arolygydd Gwyrfai Jones ar ei ddyrchafiad gyda'r Heddlu a dymuniad da i'r teulu yn eu cartref newydd yn y Rhyl. Deallir nad yw'r teulu wedi symud o Ddinbych. Mr Jones sydd wedi symud i weithio i swyddfa'r heddlu yn y Rhyl.

DIOLCH: Dymuna Mrs Moreen Lennon ddatgan ei gwerthfawrogiad i bawb am y caredigrwydd a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei hymddeoliad.
Ymddiheurwn nad oedd y diolchiadau yma i fewn yn yr Eco fis diwethaf.

CLWB Y MAMAU A MERCHED IFANC
Cyfarfu'r aelodau yn y Ganolfan Gymdeithasol nos Fercher, Medi 3ydd. Treuliwyd y noson yn trefnu rhaglen ar gyfer y tymor newydd. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Hydref 1af am 7.30, pryd y ceir arddangosfa Gemau. Croeso cynnes i aelodau newydd.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Miss Warder, 1 Maes Gerddi, sydd yn yr ysbyty.

YN GWELLA: Da yw deall for Huw, mab Wil ac Anwen Davies, Alexandra House, yn gwella ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion

LLONGYFARCHIADAU i Theresa a Dafydd ar enedigaeth eu mab bach, Thomas Bleddyn. Mae Llinos Haf wrth ei bodd yn mynd â'i brawd bach am dro yn y pram.

Y TRIP
Cafodd trigolion y Nant drip difyr i Rhyl a Chaer ddydd Sadwrn, 20fed o Fedi.

SCANIWR
Mae pentref y Nant wedi casglu £1,025.00 tuag at gronfa y Scaniwr.

SPASTICS
Casglodd Mrs B. Humphreys, Gwastadnant, £18.00 tuag at gronfa y Spastics, a hoffai ddiolch i bawb a gyfranodd.

SGANIWRAMA: Cynhelir noson o hwyl a chwerthin gan Ffyliaid y Fro yn Ysgol Brynrefail, nos lau, Hydref 9fed am 7.30. Yr arweinydd fydd Arwel Jones. Bydd elw'r noson yn mynd at apêl y Sganiwr.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Y Bistro
Glandŵr
43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)
Amser Cinio o ddydd Llun i ddydd Gwener
Gwahoddir partïon o rhwng 6 a 15 i wylio Nerys yn coginio ac ymuno yn y gwaith – Pris **£7.50** yn cynwys cinio.
Bob nos ag eithrio nos Sadwrn pryd blasus 3 chwrs yn defnyddio bwydydd tymhorol gorau **£8.00**

AM DDEWIS HAEL A GWASANAETH CYFEILLGAR DEWCH I
SIOP GRON
A SWYDDFA'R POST
PENISARWAUN
Ffôn:
Llanberis 871272
CANOLOG I'R FRO

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Geralltt, Erw Wen (C'fon 3536)

PLAID CYMRU

Nos Wener, 12fed o Fedi, cynhaliwyd Cinio Glyndŵr yn Llety er mwyn dathlu Diwrnod Owain Glyndŵr (Medi 16). Ymunodd cangen y Waunfawr gydag aelodau Caeathro a'r Bontnewydd. Yn anffodus, oherwydd salwch, nid oedd y siaradwr gwâdd yn medru bod yn bresennol. Felly, ar fyr rybydd, camp fawr oedd araith gampus Geraint Lloyd Owen ar fywyd Bob Lloyd (Llwyd o'r Bryn). Enillwyd y raffl gan Mr Edgar Owen, Y Waunfawr.

Ar nos Wener, 17 Hydref, am 7 yr hwyr yn yr Hen Ysgol, Bontnewydd, cynhelir noson "Doniau Lleol" o dan arweiniad Geraint Lloyd Owen. Bydd talent lleol fel Parti Cerdd Dant Awen Llwyd (Enillwyr yn Abergwaun eleni), Parti Telynau Eryri (Enillwyr ym Methesda eleni), Robat Wyn, Grŵp Wendy, Sian Arfon, Madam Sera a Deiniol Hughes, yn cymryd rhan, gydag eitemau ychwanegol. Tocynnau wrth y drws, neu ymlaen llaw gan Clive James, Hafan.

CAPEL

Cynhelir y gwasanaethau Sul canlynol:-

Medi 28: 2.00 – Albert Jones, Caeathro

Hydref 5: 2.00 – Parch Gareth Maelor Jones

Hydref 12: 2.00 – Parch H J Hughes, Porthaethwy

Hydref 19: 2.00 a 5.30 – Gwasanaethau Diolchgarwch

Hydref 26: 2.00 Glyn Owen, Dinas.

Bydd yr Ysgol Sul pob dydd Sul am 2.00 yn y Festri.

ADREF O'R YSBYTY

Da yw clywed fod Mrs Albert Jones, 14 Rhes Glangwna; Mrs Joan Appleton, Hafan a Mrs Dickenson, Cae Mawr yn gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Yno o hyd mae Mrs Owen, Llwyn Celyn, a dymunwn wellhad buan a llwyr iddi.

DAMWAIN

Disgynodd Arwel Griffiths, 5 Rhes Glangwna, wrth chwarae yn y pentref yn ddiweddar, a bu'n rhaid ei gludo i Ysbyty Gwynedd gydag anafiadau i'w gefn. Wedi ei bwytho i fyny, cafodd ddod adref, a bydd ei ffrindiau bach i gyd yn falch o glywed y bydd allan yn chwarae pêl-droed cyn bo hir!

SIOE CYNNYRCH TŶ A GARDD

Cynhaliwyd y sioe ar Awst 30, a bu'n lled llwyddiannus. Er y tywydd garw a gafwyd yr ha' 'ma, roedd arddangosfa hardd iawn o flodau a llysiau o'r gerddi lleol. Bu'r merched a'r plant yn brysur hefyd yn eu hadrannau. Y beirniad coginio oedd Mrs Megan Williams, Cefn Tryfan, Groeslon, a'r beirniad cynnyrch gardd oedd Mr J W Jones, Coedwig, Bontnewydd. Dymuna'r pwyllgor ddiolch iddynt yn ddiffuant am eu gwaith.

CANLYNIADAU:

Dosbarth 1 – Blodau: 1. Gladioli – Arwel Roberts; 2. Trefniant o flodau – Deiniol Hughes; 3. Cawg o Dahlias – Mrs Hemsworth; 4. Casgliad o Bys Pêr – Deiniol Hughes; 5. Hydraenga – Mrs Hemsworth; 6. Rhosynnau – Clive James; 7. Rhosyn Ffloribunda – Deiniol Hughes; 8. Rhosyn Arbennig – John Ifor Hughes; 9. 3 Marigold – Deiniol Hughes; 10. 3 Aster – J Ifor Hughes; 11. Cactii mewn pot – J Ifor Hughes; 12. Unrhyw blanhigyn blodeuog mewn pot – J I Hughes; 13. Planhigyn na flodeua – Mrs Heulwen Atkinson; 14. Fuchsia – J Ifor Hughes.

Dosbarth 2 – Llysiau: 1. Tomato – E W Williams; 2. Letusen Gron – J I Hughes; 3. Cucumer – J I Hughes; 4. Ffa Dringo – Mrs Hemsworth; 5. Codau Ffa – Arwel Roberts; 6. Codau Pys – Mrs Hemsworth; 7. Winiwn o Hâd – Deiniol Hughes ac Arwel Roberts; 8. Winiwn o sets – Mrs Hemsworth; 9. Tatws – J I Hughes; 10. Moron – Deiniol Hughes; 11. Betusen Gron – Deiniol Hughes; 12. Rhiwbob – Deiniol Hughes; 13. Powlenaid o unrhyw ffrwyth allanol – Clive James; 14. Afalau coginio – Clive James; 15. Afalau bwyta – Clive James.

Dosbarth 3 – Coginio: 1. Bara brith – Mrs Sarah Hughes; 2. Fflan Ffrwythau – Vera Roberts; 3. Teisen Blat – Alwen Hughes; 4. Teisen wedi ei haddurno – Gwenno Hughes; 5. Lemon Myrang – Vera Roberts; 6. Teisen Ddwbwl Jam – Einir Roberts; 7. Teisen Ddwbl Siocled – Einir Roberts; 8. Swis Rôl – Vera Roberts; 9. Cacen Gri – Mrs Hemsworth; 10. Sgons – Beryl Roberts; 11. Breudoes – Ffion Hughes; 12. Mins Peis – Einir Roberts; 13. Cacen Gwstard Ŵy – Beryl Roberts; 14. Crempog – Heather Jones; 15. Salad – Mrs Atkinson; 16. Cîsh – Heather Jones; 17. Pitsa – Alwen Hughes; 18 Jam – Heather Jones; 19. Marmalêd – Heather Jones; 20. Chytni – Alwen Hughes.

Dosbarth 4 – Plant: 1. Teisennau Pili Pala – Manon Hughes; 2. Teisennau bara – Einir Jones; 3. Collage – Ceri Roberts; 4. Cîsh – Nia Jones; 5. Teisennau Pili Pala (plant hŷn) – Ffion Hughes; 6. Llun syrcas – Llŷr Roberts; 7. Tegan Meddal – Lois Roberts.

Dosbarth 5 – Gwau: 1. Plant o dan ddeg – Eirian Roberts; 2. Oedolion – Kathy Hughes.

PLYGU'R ECO

Plygu Rhifyn Tachwedd

Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo

Nos Iau, Hydref 30ain am 6.00 o'r gloch

O SIOE ARDDIO CAEATHRO

Cadeirydd, Clive James, yn llongyfarch Heather Jones a Deiniol Hughes am ennill cwpanau am y marciau uchaf drwy'r sioe i gyd.

Plant y pentref yn arddangos eu gwaith

Pobl ifanc y pentref

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

AR AGOR 9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU SUL, MERCHER.

Ffôn 291
(yn ystod oriau agor)

GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES' O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON

LLANRUG

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

ENWOGION ABERGWAUN

Cewch ddarllen heddiw farddoniaeth rhai o feirdd enwog Abergwaun. Yr oedd y farddoniaeth ganlynol a lluniau'r beirdd wedi eu rhoi ar bared Y Babell Lên yn yr Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun eleni.

Dŵr Cymru

Ar ganol y pared yn y Babell Lên, yn y cyntedd fel petae, yr oedd y geiriau yma – **Dŵr Cymru sydd yn noddi y Babell Lên:**

Wele wyrth, yng nghostrel hen ddiwylliant!
I ddiwallu'n hangen
Ein dŵr ni'n lli droir yn llên,
Ein Dŵr ni droir yn awen.

Gerallt Lloyd Owen

Waldo

Pa werth na thry yn wawd
Pan laddo dyn ei frawd

Trefin

Nid coron y gogoniant
A grea sel y gwir sant.

Y Preselau

Daear ramant a garw drumau – cwmwd
Y comin a'r creigiau,
I'n cenedl, tir ei chwedlau
Anial fyd yr hen helfau.

Tomi Evans

T.E. Nicholas

Mae wedi newid heddiw
Caraf y byd o'r bron,
Ond nid oes llai o le i'm gwlad
Er hynny yn fy mron.
Mae'r byd yn fwy na Chymru,
'Rwyn gwybod hynny'n awr,
A diolch fod hen Gymru fach
Yn rhan o fyd mor fawr.

Nicolas

Waldo Williams

Crynwr a Bardd

D.J. Williams

Ni leddir iaith na chenedl byth
Ond gan ei phobl ei hun.

Dewi Emrys
(Sylwch ar dafodiaith Abergwaun!)

Ond weles i ddim dyn eriwêd
Yn gadel ins ôl'idrwed
Ond ma'n nhw'n gweld i fod e' Dai Beca
Yn mentro lawr na weithie i wreica
Ma'n rhaid fod gidag è dra'd gafar,
Neu lwybir ciwt trwy fola'r ddeiar.
Tawn i'n gweld rhywun yn Pwllderi
Fe redw gartre pentigili.

Dewi Emrys

D.J. Davies

Ei hamynedd boneddig
A ddug feichiau dyddiau dig,
A rhoed poen ei chariad fer
Odanynt hwy yn dyner.

Jams Nicolas (Y Cofiadur)

Bro â'i hedd yn hedd gweiddi – a hi'n haf
Yw Dyfed fy ngeni:
Wele hudol yw oedi
Ar draeth ei harfordir hi.

Jams Nicolas

Eurwyn George

Yng nghanwyllau ein llygad
Mae haul y Groes,
Hen waddol o oes y seintiau,
Yn dallu fflach y picellau niwcliar.
A phelydr ein ffydd.

Dyfed

I Galfaria trof fy wyneb –
Ar Galfaria gwyn fy myd!
Y mae Gras ac anfarwoldeb
Yn diferu drosto i gyd.
Pen Calfaria
Yno f'enaid gwna dy nyth.

Dyfed

J.T. Job

Cofia'r byd! O! Feddyg da,
A'i flinderau:
Tyr'd yn glau a llwyr iacha
Ei ddoluriau.
Cod y bobloedd ar eu traed
I'th wasanaethu
Ti a'u prynaist trwy Dy waed
Dirion Iesu.

Job

Llwyd

Mi garwn gynnes breswyl
A maenor yng Nghwm annwyl
Abergwaun – gwlad bwrw a gŵyl

Parc yr Arfau

Daear hud yw'r erw hon,
Cartre cewri'r tair coron.
Meca'r gêm yw cyrrau gwyrdd
Stadiwm y llawr gwastadrwydd.

Dic Jones

Yr Olwg Olaf
(Cyflwynedig i'r milwyr dall)
gan Dilys Cadwaladr

Allan o noddfa'r ffos â llam,
A'r gynnau mawr yn gysgod,
Aethom i uffern goch y fflam,
Wedyn i'r nos ddiddarfod.

Yn ôl i'n gwlad gan ddiolch oll,
Am einioes wedi'r helynt.
Ein baich wrth gofio'n llygaid coll
Yw'r gweld ofnadwy hebddynt.

Hon oedd y Delyneg fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol 1939

Ai Diargoel Yfory?
gan Dr Gwilym Arthur Jones

Ymddangosodd y llinellau canlynol yn y llyfryn "Hanes yr Achos" ar gyfer y Sasiwn a gynhaliwyd yng Nghaernarfon 15-18 Medi, 1986. Dr Tom Ellis, Penygroes, Llywydd Henaduriaeth Arfon roddodd air o gyfarch a chroeso i'r Gymdeithasfa yn y llyfryn.

Fel hyn:
O gyrred Iôr ei gerrynt!
Deifiol ias y Dwyfol Wynt,
I'n cipio tua'r capel,
Pobl yr egwan, simsan sêl.
Cordded ferddwr ein cyrddau
A'n brith ystrydebau brau,
A'n dychwelyd i chwilio
Am rym ei ras eirias O;
Ac â'i dân dysged inni
Lef yr Oen ar Galfari.

Dewi Machreth Ellis
(Tregarth gynt)

DRAENOG

Gŵr a Gwraig o Lanrug yn gwneud yn siŵr o gael lle yn Eisteddfod Butlins. Mynd yno wythnos cyn yr ŵyl. Mae'n debyg y byddent yn mynd i Lundain mis nesaf ar gyfer y January Sales.

O BANTRI BETH

SIYTNI TOMATO

pwys a hanner o domatos gwyrdd
pwys o afalau
pwys a hanner o nionod
pwys a hanner o siwgwr brown
peint a hanner a finegr
owns o sinsir
hanner llwy de o turmeric
llwy fwrdd o halen
3 llwy fwrdd o flawd corn

Rhowch y tomatos, afalau a'r nionod drwy faniwr. Ychwanegwch beint o finegr a'r siwgwr a'i ferwi am 5 munud. Yn y cyfamser cymysgwch y cynhwysion sych efo gweddill y finegr. Rhowch hwn yn y sosban a'i ferwi am ddwy funud a'i botelu.

MWYNHAU YN Y BALA

Plant Ysgolion Sul Bethel, Tan-y-coed a Llanrug yn amlwg yn mwynhau eu hunain ar ymweliad pen-wythnos â'r Bala.

APÊL YMCHWIL Y GALON

Mae Pwyllgor Caernarfon a'r Cylch o Apêl Ymchwil y Galon yn cynnal noson goffi arbennig iawn ar nos Iau, Hydref 30ain. Ar y noson honno cyflwynir siec am £4,750 i Mr D Heeseman, Trefnydd yr Apêl yng Nghymru. Codwyd yr arian yn lleol yn ystod eleni, lawer ohono mewn gwahanol gasgliadau o dŷ i dŷ, a rhoddion eraill er cof am anwyliaid a fu farw o glefyd y galon. Dymuna Pwyllgor Caernarfon a'r Cylch ddiolch o galon i holl ardalwyr bro'r 'Eco' am eu haelioni a'u cefnogaeth i'r mudiad hwn gydol y flwyddyn a aeth heibio.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi trefnu i werthu cardiau Nadolig Cymraeg at yr achos; yr holl elw yn mynd tuag at Apêl Ymchwil y Galon. Os oes unrhyw rai'n dymuno prynu'r cardiau, gellir eu harchebu gan Mrs Mai Parry, 2 Bryn Heli, Llanrug (Ffôn: Caernarfon 4385).

YN AGOR YN FUAN ...

CARTREF HENOED
Y
FOELAS
LLANRUG

Am fwy o fanylion cysylltwch â
MEIRWEN THOMAS, CAERNARFON 4652

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

SGANIWRAMA: Cynhelir noson o hwyl a chwerthin gan Ffyliaid y Fro yn Ysgol Brynrefail, nos lau, Hydref 9fed am 7.30. Yr arweinydd fydd Arwel Jones. Bydd elw'r noson yn mynd at apêl y Sganiwr.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL
Bydd y cyfarfod agoriadol nos Fercher, Hydref 8fed am 7 o'r gloch yn Festri Pontrhythallt.

Y siaradwr fydd y Parch Emlyn Richards, B.A.,B.D.,Cemaes, a'i destun fydd "Rhwng Môr a Mynydd". Estynir gwahoddiad cynnes i bawb, a bydd cyfle i aelodau hen a newydd ymaelodi.

Mae rhaglen amrywiol eisoes yn barod ac ar gael gan yr Ysgrifenyddes, Mrs E W Thomas, Dolwar. Sylwer mai ar **nos Fercher** fydd y cyfarfod cyntaf.

MERCHED Y WAWR:
Dechreuodd tymor newydd y gangen ar nos Fawrth, Medi'r 9fed yn Ysgol Gynradd Llanrug. Cafwyd cyfarfod diddorol ac addysgol iawn yng nghwmni Miss Ceri Pierce, yr ymwelydd iechyd. Ei thestun oedd 'lechyd Gwell' a bu'n ymdrin â mudiad 'Curiad Calon Cymru'. Bellach fe wyddom fod mwy, ar gyfartaledd, yn dioddef o glefyd y galon yma yng Nghymru nag yng Ngwledydd eraill Prydain.
Dangosodd Miss Pierce sut y gall pob un ohonom geisio goresgyn peryglon yr afiechyd. Rhaid ystyried ein deiet a thrwy hynny beidio cario gormod o bwysau, gwylio ein pwysedd gwaed a pheidio ysmygu. Fe ddylem gael digon o ymarfer corfforol, ac yr un mor bwysig, dysgu ymlacio. Mae'n debyg mai geiriau mwyaf eironig y noson oedd fod "hanner y byd yn marw o newyd tra bod yr hanner arall yn marw o ofer-fwyta."

Diolchwyd i Miss Pierce gan Mrs Meryl Green. Cydymdeimlodd y llywydd, Mrs Menna Williams â Mrs Ceinwen Roberts, Ael y Bryn, a gollodd ei brawd yn ddiweddar. Anfonwyd cofion at Mrs Evans, Lloc sydd bellach wedi dod o'r ysbyty ac yn gwella a hefyd at Mr Alan Lovatt sydd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd. Ganwyd mab arall i Alan yn ystod y gwyliau. Llongyfarchiadau eto i nain – Mrs Nansi Lovatt. Daeth Mrs Heulwen Evans yn fam newydd sbon i Urien Deiniol ym mis Gorffennaf a diwedd Awst ganwyd Berian, ail fab i Mrs Owenna Elias. Mae hi bellach wedi ymgartrefu yn Chwilog ac anfonwyd ein dymuniadau gorau ati.

Braf oedd croesawu aelodau newydd a pharatowyd paned i bawb gan Miss Phyllis Elis, Mrs Myfanwy Parry, Mrs Marina Williams, Mrs Ann Griffiths, Mrs Gwena Roberts, a Mrs Jean Roberts. Diolchwyd iddynt hwythau gan Mrs Gillian Morris Mrs Joyce Jones enillodd y raffl.

Bydd Mr Rol Williams yn sôn am 'Tren yr Wyddfa' yn ein cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Hydref 14eg.

YN EISIAU
Rhywun i fod yn gyfrifol am y Croesair. Cysyllter â'r golygydd.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

DIOLCH
Dymuna Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir, Dinorwig, ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, cymdogion, cyd-swyddogion Awdurdod Dŵr a ffrindiau am y llu cardiau, blodau a rhoddion a dderbyniodd yn ystod ei harhosiad yn ddiweddar yn yr ysbyty. Diolch i Staff Ysbyty Gwynedd yn arbennig Meddygon a Staff Ward Gogarth, hefyd y meddyg teulu a Staff Ambiwlans Gwynedd am eu gofal a'u sirioldeb. Diolch hefyd i'r Parch John Morris, Mrs Dilys Jones (warden) Hafan Elan, Mr a Mrs Ifor Williams, Hafan Elan a holl denantiaid Hafan Elan am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da.

PRIODASAU
Llongyfarchiadau i Anwen Davies, Llys Alaw a Kevin Smith, Caernarfon ar achlysur eu priodas ar Awst 30ain.

Llongyfarchiadau hefyd i Linda Owen, Lliwedd a Bryn Griffith, Waunfawr ar eu priodas hwythau ar Fedi 6ed. Da oedd deall for yr Eco wedi bod yn gyfrwng i ddod a hwy at ei gilydd! Mae'n talu i hysbysebu yn yr Eco!!

Priodwyd y ddau gwpl yng Nghapel Mawr gan y gweinidog, y Parch John Morris.

Linda Owen a Bryn Griffith.

DIOLCH
Dymuna Mr a Mrs Bryn Griffith, Waunfawr, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chwsmeriaid Linda am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

GENEDIGAETH
Llongyfarchiadau i Linda a Geraint Rowlands ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, mab bychan o'r enw Siôn Richard. Mae Siôn yn ŵyr cyntaf i John ac Eirwen Rowlands, Llys Forgan.

CYFARFOD Y CHWIORYDD
Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yn Festri Pontrhythallt pnawn lau, Medi 18fed. Llywyddwyd gan Mrs Williams, Bod Fair a dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs Smith, Llechwedd. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs W A Jones, Dalar Deg ar hanesion y chwarel, a diolchwyd iddi gan y Llywydd. Mrs Griffith, Fron Hyfryd a etholwyd yn drysorydd ar ymadawiad Mrs Jones, Bronwylfa i'r Bala. Rhoddwyd y te gan Mrs Ena Jones, Bod Ifor a Mrs J Roberts, Elidir View. Bydd y cyfarfod nesaf mis Hydref 16eg am 2 o'r gloch.

CROESO
Estynir croeso i Mr a Mrs Bryn Hughes, Dylan a Gareth sydd wedi ymgartrefu yn Bronwylfa. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith ym Mhontrhythallt.

GWELLHAD
Dymunir gwellhad buan i Mrs Joe Williams, 17 Bro Rhyddallt, sydd yn glaf yn Ysbyty Gwynedd.

Anrhegu Mr a Mrs H Watkin Jones yn eu cyfarfod ymadawol yng Nghapel Pontrhythallt. Maent wedi ymgartrefu yn y Bala.

Y SEINDORF
Yn ystod yr egwyl mewn cyngerdd a roddwyd gan y Seindorf a Chôr Meibion y Penrhyn yn Theatr Seilo nos Wener, Medi 12fed, enwyd enillwyr y Raffl Fawr. Roedd yr enillwyr fel a ganlyn.
Yn gyntaf, Mrs Jean Jones, Llanrug a enillodd benwythnos i ddau yn Llundain, sef rhodd gan Fwsiau Arfonia. Yn ail, Mrs A Williams, Llanrug a enillodd £30 ac yn drydydd Mr Merfyn Lloyd Jones, Llanrug a enillodd £20. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

CANGEN AMBIWLANS SANT IOAN
Cafwyd helfa drysor yn ddiweddar gan gangen Ambiwlans Sant Ioan. Enillwyd y wobr gan Mrs June Jones, Rhandir Mwyn. Aeth y wobr gysur i Mrs Meirwen Lloyd ac enillwyd y raffl gan Mrs Valmai Owen. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gymerodd ran. Hefyd i bawb a gyfrannodd ar lwyddiant y noson.

YN YR YSBYTY
Bu Mr Gwyn Martin Williams yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunir gwellhad buan iddo.

Penblwydd Priodas Aur Mr a Mrs J G Jones, Ger y Ffynnon, Talybont.

DIOLCH
Dymuna Mr a Mrs John Griffith Jones, Ger-y-Ffynnon, Talybont ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a'u cyfeillion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Cyflwynwyd yr englynion canlynol iddynt gan Mrs Mary Lloyd Williams, sef Mari Lewis, Yr Herald

Siriol fo'ch priodas euraidd – y siwgwr
A'r seigiau yn beraidd:
Oblegid mwy poblogaidd
Ydych chwi na'n Brenhines braidd.

Uwchlaw ing a chlwy angen – chwi fyddwch
Fuddiol ddau yn perchen
Dawn a hwyl heb fynd yn hen
Gŵr glöyw a gwraig lawen.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL
Bydd cyfarfod cyntaf o Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr yn dechrau nos lau, Hydref 16eg gyda Pharti Glannau Menai. Croeso cynnes i bawb. Tâl aelodaeth 50c.

Y swyddogion yn llawn yw Llywydd: Mr Gwilym Rees Parry, Is-lywydd: Mr Eifion Roberts; Trysorydd: Mrs Mair Jones, Ogwen; Ysgrifenyddion: Mrs Jean Davies, Rhydydelyn a Mrs Mai Parry, Bryn Heli.

DIOLCH
Dymuna Beryl, Cledwyn a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ddiweddar yn eu profedigaeth o golli eu mam, hefyd am y rhoddion o £464 a dderbyniwyd tuag at 'ymchwil y galon'.

AR Y RADIO
Y Parch Tudor Owen, Birmingham oedd y pregethwr gwadd ar y radio fore Sul, Awst 24ain. Mab i Mr D Glynne Owen, Llys Eryri yw'r Parch Tudor Owen.

YN EISIAU TREFNYDD PLYGU I'R ECO

CYSYLLTER AG UNRHYW UN O'R GOLYGYDDION

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

NEWYDDION Y SEINDORF
Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ennill yr Ail Wobr mewn cystadleuaeth ym Mae Colwyn ar yr 20fed o Fedi.

Yr oedd pedwar band yn nosbarth B. Dim ond un marc oedd rhwng y buddugwyr a Deiniolen. Yn ôl y beirniad, Major Peter Parkes, "Black Dyke Mills Band" o Swydd Efrog, roedd y safon yn uchel iawn. Gan fod y gystadleuaeth wedi bod mor lwyddiannus, penderfynwyd ei chynnal yn flynyddol.

Canlyniad Dasbarth (B)
1. Seindorf Rhos – 233 marc
2. Seindorf Deiniolen – 232 marc
3. Seindorf Buckley – 229 marc

BEDYDD: Yng nghapel Ebenezer ar y 6ed o Fedi, bedyddiwyd Angharad, merch fach Mr a Mrs G Owen, sydd ar hyn o bryd yn byw yn Llundain, a nith i Mr a Mrs W O Williams, 6 Rhydfadog.

Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch Trefor Lewis

MENTER CHWARAEON DEINIOLEN
Bydd cyfarfod i bawb â diddordeb yn yr uchod nos Fercher, Hydref 15 yn y Ganolfan am 7 o'r gloch. Bwriedir sefydlu Pwyllgor. Os ydych am gefnogi y fenter hon, dewch i'n cynorthwyo.

DIOLCH i chwi oll ar ran fy merch Andrea, 12 Rhes Faenol, am y nifer cardiau a'r anrhegion, i Delyth Bull Inn, am wneud y wisg a'r Pwyllgor Carnifal i gyd.

YMWELIAD Â LLYDAW: Yn ystod wythnos olaf Awst, bu Annette , Olwen a Marina (genod Tŷ'r Ysgol) yn canu draw yn Llydaw.

Fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan mewn cyngherddau gan Gôr Meibion Prysor o Drawsfynydd.

Er mai yn Brest yr oedd y côr a'r genod yn aros, cymerasant ran mewn cyngherddau yn Sainte-Anne-la Palud, Brignogan, Roscoff a Douglas.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y ganolfan ar Fedi 1af, dan arweiniad y llywydd, Mrs. Rita Parry Jones.

Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol. Y wraig wadd oedd Miss Margaret Griffiths, Bangor, yn trafod Bwydydd lechyd. Cafwyd noson ddifyr iawn yn ei chwmni. Talwyd y diolchiadau gan y llywydd. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirlys Jones a Miss Kathleen Jane Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Dilys Williams, Mrs Eirlys Jones, Mrs Betty Williams, Mrs Glenys Williams, Mrs Marian Williams a Mrs Beti Davies.

Dymunwyd yn dda i Mrs Nancy Rowlands sydd heb fod mewn iechyd yn ddiweddar, hefyd Mr Bobi Williams a Mrs Marian Wyn Williams a gafodd ddamwain yn ystod y gwyliau – ac i Delyth, merch Mrs Williams ar ei dyweddiad. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 6ed, pryd y cawn sgwrs am y cyfarfod cyffredinol a gynhaliwyd yn Llundain ym mis Mehefin, hefyd bydd stondin 'Moes a Phryn' (Bring and Buy)

DIOLCH: Dymuna Thomas David Hughes, 'Prenteg', Deiniolen, ddiolch yn gynnes iawn i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd a'u ffyddlondeb yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty. Diolch i staff Ysbyty Gwynedd, yn arbennig i'r meddygon a staff Ward Ogwen a Ward Prysor am eu gofal. Hefyd i feddyg y teulu. Diolch hefyd i'r Prifathro G R M Lloyd; Parch Eifion W Williams a'r Parch Trefor Lewis. Diolch am yr holl gardiau a'r ymweliadau tra bu yn yr ysbyty ac wedi dod gartref.

AM Y TRO CYNTAF: Yn ystod yr haf, cafodd Mrs Catherine Jane Jones, 33 Hafod Oleu, brofiad unigryw. A hithau bellach dros ei phedwar ugain mlwydd oed, cafodd fynd ar y trên i ben yr Wyddfa am y tro cyntaf erioed. Nith iddi a'i gŵr, Mr a Mrs B Williams o Queensferry fu'n gyfrifol am y daith, ynghyd â'u merch Mrs Linda Thompson, a oedd ar ymweliad â'r wlad hon o'i chartref yn Ne Affrica.

Y CLWB SNWCER: Dymuna pwyllgor y Clwb gyhoeddi eu bod wedi pwrcasu bwrdd newydd ar gôst sylweddol ac os oes rhywun yn dymuno cyfrannu tuag at y swm yma dylir ei anfon i'r ysgrifennydd – Mr D Williams, 1 Pentre Helen, Deiniolen.

Hefyd cynhelir Ffair Hydref er budd y Clwb yn Neuadd yr Ysgol, nos Wener, Hydref 31ain am 7 o'r gloch.

DIOLCH: Hoffa Mrs Eirwen Jones, 8 Bro Deiniol ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau a dderbyniodd pan yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl.

YMWELIAD O'R AMERIG: Daeth teulu o'r Amerig i ymweld a'r hen gartref yn Neiniolen yn ystod y mis diwethaf. Ganwyd y mab hynaf, Nowie Wyn Evans, Efrog Newydd yng nghartref ei fam Trysgol. Gadawodd am America pan oedd yn bedair oed, bron i drigain mlynedd yn ôl. Siaradai Gymraeg yn rhugl heb acen Americanaidd, roedd ei frawd Hughie Evans, California a'i chwaer Betty Mullary, Efrog Newydd yn deall yr iaith ond heb fedru ei siarad. Roedd eu tad yn enedigol o Tan Garret, Dinorwig.

DIOLCH: Dymuna Helen Mair Jones, 14 Rhes Marian, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau o fro yr Eco am yr anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Diolch yn fawr iawn.

Genod Tŷ'r Ysgol yn canu yn Llydaw — gweler dan newyddion Deiniolen.

SGANIWRAMA: Cynhelir noson o hwyl a chwerthin gan Ffyliaid y Fro yn Ysgol Brynrefail, nos lau, Hydref 9fed am 7.30. Yr arweinydd fydd Arwel Jones. Bydd elw'r noson yn mynd at apêl y Sganiwr.

DIOLCH AM Y TRIP

Derbyniais wahoddiad aelodau clên Band Deiniolen
I ymuno â'i taith i'r ornest ym Mharc Eirias Bae Colwyn.
Cafwyd ymarfer yn yr Ysgol am ychydig cyn cychwyn,
A Tomos fel arfer yn bwysig a chwithig
A Wiliam Orwig yntau yn weithgar a phwysig.
Fe lwythwyd y Band, y cefnogwyr a'r offerynau crand,
I'w helpu i'r bws rhois bwniad yn din Owi a Huw Jon,
Eisteddent o'm blaen a Huw efo'i ffon,
Y ddau er ei gwayw yn cellwair a siriol wenu.
Wrth fy ochr eisteddai Glyn, sydd yn hen aelod erbyn hyn,
Tu ôl yr oedd Bobi ac Andro, yn poenydio 'rhen Domos
Oedd dawelach nag arfer, rhaid bod rhyw achos.
Yn ymyl roedd Elis Wyn, hen aelod arall.
Yn adnabod yr hen, ond y rhai ifanc oedd i mi yn benbleth.
Gadael Deiniolen yn gwmni prydlon a llawen,
Troi yn Groeslon Tŷ-Mawr a heibio Llandegai
Am Aber a'r Dalar Hir a thrwy Llanfairfechan,
Penmaenmawr, Conwy, croesi'r afon, trwy Gyffordd Llandudno.
Osgoi Mochdre ar y ffordd newydd, a dyma ni yno.
I mewn i'r Ganolfan Adloniant a'r eang Barc Eirias;
Dadlwytho, a chael hyd i wyddoch chi be, ac am baned o de.
Y gystadleuaeth ymlaen, y dosbarth C yn darfod,
Felly rhaid oedd i Deiniolen wneud eu hunain yn barod
Yn yr egwyl ês i mewn i'r Neuadd, a dewis sedd i Huw,
Ddigon ymlaen gan ei fod braidd yn drwm ei glyw,
Os yn dawel allan, oddi mewn roedd gwynt cythreulig.
Rhaglen cyngerdd oedd y prawf honedig,
Daeth pedwar i'r talwrn, Deiniolen yn chwarae'n drydydd.
Dyfarnwyd yr olaf, Rhos, yn gyntaf, yn unol a'r adnod –
Yr olaf a fyddant flaenaf, a Deiniolen yn ail,
Dyna ddyfarniad y beirniad, waeth heb a hel dail.
Gadawyd y Parc heb aros dim rhagor
Gan fod i'r Band ymrwymiad arall ym Mangor.
Gwaith llwglyd yw chwythu, felly rhaid oedd cael sgodyn a sglodion,
Bu hir ddisgwyl, ond cyrhaeddodd y wledd, ac roedd pawb yn fodlon.
Heb oedi dim rhoddwyd tân arni am Bangor
Achos yr oedd un aelod o'r llwyth
Ar bigau'r drain ofn colli bws wyth
Ond diolch i'r gyrrwr â'i ymdrech a fflachio'i oleuadau
Disgwyliai'r bws arall wrth y Plaza.

Am hyfryd ddiwrnod o Fedi, a'ch hwyliog gwmni
Fy mhleser yw diolch o galon i chwi.

CRIB COCH
Y SGWÂR, LLANRUG
Ffôn Caernarfon 76772
TRIN GWALLT I BAWB O'R TEULU GAN JEN
Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

Beth am ddod i gystadlu i
EISTEDFOD DYFFRYN OGWEN
Testunau am ddim yn y siopau llyfrau Cymraeg. a beth am ddod i fwynhau'r wledd yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Nos Wener, Tach. 7, am 6.30 a Dydd Sadwrn, Tach. 8, am 12.30 a 6
Lluniaeth ysgafn yn yr Ysgol bnawn Sadwrn
Manylion llawn: Bethesda 600846

Aled Jones
Peiriannydd Gwres Canolog a Phlymio
4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis 871047

ATGOFION AM LATHEN O GOWNTER

gan John O Harvey, Llangefni (gyda chaniatad "Y Glorian")

Edrychai'r cownter yn uchel yn siop fy Modryb Lizzie pan oeddwn rhyw dair neu bedair oed. Siop fechan yn gwerthu ychydig o bopeth oedd Siop Marianfa, y Waunfawr. Siop Miss Owen y gelwid hi gan y mwyafrif ond i mi Siop Modryn Lizzie oedd hi.

Cofiaf heddiw yn iawn brisiau llawer o'r bwydydd a werthid dros gownter siop fach Modryb, Tun samon "Crown" am swllt, Owns o faco Cymro Dewr 8g, Canhwyllau, a Baco Amlwch 9c, canhwyllau am ddimai yr un, teisen bwdin am geiniog, taffi buwch am geiniog, pedair owns o daffi triog am ddwy geiniog a phump sigaret Woodbine am ddwy geiniog. Fel roeddwn yn tyfu ychydig yn dalach medrwn o'r diwedd weld dros ymyl y cownter gan sefyll ar flaenau 'nhraed ar ymyl y cwpwrdd pren lle cedwid y bara. Dyna braf oedd gweld y trafeiliwrs a chael ambell i siampl o'r bagiau diddorol a agorid ar y cownter. Daethant i adnabod y bachgen gwallt cyrliog, oedd yn prysur ddysgu sut i fod yn siopwr yn ei ffordd fach ei hun.



Yr awdur yn fachgen bach gyda'i fodryb tu allan i'r siop yn y Waunfawr.

Cofiaf yr ail gownter, un mawr hir trwm, mor drwm fel y cymerai dri dyn i'w symud ar hyd y llawr. Erbyn hyn roeddwn i'n gweithio yn Llandudno, mewn Siop Dillad fel dipyn o brentis. Bob bore dydd Mercher rhaid oedd clirio llawr y siop a symud y cadeiriau a'r cownter "teak" hardd i'r ochr er mwyn i ni, y tri ifanc grafu pob darn o bren oedd yn y llawr. Wedyn byddem yn brwsio, a rhoi gwêr pwrpasol a gynhesid yn barod mewn pwced ar gylch nwy, ar hyd y llawr coed trwy ei daenu â brwsh llawr oedd â'i ben yn gadachau i gyd. Yna, gadael i'r llawr sychu. ac ar ôl gwneud llawer dyletswydd arall, y gorchwyl olaf cyn mynd adref am ein hanner diwrnod cau oedd cael y llawr i edrych fel drych. Gwaith digon caled oedd o, a ninnau yn ein dillad du a throwsus streips duon a'u crysau gwyn a choleri caled yn chwysu peintiau!

Daeth newid mawr pan alwyd y dynion i gyd, yn cynnwys y rheolwr ar fyr rybudd i'r fyddin. Dim ond fi, a Miss Edwards, y clerc ariannol a adawyd i edrych ar ôl y lle. Ond fe ddaeth ymwared un diwrnod, a hynny ar ôl hir ddisgwyl, sef dau ddyn o Fangor ac un o Loegr i gadw'r lle ar agor.

I'r mynyddoedd i 'Stiniog yr anfonwyd fi wedyn, ar ôl gorchymyn o'r Brif Swyddfa. Doedd y cownter yn y siop ym Mlaenau Ffestiniog yn ddim mwy na bwrdd bychan, a hynny mewn Siop fechan.

Yno, y bûm am flwyddyn, yn gweithio ar fy mhen fy hun ar ddydd Sadwrn yn unig. Cychwynwn gyda'r trên cyntaf yn y bore a dychwelyd ar y Mail bach gyda'r nos. Cefais y cyfle i weithio yno ar ddydd Sadwrn gan fod Elwyn Parry, yn enedigol o Fangor ac a wnaeth y gwaith o 'mlaen i am flynyddoedd wedi mynd i'r Rhyfel.

Cymeriad cynnes iawn oedd Elwyn, pwtyn gyda gwallt melyn golau a'r wên hapusaf ar ei wyneb bob amser. Lladdwyd ef yn El Alamein, a bu farw dau frawd iddo hefyd yn ystod blynyddoedd cynnar y Rhyfel.

Daeth yr amser i minnau ymuno â'r Llu Awyr, a gwnes fy rhan chwe mlynedd yn y wlad yma a thros y dŵr.

Y cownter nesaf welais i oedd ym Mae Colwyn gyda'r un cwmni, ond doedd pethau ddim yr un fath. 'Roeddwn erbyn hyn wedi priodi ac wedi cael gwaith ym Mangor Uchaf ac aethom i Fangor i fyw.

Yno, cownter tywyll ei liw, braidd yn hen ffasiwn oedd o fy mlaen. Cefais groeso gan bawb yno, yn ddynion a merched, o'r pen dyn i lawr. Mr Davies y Rheolwr, a Mr Evans oedd y ddau ŵr bonheddig a gefais yn gefn wrth ddysgu ac arfer math newydd i mi o werthu, sef prynu heddiw, a thalu fory. Ar ôl seibiant oddi wrth waith y tu ôl i'r cownter, ymunais â chwmni mawr unwaith eto i werthu dillad, ond y tro hwn y tu ôl i gownter gwydyr. Fu erioed y fath newid, dechrau yn Stryd Fawr Bangor, wedyn ymlaen i waelod Penrallt Caernarfon, a gorffen yn Sgwâr Bwcle, Llangefni.

Yr awdur tu allan i'r siop yn Sgwâr Bwcle, Llangefni.

Beth well na chyrraedd Ynys Môn nid yn unig i weithio, ond cael y fraint o adnabod cymaint o bobl agos atoch chi. Cofiwch, cael fy anfon i Fôn ges i, doedd 'na ddim dewis. Diwrnod o rybudd, a dyna hi.

Bûm yn y dref brysur yma am flynyddoedd, a buont yn flynyddoedd hapus dros ben a gwnes lawer o ffrindiau.

Erbyn heddiw mae llawer i siop wedi newid yn aruthrol gyda'r llawr i gyd yn frith o nwyddau yn hongian fel tlysau ar goeden Nadolig, gan adael y prynwyr i wneud y gwaith dewis. Yn wir, nid peth hawdd yw gweld cownter yn aml!

DRAENOG

Glywsoch chi am y wraig o Gwm-y-glo oedd am fynnu mynd a'i gâst at siopwr yn Llanrug? "Rhyw hanner awr fydd 'o ar y mwya'" meddai. Balch o ddeall mai am *gi* y siopwr 'roedd hi'n sôn!

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau lleol.

BOWEN, Euros
Buarth Bywyd
Gwasg Gwynedd, £3.75
Cyfrol o gerddi

DONEY, Meryl
WILLIAMS, Robin (Addas)
Sut y Cawsom Ein Beibl
Gwasg Cambria £2.95
Hanes y llyfr a newidiodd y byd, o'i gyfansoddi hyd at heddiw.

ELWYN, John
Yn fy Ffordd fy Hun.
Hunangofiant dyn Byrbwyll.
Gwasg Carreg Gwalch £3.25
Hunangofiant awdur Pum Cynnig i Gymro

ETHERTON, Roy
DAVIES, Cynthia Saunders (Addas)
Bwrw Lliwiau
Gwasg Cambria £1.50
Stori i blant bach

GRIFFITH, Stephen
Teithio'r Sahel
Y Lolfa £2.95
Adroddiad llygad-dyst o'r newyn yn ardal y Sahel yn Affrica.

GRUFFUDD, Heini
Un Annwyl i Mi
Y Lolfa £3.45
Nofel wedi'i lleoli'n rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Nwyrain yr Almaen.

HUGHES, J. Glyn
Difyrrwch y Llwch Llif
Gwasg Gee £3.00
Braslun o hanes y syrcas yn y wlad hon rhwng 1768 a chwedegau'r ganrif hon.

JONES, Geraint V.
Storiau'r Dychymyg Du
Gwasg Gomer £2.25
Casgliad o straeon arswyd.

JONES, Richard
Dyma fy Stori
Gwasg Gwynedd £2.50
Hunangofiant ac argraffiadau personol yr awdur am y byd a'i bethau.

PRITCHARD, Marged
Nhw Oedd Yno
Gwasg Gomer £2.25
Nofel wedi ei lleoli yng nghefn gwlad Cymru

ROBERTS, Selyf
Teulu Meima Lloyd
Gwasg Gee £3.75
Nofel a leolwyd yn ardal enedigol yr awdur

WYNNE, Doreen
Ceidwad y Gaer
Y Lolfa £1.75
Nofel i blant, yng Nghyfres yr Oriau Cudd.

CREFFT·ELIDIR

STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis **871210**
Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.
Arddangosfa o hen luniau chwarel.
A dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg
Hefyd yn Siop
FFYN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS

EMYR JONES
PLYMAR PEIRIANNYDD
GWRESOGI
GWAITH INSIWLEIDDIO
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
BANGOR
354646

MENTER CHWARAEON DEINIOLEN

"Fel hyn 'ma gneud ylwch hogia . . ."



". . . ond ella bod llaw chwith yn well!"

"Gêm gymhleth iawn 'di'r bowlio 'ma. Wyddwn i ddim fod yna gymaint o waith mesur". Ieuenctid Deiniolen yn amlwg yn mwynhau bwolio dan-dô.

Yn ystod gwyliau'r haf, bob bore a phrynhawn Llun, cafwyd sesiwn o Ymarfer Corff i ferched 40 a hŷn. Ychydig oedd y rhif a ymunodd. Prysurdeb bore Llun mae'n ymddangos.

Yr oedd yn hollol wahanol yn y prynhawn, llwyddiant ysgubol yn wir gyda'r ifanc di-waith a'r rhai hynny wedi ymddeol.

O 1-3 gyda'r Bowlio dan dô. Wedyn y plant o 3-5 gyda'r cynllun chwaraeon. Roeddynt i gyd yn edrych ymlaen yn eiddgar at yr amser.

Daeth 38 o blant gyda mi i'r Ganolfan Hamdden Chwaraeon yng Nghaernarfon. Cawsant hwyl fawr ar chwarae pêl-droed pump bob ochr ac hefyd nofio.

Âf a rhai o'r bechgyn i'r Clwb Codi Pwysau yn Ninorwig ddydd Llun am 2 o'r gloch, a dydd lau am 2.30. Mae Bowlio am 10 bore Sadwrn yn y Ganolfan.

Dengys hyn yn amlwg fod angen pendant am Neuadd Bentref-Chwaraeon yn Neiniolen, gan na ellir cynnal chwaraeon i blant pan nad yw'r tywydd yn ffafriol. Mae pawb yn cyfrannu 20c y pen, dyma fydd y cyfraniad cyntaf tuag at brynnu matiau a pheli fydd yn werth £500 i bentref Deiniolen.

Mae yn bosibl i Fenter Chwaraeon ddod i'ch pentref chi felly am fanylion pellach ffoniwch 'Menter Chwaraeon', Plas Menai, Ffon: Felinheli 670964.

Gwnaf unrhyw beth yn ôl fy ngallu er hyrwyddo'r gwaith hwn yn ei flaen, gyda'ch cymorth chi wrth gwrs.

Hoffwn ar ran pawb a ymunodd â'r chwaraeon llwyddiannus hyn ddiolch yn gyntaf i Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan, am ganiatad i ddefnyddio'r lle yn rhad ac am ddim, hefyd i'r Gofalwr, Mr Eifion Williams, am bob rhwyddineb a chymwynas.

Euryn Williams

Y Plant yn mwynhau sesiwn o chwarae hoci.

HWYLIO A CHANŴIO YM MHLAS MENAI

Mae mwy o bobol leol nag erioed o'r blaen wedi ymuno â chyrsiau mordwyaeth newydd Canolfan Chwaraeon Dŵr Cymru. Plas Menai yn Llanfair-is-gaer ger Caernarfon. Cyhoeddwyd hyn gan dîm rheoli'r Ganolfan sydd newydd gwblhau adolygu ffigurau'r haf.

"Mae hyn yn newyddion rhagorol" meddai un o brif hyfforddwyr y Ganolfan, Tom Wilkinson, "ac mae e'n syndod pleserus i ni." Ychwanegodd mai'r unig reswm posibl y medren nhw gynnig am y cynnydd hwn mewn diddordeb gan bobl leol oedd eu bod nawr yn medru cynnig gostyngiad o 40 y cant i bobol sy'n dod ar y cyrsiau ond sydd ddim yn dymuno lletya yn y Ganolfan. "Hwyrach fod a wnelo'r ffaith fod 70 y cant o staff y Ganolfan erbyn hyn yn Gymry Cymraeg rywbeth â'r peth, a bod hynny'n gwneud i bobol leol deimlo'n fwy cartrefol" ychwanegodd Mr Wilkinson.

Pwyslieisodd rheolwyr y Ganolfan fod na rai llefydd gwag ar gael o hyd i bobol sydd am ddysgu hwylio a chanŵio. Mae dros 2,000 o bobol wedi ymuno â chyrsiau Plas Menai yr haf hwn yn unig.

MEDDAI BRYAN ROBSON...

E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

RAS ANTUR WAUNFAWR

LLWYDDIANT YSGUBOL

Ar bnawn Sadwrn, Medi 6ed daeth tua cant a hanner o blant, ieuenctid a phobl ynghyd i'r Ganolfan yn y Waunfawr i baratoi ar gyfer ras redeg unigryw. Trefnwyd y ras, sef Ras Antur Waunfawr, gan Bob Eaglestone, un o gyfarwyddwyr yr Antur, yn cael ei gynorthwyo gan Glwb Rhedeg Eryri a Mudiad Curiad Calon Cymru. Y bwriad oedd rhoi cyfle i blant a phobl â nam meddyliol arnynt gael cyd-redeg ag athletwyr a loncwyr eraill *yn yr un ras.* **Er mwyn denu rhedwyr profiadol i'r Waun, trenfwyd ras 10km (tua 6 milltir) ar eu cyfer hwy, a chafodd y rhai di-brofiad, y loncwyr a'r ieuenctid gymryd rhan mewn ras hwyl o tua dwy filltir o amgylch y pentref.**

Disgrifiwyd y Ras 10km gan un o'r rhedwyr fel "rhedeg ras fynydd ar gôl-tar", oherwydd golygai ddringo gelltydd serth o bentref y Waunfawr i fyny i'r Groeslon ac yna ddilyn y ffordd fynyddig ar hyd llethrau'r Cefn Du at Fwlch y Groes, cyn troi ac anelu'n ôl am y pentref. Mentrodd tua deugain o redwyr ar y cwrs caled hwn. Tegid Roberts, un o redwyr mwyaf profiadol Rhedwyr Eryri oedd yn fuddugol, mewn amser o 35 munud 16 eiliad. Dyna darged i anelu ato gogyfer â'r flwyddyn nesaf. Paul Lewis, yn cynrychioli Antur Waunfawr, ddaeth yn gyntaf yn ei adran, mewn amser cymeradwy iawn o 50 munud 41 eiliad.

Rhedeg, loncian, cerdded, cropian, cwyno a chwerthin fu'r hanes yn y Ras Hwyl; a phawb wedi mwynhau – ar ôl gorffen! Paul Grant o Lanrug ac Adrian Owen o'r Waunfawr fu'n brwydro am y safle cyntaf, gyda Paul yn ennill, tua 20 eiliad yn unig ar y blaen. Ei amser oedd 10 munud a 34 eiliad. Uchafbwynt y Ras Hwyl oedd buddugoliaeth tîm Antur Waunfawr, gydag un aelod o'r tîm, sef David McNall o Lanrug yn llwyddo'n eithriadol o dda. Daeth yn gyntaf yn ei adran, ond roedd hefyd yn drydydd yn yr adran i ddynion dan 40 oed, mewn amser o 19 munud a 35 eiliad.

Tîm Antur Waunfawr enillodd Dlws arbennig cyflwynedig gan Gwmni B a K Williams, Seiri Coed, Llanrug. Tîm o Ddolfeurig, Dolgellau ddaeth yn ail.

Gobaith y trefnwyr erbyn y flwyddyn nesaf yw denu mwy o redwyr a mwy o dimau o ysgolion a sefydliadau arbennig i'r anabl. A barnu oddi wrth lwyddiant y Ras eleni, dyma ddydiad fydd yn cael ei nodi yng nghalendr pob rhedwr erbyn y flwyddyn nesaf.

Dymuna Bob Eaglestone ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y diwrnod, a bydd yn edrych ymlaen i weld mwy, yn redwyr a chefnogwyr, y flwyddyn nesaf.

Rhedwyr y Ras 10km yn ymgynnull tu allan i'r Ganolfan.

Arwel Lewis (3ydd) Tegid Roberts (1af) a Dafydd Roberts (2il)

Canlyniadau

Ras Fawr 10km: 1. Tegid Roberts mewn 35.16; 2. Dafydd Roberts mewn 35.33; 3. Arwel Lewis mewn 35.44. **Dynion dros 40 oed:** 1. Huw Parry mewn 36.30; 2. Dewi Tomos mewn 36.39; 3. Bill Yale mewn 37.01. **Merched:** 1. Sian Roberts mewn 43.29; 2. Mair Tomos mewn 45.24; 3. Sheena McKim mewn 56.44. **Dynion dros 50:** 1. Barrie Moore mewn 43.40; 2. Donald Charles mewn 46.30; 3. Tony Haynes mewn 49.30. Yr enillwyr oll o Eryri Harriers ag eithro Sheena McKim yn cynrychioli A.A.A.

Cyntaf o Waunfawr – Robat J Williams mewn 38.38. Cyntaf o Antur Waunfawr – Paul Lewis mewn 50.41.

Ras Hwyl, 2 filltir: Bechgyn dan 12: 1. Gwyn Owen – 12.28; 2. Gwydion Tomos – 13.32; 3. CEIRION R Williams – 13.37. **Merched dan 12:** 1. Esyllt Haf Hughes – 15.08; 2. Ceri Wynne Jones – 16.00; 3. Diane M Davies – 16.05. **Bechgyn dros 12:** 1. Paul Grant – 10.34; 2. Adrian R Owen – 10.53; 3. Roger Thwaite – 11.52. **Merched dros 12:** 1. Rhian Thomas – 13.51; 2. Ella Wyn Jones – 16.30; 3. Rebecca Brown – 17.58. **Dynion dan 40:** 1. A J Bevan – 16.09; 2. John Gwynedd – 17.51; 3. David McNall (1af Antur Waunfawr). **Merched dan 35:** 1. Carmen Pierce – 20.39; 2. Carys Owen – 21.02; 3. Bethan Lewis – 23.48. **Dynion dros 40:** 1. Robert Griffith – 19.31. **Merched dros 35:** 1. J. Oliver – 17.52; 2. Jean Jones – 21.54; 3. Cadi Jones – 21.55. **Dynion dros 50:** 1. Bob Eaglestone – 15.06. **Merched dros 45:** 1. Margaret Eaglestone – 20.49; 2. Sheila Roberts – 25.00. **Merched dros 55:** Glena Rhomas – 24.03.

B a J Williams, (Llanrug) Cup i Antur Waunfawr.

Uchod: "Ocsigen os gwelwch chi'n dda — ac ar frys!"
Ar y dde: Paul Grant (chwith) ac Adrian Owen — 1af ac 2il yn y Ras Hwyl.

CYFFURIAU A THODDYDDION

Ydych chi wedi gweld pethau a allasai arwain i sefyllfa waeth? Ydych chi wedi clywed, neu efallai'n amheus? Ydych chi angen gwybodaeth? Peidiwch ag oedi, da chwi. Dowch i gysylltiad ag unrhyw un o'r canlynol: **PC Oscar Evans (Swyddog Cyswllt Heddlu) Caernarfon 3333; Gwyndaf Jones (Uwch Swyddog Lles) Caernarfon 4121 est 2215; W.E. Thomas (Prifathro Ysgol Brynrefail) Caernarfon 2381.**

am
Nenfydau Artex
cysylltwch ag
A. LEWIS
12 Lôn y Bryn,
Porthaethwy 712598

Tîm Antur Waunfawr gyda'u tlysau a'u tystysgrifau.

Gwraig Tŷ yn yr Ardd

Cefais siom ym mis Awst, trwy fethu a mynd i Sioe Gymraeg y Borth yn ôl fy arfer, ac arnaf fi 'roedd y bai hefyd, yn meddwl mai'r Sadwrn olaf ym mis Awst y'i cynhelid, ond Sadwrn Gŵyl y Banc ydyw'r dyddiad bob blwyddyn, ond doedd Gŵyl y Banc ddim ar y Sadwrn olaf eleni, a doedd yna ddim cymaint o hysbysebion eleni, neu 'roeddwn yn cysgu a cholli "hysbys" Hywel Gwynfryn.

Fodd bynnag, darllenais hanes yr enillwyr yn yr Herald Cymraeg a dotio ar yr enwau Cymraeg ar y blodau a'r llysiau.

Dyma rai o'r blodau:
"Dahlia" addurn – decorative Dahlia; Ceiniau – Ladis bach (Phlox); Saith liw'r enfys am Hydrangea – "Tri lliw ar ddeg" fydda i'n eu galw; Blodau'r Cleddyf – Gladioli; Pen-ci-bach – Antirrhinum; Caru'n ofer – Pansi mi gredaf; Ffarwel Haf – Michaelmas Daisies; Pŷs Pêr – Sweet peas.

Faint ohonom fydd yn mynd i'r siop a gofyn am foron? 'Caraits' fyddwn ni'n ddweud yn y rhan yma o'r wlad ynte?

Ffâ dringo – Runner beans; Ffâ Ffrengig – French Beans; Pannas – Parsnips; Betys – Beetroot. (Picrwd meddai hen wraig o Sir Fôn); Cennin – leeks.

Beth am fynd i'r siop a gofyn am y gwahanol bethau yn Gymraeg? Ond yn well byth eu tyfu yn yr ardd, ac efallai y bydd gwell blas arnynt wedi eu tyfu yn Gymraeg. 'Roedd ffrind i mi'r diwrnod o'r blaen, yn cwyno nad oedd yn gallu cynllunio ei gardd, dim ond sodro'r planhigion fel y cawsai nhw (gwreiddyn bach gan hwn a hon, yn awr ac yn y man). Roedd ei gardd yn eitha lliwgar mae'n rhaid dweud, a phopeth yn tyfu'n dda ganddi. Edrychais allan drwy ei ffenest ac yr oeddwn yn gweld lle iawn i gael bordor o flodau parhaol, beth a eilw'r Sais yn "herbaceous border". Awgrymais ei bod yn amser da i gychwyn border felly rwan, gan y bydd ffrindiau yn rhannu eu planhigion yr adeg yma o'r flwyddyn.

Os oes wal yng nghefn o forder, gellir plannu rhosyn crwydrol yn gefndir. Yn y cefn, beth am delphiniums, bŷs y blaidd (lupin), Ffarwel Haf, Rhosyn Mynydd a'r Ladis bach (Phlox). Mae gen i dri lliw, coch, piws a gwyn, a'r fantais fawr o'r rhain ydyw eu bod yn dal y gwynt heb eu rhwymo, ac y mae arogl hyfryd arnynt. Gwialen aur (Solidago) a'r helenium, mae'r rhain i gyd yn dal, ond rhag i'r fordor fod yn rhy ffurfiol, gellir dod ac ambell un o'r rhai tal ymlaen. Mae'n bosibl cael gardd liwgar drwy'r haf, a deil rhai yn eu blodau nes y daw'r rhew.

Y mae'r Spirea (Brenhines y weirglodd) coch, gwyn a pinc ddim mor dal a'r Scabious, blodau glas, rhai da i'w torri i'r tŷ, a'r Doroniaum melyn cynnar.

Beth am ymyl y fordor? Does dim harddach na'r pincs, rhai a elwir yn Mrs. Simkins, yn galed iawn ac yn dal y gaeaf. Maent i'w cael mewn gwahanol liwiau ond does dim harddach nag ymyl wen i fordor. Fel bydd merched yn dweud wrth brynu het "Mae gwyn yn mynd efo popeth". Aubretia hefyd, blodyn glas yn y gwanwyn, yn ddel iawn, a'r "saxifrages" fydd mewn creigardd ac ymhell ymlaen yn yr haf y "campanula" glas, a'r "geranium pinc", a does dim tlysach na "mintys y gath" (Nepeta yn y catalogau), ond druan ohonom os oes cathod o gwmpas, maen nhw'n hoff iawn o hwn.

Dyna rai o'r awgrymiadau a roddais i'm ffrind.

"Palu mlaen" piau hi fel bydd Richard Bowering a Dei Tomos yn ddweud ar S4C.

CLWB ERYRI

Nos Wener, 3ydd Hydref, yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis am 7.30 bydd tymor arall o Glwb Eryri'n cychwyn – yn wir yr unfed tymor ar ddeg ar hugain, pan y ceir darlith gan Mr Emyr Price, Bethel, gyda'r Parch Trefor Lewis, Deiniolen yn llywydd. Swyddogion y Clwb am eleni yw –Llywydd: Mr Meurig Evans; Is-Lywydd: Mr Arwel Jones; Trysorydd: Mr Ieuan Ellis Jones; Cofnodydd: Mr Stanley Owen;Bardd y Clwb: Mr Iolo Huws Roberts a'r Ysgrifennydd: Mr Rol Williams, sydd ar ddiwedd y tymor hwn yn ymddeol o'r swydd wedi gwneud y gwaith ers 1955. Erfynnir am bresenoldeb yr aelodau yn y cyfarfod cyntaf hwn.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgerran (Portdinorwig 670726)

DISGO
Nos Wener, Hydref 3ydd, cynhelir disgo yn y Neuadd gyda'r elw yn mynd at gronfa yr Eisteddfod. Bydd disgo'r plant lleiaf o 6.30 hyd 8 o'r gloch, pris mynediad yn 30c, a disgo i blant ysgol uwchradd o 8.15 hyd 10.30, pris mynediad 50c. Gwerthir creision, oren, cnau a chŵn poeth yn y disgo.

ADRAN YR URDD
Bydd noson ymaelodi'r Urdd nos lau Hydref 2il yn y Neuadd am 6 o'r gloch. Tâl aelodaeth eleni fydd £1.20

Dechreuir ar y gweithgareddau nos lau, Hydref 9fed gyda noson yng ngofal Mr Selwyn Jones, sy'n athro arlunio yn Ysgol Syr Hugh Owen.

Os oes unrhyw un o'r rhieni neu gyfeillion yn dymuno aros yn y cyfarfodydd byddai'r arweinwyr yn ddiolchgar iawn o bob cymorth.

Trefnwyd rhaglen ddiddorol iawn drwy'r gaeaf ac edrychir ymlaen at dymor llwyddianus arall. Pnawn Sul, Tachwedd 16 bydd plant yr Adran yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Sul yr Adran a gynhelir yn y Waunfawr. Gobeithir trefnu bws i fynd yno.

Bu'r aelodau yn brysur yn casglu tuag at yr Urdd ddydd Sadwrn 27 o Fai. Diolch yn fawr i bawb am eu cyfraniad.

YR YSGOL FEITHRIN
Dechreuodd naw o blantos y pentref yn yr Ysgol Feithrin iau sef Geraint Owen, 4 Penrhos; Dylan Hughes, Llugwy; Owain Sion Williams, 15 y Ddôl; Llion Hefin Thomas, 28 y Ddôl; Owain Ginsberg, Stryd Ganol; Gwenan Heledd Jones, Eithinog; Bethan Mair Jones, 15 Tan y Buarth; Enna Jennens, Gors Bach; Gwenan Jones, Tyn Llan Isaf.

Erbyn hyn mae'r naw wedi setlo i lawr yn dda iawn.

YSGOL SUL Y CYSEGR
Dair wythnos yn ôl aeth dwsin o blant yr Ysgol Sul i aros yng Ngholeg y Bala i fwrw'r Sul. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn arw yn canwio, chwarae tenis a gweithgareddau eraill. Mae pawb yn edrych ymlaen yn arw at gael mynd draw i'r Bala eto yn fuan.

MERCHED Y WAWR
Cafwyd noson agoriadol y gangen yng nghwmni Mrs Pat Jones a'i merch Anita, Brynrefail gydag arddangosfa o grefftau Calon Lân. Rhoddwyd croeso i nifer dda o aelodau newydd. Bu'r bwrdd gwerthu'n llwyddiant a gwnaed elw o £17.84. Y gwestwragedd oedd aelodau'r pwyllgor. Enillwyd y ddau raffl gan Mrs Elizabeth Jones, Tyddyn Oer a Mrs Betty Williams, 29 y Ddôl. Bydd y cyfarfod nesaf ar yr 8fed o Hydref yng nghwmni Mrs McShane.

A wnaiff pawb a brynodd grefftau Calon Lân ddod a'r arian i'r cyfarfod neu i Mrs Anne Elis neu Mrs Beti Owen mor fuan a sydd bosibl.

YR EISTEDDFOD
Cofiwch fod gwaith ysgrifenedig yr Eisteddfod i ddod i law'r ysgrifenyddes Mrs M G Williams, Gwylfa erbyn Hydref 10fed. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn ymuno â pharti adrodd neu ganu, oedolion neu blant, cysylltwch â Mrs Rita Williams neu Mrs Glenys Griffiths. Beirniedir y Gwaith Llaw, Coginio a'r Celf nos lau, Hydref 30 am 5.00 o'r gloch. Cofiwch ddod a phob peth i'r Neuadd erbyn 4.30

APÊL Y SGANIWR
Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn cais gan bwyllgor apêl y Sganiwr i alw cyfarfod cyhoeddus i ystyried sefydlu pwyllgorau lleol yn yr ardal.

Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd nos Wener, Hydref 17fed am 7 o'r gloch i ystyried sefydlu pwyllgor lleol Bethel, Seion a Llanddeiniolen. Estynir croeso cynnes i bawb sydd a diddordeb yn yr apêl. Bydd swyddogion o'r pwyllgor apêl yn anerch.

DIOLCH
Dymuna Mrs Eirlys Hughes, Ysgoldy, a'r teulu ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth. Bu farw mam Eirlys yn Ysbyty Bryn Beryl, Pwllheli ar 26ain Awst. Cyflwynwyd y rhoddion a dderbyniodd er cof i Ysbyty Bryn Beryl a Phlas Hafan, Nefyn.

CRONFA APÊL EGLWYS LLANDDEINIOLEN
Cynhelir Cymanfa Ganu yn Eglwys Sant Mair, y Felinheli, nos Sul, 5ed o Hydref am 7 o'r gloch. Ceir eitemau gan Gôr Meibion Dyffryn Nantlle dan arweiniad Mr A Parry. Arweinydd y Gymanfa fydd Mr R Jones. Mynediad 50c trwy daflen i'w chael wrth y drws. Erfynir am eich cefnogaeth i'r achos hwn.

DRAENOG

Pwyllgor i drefnu un o amryw weithgareddau diwyddiadol tymor y gaeaf yn ein bro. Yn sydyn, daeth gwich bleserus o gornel yr ystafell a llais bodlon yn datgan for "hon yn canu grwndi rhwng fy nghoesau". Oedd **roedd** y gwŷr bonheddig yn bresennol **yn** ddigon bonheddig i gymryd arnynt beidio â chlywed. Buan y sylweddolwyd mai cath go iawn oedd pwsi.

BECWS DEINIOLEN
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

BILL ac EILEEN GRIFFITHS

Antiques
Ivy Cottage
BETHEL
Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU
Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

TYMOR Y FANDALIAID



Mae tymor y gaeaf wrth y trothwy, a buan y bydd y nosweithiau tywyll ar ein gwarthaf. Bu cwyno mawr y llynedd am griwiau ifanc yn rhedeg yn wyllt yn y pentrefi ac yn malurio eiddo. Mae'n ymddangos fod tymor y fandaliaid wedi cychwyn yn barod. Dyma arhosfan bws gyferbyn ag Ysgol Gynradd Llanrug eisoes wedi ei dorri — ac nid hwn yw'r unig un — ac nid yn Llanrug yn unig y mae hyn yn digwydd. Apeliwn ar ddarllenwyr yr 'Eco' i roi gwybodaeth i'r heddlu **ar unwaith** *am unrhyw achos o ddifrodi.*

CURIAD CALON CYMRU

A YW CURIAD CALON CYMRU YN CURO YN ARDAL ECO'R WYDDFA?

Yn 1985 lansiwyd Curiad Calon Cymru, rhaglen i geisio lleihau nifer o farwolaethau o achos afiechydon y galon yma yng Nghymru. Bwriad y rhaglen yw i ledaenu gwybodaeth ynglŷn â'ch diet â'ch iechyd. Ond a yw'r curiad wedi dechrau curo yn ardal Eco'r Wyddfa?

Fel rhan o fy ymchwiliadau i fy nghwrs gradd Gwyddor tŷ ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd, rwyf am geisio darganfod os yw'r neges yn cael ei throsglwyddo a'i derbyn, yn enwedig felly yn ardal Eco'r Wyddfa.

Yn y rhifyn hwn bydd tua 200 ohonoch yn derbyn holiadur yn ei copi o Eco'r Wyddfa. Holiadur syml yn holi am eich diet â'ch iechyd, ac yn aml yn gofyn am air neu groes yn ateb.

Yr wyf yn erfyn ar bawb sy'n derbyn yr holiadur i'w lenwi yn ofalus a'i ddychwelyd ymhen pythefnos o'i dderbyn. Y bwriad yw i gyhoeddi'r canlyniadau yn Eco'r Wyddfa mor fuan â phosibl, ac i ddarganfod os yw Curiad Calon Cymru wedi codi calon darllenwyd Eco'r Wyddfa.

Gyda diolch
Mari Mererid Williams

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau'r 'Eco'.

£10: E J Owen, Gelli Dywyll, Bontdolgadfan, Llanbrynmair, Powys.

£5: Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir, Dinorwig.

Mr a Mrs G Jones, Rhiwbeina, Caerdydd.

Di-enw, Llanrug.

£3: Er côf am Mr a Mrs Parry Williams, Bod Iestyn, Cwm-y-glo oddi wrth eu merch, Enid Lewis, Lerpwl.

Mr T D Hughes, 'Prenteg', Deiniolen.

£2: Mrs Dora Hughes, Bryn Hyfryd, Deiniolen

Mrs N Williams, 29 Rhydfadog, Deiniolen.

John ac Eileen Thomas, Dinorwig

Derlwyn a Christine, 11 Stryd yr Wyddfa, Llanberis.

£1: Catherine Jones, 33 Hafod Oleu, Deiniolen.

Helen Mair Jones, 14 Rhes Marian, Deiniolen.

Miss Sioned Jones, 89 Cae Mur, Caernarfon.

Parodi ar Gloch y Llan
Addas iawn i'r tywydd rydym wedi ei gael eleni.

Mae hi'n Sadwrn am unwaith eto, Wil,
A thywallt mae'r glaw o hyd,
A chystal cyfaddef, mae'n biti Wil
Na baem ni yn hwyaid i gyd.

Amser i'w gofio oedd hwnnw gynt,
Pan elem i'r farchnad ein dau,
Heb ofni y cenllysg, y glaw na'r gwynt
A phob ambarelo ynghau.

Glyw di hi'n bwrw? yr un hen 'law
Ag a fwriai yn nyddiau Noe,
Pan redai y mwncis am gysgod drwy'r baw,
Fel y rhedem ninnau ddoe.

Roedd hi'n bwrw'n drymach bryd hynny, Wil.
O leiaf, dyna yw'r sôn,
Ond rwy'n amau a fwriodd hi'n gletach Wil
Na wnaeth hi, ddydd Iau, yn Sir Fôn.

Y dydd pan ddilynem y bladur drwy'r gwair,
Hyd y weirglodd mewn llafur a chwys
Ti gofi'r hen hwsmon yn dianc i'r ffair,
Yn brysur yn llewys ei grys.

Oes, mae trigain mlynedd er hynny Wil,
A bu llawer cnaeaf gwair ac ŷd,
Ond bydd hiraeth yn gwanu fy nhgalon wir ddŷl,
Na buasai hi'n braf o hyd.

Mae'r tymor braenaru yn dirwyn i ben
A nesu mae'r amser i hau,
Ac os na arafa gwyllt genlli y nen,
Yn sicr fe'n boddir hi'n dau.
A phwy fydd ei hunan yn mochel y glaw
Heb ddillad i newid yn y byd,
Fe fyddai'n drugaradd cael mynd o'r baw
I feddrod bach tawel a chlyd.

(anadnabyddus)

RAS EILDIR



Cychwyn Ras Elidir o bentref Nant Peris

Dau redwr hŷn (dros 40 oed) oedd y ddau gyntaf yn Ras Elidir Fawr eleni. Dyma fuddugoliaeth gyntaf Huw Parry, a ddaeth i lawr i bentref Nant Peris dair eiliad yn unig ar y blaen i Del Davies, Pencampwr Rhedeg Mynydd i ddynion dros 40 oed Prydain eleni. Alan Hughes o Lanberis — a ddaeth yn wythfed mewn amser o 50 munud a 58 eiliad, oedd y rhedwr lleol cyntaf. Roedd dros hanner cant o redwyr yn y ras, ac am y drydedd flwyddyn yn olynol cafwyd tywydd arbennig o dda a'r copa'n glir iawn.

Codi pwysau, pêl-droed, sgïo, psygota, rhedeg, hoci a bowlio: y gwahanol hobïau, gemau, sbort (defnyddiwch pa bynnag derm a fynnwch) sy'n ymddangos yn Eco'r mis hwn. Ond a'i dyma'r unig chwaraeon a ymddiddorir ynddynt yn y fro? *Sgersli bilif!!* **Mae'r Golygydd Chwaraeon yn awyddus am newyddion o unrhyw fath am unrhyw sbort, ac yn sicr y byddai'r darllenwyr hefyd wrth eu bodd yn darllen am ba weithgaredd bynnag sy'n mynd ymlaen.**

Dewch, chwi bwyllgorau'r clybiau dartiau, snwcer, pŵl, badminton . . . hop scotch . . . chwarae marblis, penodwch aelod i gysylltu â'r Eco; beth am dudalen ôl fydd o ddiddordeb i bawb sy'n hoffi dweud ei fod, neu ei bod yn chwarae . . .?

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI GWAIR
E. PUGH
WELDING & FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

OSMOND SHAW
DEINIOLEN
Gwerthu
a thrwsio
Teledu Lliw
Newydd ac Fel
Newydd
GWASANAETH
ATEB
FFÔN 24 AWR
LLANBERIS 870545

Dysgwch yrru'r car gydag
Y.Y.O.
YSGOL YRRU OFALUS
* Gwasanaeth 7 diwnod
* O ddrws i ddrws
* Control Deuol
D L
PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL BRO MADOG 1987 DEWCH I GYSTADLU!

Mae hi'n bleser gennym ni, aelodau Pwyllgor Llên Eisteddfod Bro Madog, estyn croeso cynnes iawn i chi, ddarllenwyr Papurau Bro Cymru, gystadlu yn ein hadran ryddiaith.

Wrth gwrs, edrychwn ymlaen at eich croesawu'n gynnes i'n hardal – mae hi mor hardd. Ond 'rydym am roi cyfle i chwithau ein hargyhoeddi ni fod eich ardal chwithau yr un mor odidog. Wir i chi! Dyma'ch cyfle i ysgrifennu **llyfryn am unrhyw ardal yng Nghymru** – llyfryn i ddenu ymwelwyr.

Ein bwriad wrth baratoi'r cystadlaethau oedd cynnig rhywbeth at ddant croesdoriad eang o'n cydwladwyr, gan gynnwys rhai â blas heli ein bro arnynt. Yn ogystal â bod yn gyfraniad gwerthfawr i'n hetifeddiaeth, mae yna un ar eich cyfer chwi'r morwyr a thrigolion yr arfordir, sef **cyfrol yn ymwneud â bywyd ar longau hwyliau.** Hwyl i chwi!

Mae pysgota'n rhan bwysig o'n bywyd ni yma hefyd ond i brofi nad ydym yn blwyfol, hoffem gael gwybodaeth am **iaith, arferion a thraddodiadau psygota** ardaloedd eraill ein gwlad. Tra bod y genweiri'n segura, dyma'n her i chwi'r psygotwyr!

Dibynnu ar y teledu am ein hadloniant y bydd llawer ohonym yn ystod y gaeaf. A gawn ni chwerthin? Dyma'ch cyfle i roi'ch **llinyn mesur ar un o gyfresi comedi S4C** – bod yn adolygydd gonest ei farn ac ennill gwobr! Pwy a ŵyr?

'Rydych chi'n well digrifwr na'r un ohonynt! I brofi hynny, tynnwch eich ewinedd o'r blew yfory nesaf ac ysgrifennwch **sgript chwarter awr ar gyfer digrifwr.**

Os gwell gynnych ddarllen na gwylio, pan nad ewch chwi ati i lunio **sgript rhaglen nodwedd deledu am fardd neu lenor o Gymru.** Efallai, gyda lwc, yr enillwch chi'r wobr o ganpunt!

Mae gormod yn digwydd yn y byd o'n cwmpas i ddarllen ffrwyth dychymyg, meddai rhai ohonoch. Digon teg! Dyma'ch cyfle chwithau i lunio **tair erthygl newyddiadurol yn ymwneud ag argyfwch neu argyfyngau yng ngwledydd y trydydd byd.**

Ac os tybiwch fod y gwleidyddion yn gwneud llanast o bethau, pwy well na chwi i ysgrifennu **deialog rhwng gwleidydd a'i gydwybod.**

Beth am y storiwyr yn eich mysg? Ydym ni wedi'ch anwybyddu chwi? Go brin! Chwi sydd i gael eich cyfle yn y brif gystadleuaeth eleni, cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith. Nid oes amser i'w golli. Dechreuwch ar unwaith ar **gyfres o storïau byrion cyfoes.**

Mae hynny'n ormod o gowlaid i chwi? Beth am **un stori fer am 'Ofn'** ynte? Mae pob math ar ofn a 'does yna yr un dyn byw (na merch) nad oes arno ofn rhyw argyfwng mewn bywyd.

Ych a fi! Ia? Wel, dowch i ni gael **casgliad o storïau i blant 8-10 oed** gennych ynte!

Oes papur a beiro wrth law? Gwych! . . . Does dim amser i'w golli! . . . A phob hwyl i bob un ohonoch chwi!

O ia! Cofiwch y byddwn yn edrych ymlaen at eich gweld yn y Babell Lên!

Yn **Adran Cerdd Dant** yr Eisteddfod, gwelir dwy alaw newydd, un gan Nan Elis yng nghystadleuaeth yr unawd dros 21 oed, a'r llall gan Mona Meirion yn y gystadleuaeth i bartïon heb fod dros 16 o leisiau. Mae'r ddwy alaw ar gael yn *Allwedd y Tannau 45 (1986).*

Defnyddir amryw o alawon diweddar hefyd o *Ceinciau'r Dyffryn*, (Menai Williams), ac un o waith Huw Gwynne, athro Cerdd Ysgol Eifionydd, Porthmadog.

Defnyddir amryw o weithiau beirdd o gylch yr Eisteddfod yn cynnwys 'Molwn Di, O Dduw ein Tadau' gan Eifion Wyn fel ail ddarn i'r Côr, ac 'un o Delynegion y Misoedd' ar yr Hunangyfeiliant; 'Ym Mhenrhyn Llŷn' o waith y diweddar Barch Trebor Roberts, Porthmadog ar yr unawd i rai rhwng 12-16 oed; 'Afallon' (Cynan) a'r cywydd 'Bob Owen' o waith William Morris.

'Carol', Hedd Wyn, gwaith nas cyhoeddwyd erioed yw'r darn prawf i'r Ddeuawd rhwng 12 a 16 oed.

Ceir gweithiau gan feirdd cyfoes hefyd yn cynnwys 'Awdl Goffa R. Williams Parry' (Gerallt Lloyd Owen); 'Drws Ardudwy' (Iwan Morgan); 'Englynion Coffa Gareth Mitford (Myrddin ap Dafydd); a rhan o 'Cadwynau yn y Meddwl') Gwyn Thomas), yn ogystal â detholiad o Awdl Robat Powel, a ddaeth yn fuddugol ym Mhrifwyl y Rhyl.

Mae'r Pwyllgor **Alwaon Gwerin** wedi penderfynu arloesi drwy gynnal cystadleuaeth **ganu baled wreiddiol gyfoes** allan yn yr awyr agored ar Faes yr Eisteddfod. Fe'i cynhelir ym Mhabell y Cymdeithasau os bydd yn tywydd yn anffafriol, ac ar ysgwyddau Elfed Lewys y mae'r baich o feirniadu'r gystadleuaeth hon wedi disgyn.

Mae hanes diddorol i nifer o'r darnau prawf a osodwyd ar gyfer gweddill cystadlaethau'r Adran hefyd. Un o'r darnau ar gyfer y gystadleuaeth i bartïon dan 18 oed yw 'Y Saith Rhyfeddod'. Clywodd Mr John Morris y gân yn cael ei chanu gan ei ewythr, Mr Morris Williams, ym Mhenrhyndeudraeth, a bu ei frawd, Y Parch William Morris yn ei helpu i gopïo'r geiriau.

Clywed pennill cyntaf 'Bwthyn fy Nain', un o'r darnau prawf yng nghystadleuaeth yr unawd i rai rhwng 12 a 16 oed, gan Dr J Lloyd Williams o ganu Owen Williams, Garndolbenmaen, neu'r 'Hen Huddant' fel y gelwid ef. 'Roedd yn aelod o gôr cyntaf J Lloyd Williams ym 1875. Arferai teulu'r 'Huddants' – o dras Eidalaidd – fyw ym Mhlas Bryncir.

'Ar y Bryn Mae Caseg Felen' yw'r ail ddarn gosod ar gyfer y gystadleuaeth yma, cân a ymddangosodd yng nghylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn 1979. Fe'i cyfranwyd gan Shân Emlyn, un o feirniaid yr Adran yn yr Eisteddfod. Clywodd hi John Elfed Jones yn ei chanu, ac yr oedd ef wedi ei chael gan un o'r dynion a weithiai dano ar gynllun Gwaith Dŵr Nant y Moch.

'Mae'r Ddaear yn Glasu' yw un o'r darnau ar gyfer yr unawd i rai rhwng 16 a 21 oed. Codwyd yr alaw gan John Owen, Dwyran a wnaeth gasgliad pwysig o garolau yn wythdegau'r ganrif ddiwethaf. Tri phennill o gerdd John Howell (1774-1830) dan y pennawd 'Carol Haf' a geir yma.

Codwyd 'Caru Llawer', ail ddarn gosod y gystadleuaeth, gan Dr Meredydd Evans ym 1967 o ganu Mrs Elizabeth Evans, merch John Thomas, y canwr gwerin poblogaidd o'r Bala.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

SGANIWRAMA: Cynhelir noson o hwyl a chwerthin gan Ffyliaid y Fro yn Ysgol Brynrefail, nos lau, Hydref 9fed am 7.30. Yr arweinydd fydd Arwel Jones. Bydd elw'r noson yn mynd at apêl y Sganiwr.

DYMUNIADAU gorau'r ardal i Miss Carys Lloyd Jones, Hafod Owen ar cychwyn ei gyrfa mewn coleg yn Ne Morgannwg. Pwnc astudiaeth Carys yw Environmental Health. Pob llwyddiant iddi.

DIOLCH: Dymuna Mrs Jennie Hughes, Oerddwr, ddiolch i'w chymdogion a'i chyfeillion am eu caredigrwydd iddi yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU I Mr a Mrs Barry Bent, 6 Maesgerddi ar enedigaeth mab bychan ar Fedi 18fed, brawd bach i Charles. Newydd-ddyfodiaid yw y teulu yma i'r fro. Croeso iddynt a phob bendith i'r dyfodol.

DYMUNIADAU DA: Ein cofion a'n dymuniadau da i Mrs Mair Williams, 2 Maesgerddi sydd heb fod yn dda ei hiechyd ers peth amser bellach. Boed iddi adferiad buan.

CROESO'n ôl i'w hardal i Mrs E J Ellis, 3 Tai Bryngwyn. Wedi treulio peth amser gyda'r mab Mr Tom Ellis yng nghylch Nottingham, mae Mrs Ellis yn awr wedi cartrefu yn Llys Eiddon, Llanrug. Pob hapusrwydd ac adfer iechyd iddi yno.

DRAENOG

O DDEINIOLEN "HELYNT Y BECAR"

Un noson loer ola
A'r cyfan o'r hogia
Yn yfad yn harti
Yn y Wellington a'r Bull
Mi welais ryfeddod,
Do'n wir rhywbeth hynod
Sef rhen Tom Parry
Yn g'neud petha dwl.
Mi ddeuda'i gyfrinach
Lle gwelis i'r tinllach
Ar noson lle dylai
Fod yn bryd iddo fo
Brynu rownd i'w hen ffrindiau
Oedd i gyd a'u tafodau
Yn hongian reit allan
Yn ei aros o.
Ond yn lle bod yn tancio
Efo Hogia Llanbabo
Adra yn smwddio
Yr oedd yr hen frawd.
Rwan dwi'n g'wbod y gall o
Wneud teisis ac eisio,
Tylino a phobi
Efo'i ddwylo'n y blawd
Ond mae gweld Tomi Becar
Yn rhedag yr haear'
Dros smalls yr hen Vera
Yn fy ngwylltio yn racs.

'Rhen Domi, tyrd, gwranda,
anghofia di'r peisia
tyrd 'nôl at yr hogia
a'th hoff "rum and blacks"
Nid joban i Fecars
Ydi tynnu "rincls" o nicars
TYRD YN ÔL AT DY BARTNARS
AM BEINTYN I'R BULL.

Y Bardd Smŵdd

J.M. JONES a'i FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU
DEINIOLEN
(gyferbyn â'r Ysgol Gynradd)
Crefftwyr Gwaith Llaw Traddodiadol
Cerrig o Bob Math ar Gael
Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

CYMDEITHAS HANES BRO 'ECO'R WYDDFA' O LAN'IOLAN I'R MERICA

Yn 1817, ar y pymthegfed o'r mis bach, priodwyd John Evans a Jane Jones, y ddau yn enedigol o blwyf Llanddeiniolen. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, ganed iddynt eu pumed plentyn, ac yr oeddynt erbyn hyn yn byw yn eu pedwerydd cartref. Am dair blynedd gyntaf eu priodas roeddynt yn byw yn Tyndrwfwl, ac yno y ganed John ym 1818, ac Elizabeth yn 1820. Erbyn 1822, pan aned Margaret, roedd eu cartref yn y Clegir, bwthyn bychan ger Capel Ysgoldy. Ym 1825, pan aned Evan, roedd y teulu wedi symud i le o'r enw Bryncrefolan, ond dair blynedd yn ddiweddarach, ceir fod y teulu yn byw yn Adwy'r Waen ar enedigaeth Griffith.

Yn ôl cofiant John John Evans, dywedir i'r teulu cyfan ymfudo i'r America ym mis Awst 1844, yn rhan o dorf enfawr o ymfudwyr eraill o'r ardaloedd hyn. Nid oedd Evan John Evans yn un o'r ymfudwyr. Fe'i lladdwyd mewn cwymp yn Chwarel Dinorwig ym 1840, ac yntau yn ddim ond pymtheg oed.

Â John John Evans, y mab hynaf o'r briodas, y mae a wnelo ein stori ni. Y Sul cyntaf o Dachwedd, 1844, penderfynodd John John Evans gynnal darlleniadau o'r Beibl yn y rhan o America a alwyd Blaen y Cae, a gyda chymorth dau gyfaill iddo (ymfudwyr eraill), sef David a Foulk Roberts, sefydlwyd Ysgol Sul yno. Erbyn 1847 roedd mintai gref o ymfudwyr wedi symud i Welsh Prairie, ac yr oedd J.J. Evans yn amlwg unwaith eto yn achos yr Ysgol Sul. Dechreuodd bregethu ym 1852, a blwyddyn yn ddiweddarach fe'i hawdurdodwyd i bregethu gan Gyfarfod Dosbarth Cylch Proscairon. O 1854 fe'i hadnabyddid fel y Parch John J. Evans, a bu'n gwasanaethu yn Slatvton, Pensylvania, ac yna'n ôl yn Wisconsin, lle priododd ag Ellen Williams. Yn y cyfnod hwn roedd yn ffermio hen gartref ei rieni, cyn prynu fferm arall yn ardal Jerusalem. Ym 1873 y daeth ef, ei wraig a phlentyn i ddiwedd erchyll ger eu cartref yn Foreston, Iowa. Mewn storm enbyd o eira, a rhewynt caled cafwyd y tri ohonynt wedi rhewi i farwolaeth bron yn ymyl eu cartref.

Ceir y manylion hyn amdano mewn cofiant byr iddo yn "Y Cyfaill" 1909, gan un a oedd yn ei adnabod. Mae rhai o'r manylion yn y cofiant hwn yn wahanol i'r rhai a roddir uchod. Yno, dywedir iddo gael ei eni yn y Clegir, a bod ei rieni yn byw yn Nhan y Foel ger Capel Cefn y Waen, cyn iddynt symud i'r America.



Y Parch John J Evans

Erbyn hyn, mae un o ddisgynyddion y teulu yn chwilio am fwy o wybodaeth am y teulu. Tybed a oes cangen o'r teulu hwn yn parhau i fyw yn ardal Deiniolen a Chlwt y Bont?

Mae rhywfaint o wybodaeth ar gael am John Evans (yr hynaf). Tebygol yw iddo gael ei eni tua 1794 neu 1795. Yr oedd ganddo ddau frawd, Evan a Griffith, ac un chwaer, Catherine. Tybed a oedd y brodyr a-neu'r chwaer mewn cysylltiad a'r teulu wedi iddynt ymfudo i'r America. Os oes unrhyw un a gwybodaeth gellwch gysylltu â Threfnydd y Gymdeithas Hanes, neu'n uniongyrchol a Marveen Minish, 331 Pearson Way N.E., Minneapolis, MN 55432, U.S.A.

Owain Llanddeiniolen

Diolch i'r rhai a gysylltodd â mi ynglŷn â'r cymeriad uchod. Bwriadaf roi ychwaneg o'i hanes yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

AWYRENWR O'R RHYFEL MAWR

Yn rhifyn Gorffennaf-Awst o'r Eco, cyhoeddwyd llythyr a anfonwyd i Ddinorwig gan awyrenwr yn ystod y Rhyfel Mawr. Yn y cyfamser cafwyd y wybodaeth ganlynol am anfonydd a derbynydd y llythyr gan M E Jones o Ddinorwig:

R R Roberts, Fronheulog Dinorwig – derbynydd y llythyr.
Brodor o Nant Peris, ond ar achlysur ei briodas ag Elizabeth Jones, Fronheulog, symudodd i fyw i Ddinorwig. Chwarelwr oedd wrth ei alwedigaeth, er mai ychydig a allodd weithio oherwydd iddo golli ei iechyd yn y Rhyfel Cyntaf.

Unig blentyn yr uchod oedd Eleanor Jones, Llandudno, gweddw'r Parch Dr R H Jones, gynt o Ddeiniolen. Bu hanes ei hangladd yn rhifyn Gorffennaf o'r Eco, yn newyddion Dinorwig.

Robert Emrys Owen, Cae'r Foel, Dinorwig – a ysgrifennodd y llythyr. Mab ydoedd i John Owen, chwarelwr a ddaeth i fyw i Ddinorwig o Gwm-y-glo. Symudodd y teulu yn ôl i Cwm-y-glo wedi'r Rhyfel.

Yr oedd tri o blant yn y teulu. Gwilym oedd yr hynaf a daeth ar ben rhestr y Sir i basio'r 'scholarship'. Cafwyd diwrnod o wyliau yn Ysgol Dinorwig i ddathlu'r achlysur. Athrawes oedd May, yr ieuengaf, a phriododd â rheithor o Gonwy.

Aeth Robert Emrys i Ysgol Brynrefail yn 1911. Un bychan, direudus ydoedd yn blentyn. Yr oedd yn un o bedwar a dderbyniodd 'watch arian' am gadw'r ysgol yn ddifwlch am bum mlynedd yr un pryd â minnau. Yn ôl Mrs M Evans, Dublin House, a oedd hefyd yn yr un dosbarth yn Ysgol Dinorwig, fe aeth i 'weithio gydag awyrennau' yn syth o'r ysgol.

Gwelir ei enw ar y Gofeb yn Neiniolen.

M E Jones

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

DIOLCH: i Iwan Ll Williams, a fu'n gyfrifol am gasglu newyddion Ysgol Brynrefail. Bellach mae'n cael gorffwys i ofalu am dîm pêl-droed Llanberis! Miss Sonia Parri fydd yn ymgymeryd â'r gwaith o hyn ymlaen.

CROESO
Croeso cynnes i'r athrawon newydd, sef Mr Arfon Evans, athro Ysgrythur; Mrs Sylvie Jones, athrawes Ffrangeg a Miss Sonia Parri, athrawes Gymraeg. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yma. Croeso hefyd i ddysgyblion y flwyddyn gyntaf. Pob hwyl iddynt yn eu hysgol newydd.

LLONGYFARCHIADAU i bawb a lwyddodd yn eu harholiadau Lefel 'A', Lefel 'O' a T.A.U. eleni. Pob lwc iddynt yn y dyfodol.

LLUNIAU I GALENDR DR. BARNADO
Dydd Mawrth, Medi'r unfed-ar-bymtheg aeth chwe disgybl o'r drydedd flwyddyn i fyny'r Wyddfa yn y trên bach, er mwyn cael tynnu eu lluniau ar gyfer calendr Dr. Barnado. Y rhai aeth oedd Gwenlli Davies, Cathy Jones, Christine Pitt, Gerallt Jones, Trystan Thomas ac Alun Williams. Cafodd y disgyblion ddiwrnod braf iawn a chafodd pob un grys 'T' Dr. Barnado.

DISGO NODDEDIG CHWECHED DOSBARTH
Unwaith eto eleni bydd disgyblion y chweched dosbarth yn cynnal disgo noddedig er mwyn codi arian ar gyfer parti Nadolig plant Pendalar. Bydd y disgo yn cael ei gynnal nos Fercher, Hydref y pymthegfed, pan fydd y disgyblion yn dawnsio âm bedair awr. Gobeithio y cawn gefnogaeth dda fel yr ydym wedi gael yn y blynyddoedd diwethaf.

YSGOL DOLBADARN LLANBERIS

Ar ddydd Llun, Medi 22 'roedd pedwar disgybl o Ysgol Dolbadarn, sef Alwyn Thomas, Dylan Williams, Aled Hughes a David Humphreys yn cerdded adref o'r ysgol pan welsant berson anabl wrth ddrws y llyfrgell. Ni wyddys ei enw ond gwelodd y bechgyn ei fod mewn cryn drafferth yn ceisio mynd i fewn i'r adeilad. Sylweddolodd y pedwar fod angen cymorth arno ac aethant ag ef i mewn. Yn fwy na hynny estynodd y bechgyn lyfrau iddo, a'i hebrwng allan wedyn.

Cafodd y Prifathro mewn gofal (Mr Selwyn Pritchard) alwad ffôn i'r ysgol gan y person anabl yn diolch o galon i'r plant. Da iawn hogia.

GWAELEDD
Ar ran staff yr ysgol dymuna'r Pennaeth mewn Gofal adferiad iechyd buan iawn i'r Prifathro, Mr John H Hughes sydd ar hyn o bryd yn absenol o'i waith. Gobeithio yn fawr y cawn ei weld yn ail-afael yn yr awenau cyn bo hir. Brysiwch wella Mr Hughes.

ATHRAWON
Dymunir yn dda i Mr Teifion Thomas ar ei apwyntiad fel Dirprwy Brifathro yn Ysgol Talysarn, ac hefyd croesewir Mr John C Owen fel aelod o staff yr ysgol. Gobeithio caiff y ddau amser hapus iawn yn eu dyletswyddau newydd.

GWASANAETH
TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
Linda
MOBILE HAIRDRESSER
Lliwedd
Ffordd Glanmoelyn
Llanrug
Ffoniwch

CAERNARFON 3674
i drefnu amser

TACSIS WEBB
Ffôn: Llanberis 870145
Gwasanaeth 24 awr – pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd
Gwaith Contract

Am ffenestri, drysau, grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed, ffoniwch
BRYN
(B & K Williams)
Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn Caernarfon 77482 (dydd)
Llanberis 870793 (nos)

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

SGANIWRAMA: Cynhelir noson o hwyl a chwerthin gan Ffyliaid y Fro yn Ysgol Brynrefail, nos lau, Hydref 9fed am 7.30. Yr arweinydd fydd Arwel Jones. Bydd elw'r noson yn mynd at apêl y Sganiwr.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i'r canlynol sydd yn wael un ai yn yr ysbyty neu gartref:
Mrs Enid Ll Roberts, Maes Padarn; Miss Julia Owen, Dol Eilian; Mrs Hughes, Plas Tirion Bungalows; Miss Jennie Thomas sydd wedi torri ei braich; Mr Iorwerth Williams, Tŷ Du Road; Mr Hugh Jones, Maes Padarn; Mr Francis Jones, Maes Padarn; Mrs Jennie May Jones, Maes Padarn; Mr Arthur Loveday, Ceunant Street; Mr Alan Parry, Turner Street; Mr Robin Owen, Coed Mawr; Mr Hughes, y Prifathro, a hefyd Lorraine (Ward gynt)

DYMUNIADAU DA: Dymunwn yn dda i Mrs Mennai Jones a Margaret 'London House' yn eu cartref newydd yn Neiniolen.

Dymunwn bob llwyddiant i Miss Kacqueline Kisalw, Dol Elidir ar ei gwaith newydd yn Llundain.

CROESO YN ÔL: Croesawn Valerie â'i gŵr (merch Mr Cledwyn Parry, siop ffrwythau) sydd wedi dod yn ôl i Lanberis i fyw ac yn cymryd y siop drosodd gan ei thad. Ein dymuniadau gorau i chwi eich dau.

DIOLCH: Dymuna John a Mary Owen, 50 Dol Elidir ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Arian. Diolch yn arbennig i Graham a Jean, Gwesty Prince of Wales.

Dymuna Mathew Antoine ddiolch i'r ardal am eu cefnogaeth ariannol tuag at gostau i fynd i ffwrdd ar 'Operation Rally'.

Dymuna Edryd, 28 Maes Padarn ddiolch o galon i'w ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

DYWEDDÏO: Dymuniadau gorau i Gillian Pitts a Michael Thomas.

O LAW I LAW – THEATR GWYNEDD
Fe drefnir bws i weld addasiad o'r uchod ar nos lau, 6ed o Dachwedd. Cost y tocynnau yw £2.50 i oedolion a £1.50 i blant. Enwau a'r arian erbyn Hydref 8fed os gwelwch yn dda i Mrs Alwen Mai Roberts, Siop Ddafadd, Stryd Fawr.

BEDYDD: Yn Eglwys St. Padarn ar Awst 31, bedyddiwyd Awen, merch fach Iola a Valerie Griffiths, Maes Padarn.

BRIGAD AMBIWLANS SANT IOAN
Bydd seremoni cofrestru yr uchod yn Eglwys St. Padarn nos lau, Hydref 30 am 7.30 o'r gloch. Erfyniwn am gefnogaeth y mamau a'r ardalwyr. Diolch yn fawr.

PRIODI: Yn Eglwys St. Peris, Nant Peris ar Awst 30, priodwyd Mr Derlwyn Thomas a Ruth Godfrey

Ar Fedi 13 yng Nghapel Coch priodwyd Mr Gareth Williams a Dilys Jones.

Priodwyd Eryl Owen, merch Mrs Falmai Brenigan, Maes Padarn.

Priodwyd Wendy Evans, merch Mrs Jean Davies gynt o Dol Elidir.

Ar Fedi 20 priodwyd Mr Stanley Robert a Shirley Clarida

Hefyd priodwyd Carol Parry ,merch Mr a Mrs Jack Parry, Stryd Bethesda. Dymuniadau gorau i chwi oll.

BINGO: Nos Wener, Medi 12, cynhaliwyd Bingo yn Gwynedd Restaurant at yr anabl. Gwnaed swm o £90. Dymuna y Pwyllgor ddiolch i bawb. Bydd y Bingo nesaf ar Hydref 10 a'r elw at yr henoed. Os ydych eisiau cyfrannu cysylltwch â Mair Coed yn y clinic.

CYDYMDEIMLAD: Dymuna'r ardal ddatgan eu cydymdeimlad dwysaf â Mr a Mrs Ifan Owen, Dafydd, Gwawr a Llinos a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem o golli mab a brawd, sef Mr Robin Owen, Maes Padarn.

DIOLCH: Dymuna Mrs Megan Owen, 8 Glanrafon, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn ei phrofedigaeth o golli ei phriod Gwilym Wyn Owen (Trapper).

Diolch hefyd am yr arian a gasglwyd er côf. Trosglwyddwyd yr arian i gronfa "Microphones" yng Nghapel Coch.

Hoffai ddatgan ei gwerthfawrogiad i Staff Ysbyty Gwynedd, Matron a Staff Plas Pen Gwaith, a phawb ym Mron Eryri.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i Mr Wilbert Hughes, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

Hefyd i Mark Reynolds sydd gartref ar ôl bod yn yr ysbyty am driniaeth ar ei lygad.

DYMUNIADAU DA A Llongyfarchiadau i bawb o'r pentref a fu'n llwyddiannus yneu harholiadau ac yn mynd allan i weithio neu i goleg, hefyd i'r rhai oedd yn dechrau yn Ysgol Brynrefail, Llanrug ym mis Medi.

LLONGYFARCHIADAU: i ti Bethan Jones, 40 Avon Terrace, ar ddathlu dy ben-blwydd yn un ar hugain oed ar Hydref 3ydd, oddi wrth mam, dad a Geraint.

LLONGYFARCHIADAU: Yn ystod mis Gorffennaf ac Awst bu Oliver Hawkins, mab y Parch a Mrs Alun Hawkins, y Ficerdy, yn brysur iawn. Cafodd ei ddewis i actio un o'r hogiau yn y ddrama gerddorol Oliver oedd yn cael ei llwyfannu yn Theatr Gwynedd, Bangor.
Da iawn, Oliver.

I David Arfon Hughes, Bethan Jones, Avon Terrace, Linda May Owen, Dol Elidir ar gyrraedd eu peb-blwydd yn un ar hugain oed, hefyd Shaun Foulkes, Dol Elidir ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

PRIODAS ARIAN: Llongyfarchiadau i Vernon a Doris, Beech Bank ar eu priodas arian ym mis Medi, hefyd Ernest a Nan Owen, Rhes Faenol ar eu dathliad hwy ym mis Hydref, a Marlene a Teddy Williams, Llainwen Isaf ar eu dathliad hwythau ym mis Hydref.

PRIODAS RUDDEM: Llongyfarchiadau i Arfon a Dilys Phillips, Coed y Glyn (gynt o Siop Dorothy's) ar ddathlu eu Priodas Ruddem ar Hydref 2il.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Raymond a Gwenda Foulkes, Newton St., ar enedigaeth eu mab bach.

Llongyfarchiadau i Derek a Rhian Roberts, Stryd Newton ar enedigaeth eu merch fach.

Hefyd i Colin a Iona Hughes ar enedigaeth eu mab bach.

DIOLCH
Dymuna Derlwyn a Christine, 11 Stryd yr Wyddfa, ddiolch i'w teuluoedd, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas ar Awst 30ain.

GERDDI GORAU LLANBERIS

Buddugwys y gystadleuaeth garddio i drigolion tai cyngor Llanberis oedd: Mr O Edwards, 93 Maes Padarn; Mr G Jones, 88 Maes Padarn; Mrs E Thomas, 89 Maes Padarn; Mr B Jones, 35 Dôl Elidir a Mr I Evans, 48 Maes Padarn. Uchod, fe'u gwelir gyda'r beirniad, Mr R Medwin Williams, Llanfairpwll a'r Cynghorydd John Williams.

APÊL Y SGANER YSBYTY GWYNEDD

Yn ystod dau ddiwrnod agored a gynhaliwyd gan y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan yng Ngorsaf Dinorwig, bu aelodau brwdfrydig o'n cymunedau lleol wrthi'n brysur yn tywys ceir a bysus i'r meysydd parcio a baratowyd ar gyfer y cannoedd o ymwelwyr a heidiodd i weld y cawr tan-ddaearol.

Gofynnwyd i Gyngor Cymdeithas Llanberis fod yng ngofal y maes parcio, ac aeth Ken Jones, 19 Maes Padarn ati i gasglu criw o wirfoddolwyr a oedd yn barod i gynorthwyo gyda'r gwaith. Penderfynwyd codi tâl parcio o bunt am bob car a decpunt am bob bws. Bu'r gweithwyr wrthi'n ddygn yn gosod pawb yn daclus a threfnus, yn rhesi twt ar y Ddol; llawer ohonynt yn gweithio'n ddi-baid o wyth yn y bore hyd wedi pump o'r gloch yr hwyr – ac amryw ohonynt heb saib i ginio na 'phaned chwaith! O ganlyniad i'r ymdrech hon casglwyd £5,050, a throsglwyddwyd y cyfan tuag at Apêl y Sganer i Ysbyty Gwynedd. Bydd y swm hwn yn hwb sylweddol i darged Arfon, sydd bellach bron wedi cyrraedd hanner y £160,000 sydd ei angen.

Dymuna'r Trefnydd ddiolch i'r canlynol am eu cymorth parod dros y ddau ddiwrnod:- Ar ran y Cyngor Cymdeithas: Tom Jones, John Williams, Gwilym Roberts, William Roberts, Gordon Williams. Gwirfoddolwyr: Roy Griffith, Goronwy Lewis, Tommy Vaughan, Nowie Vaughan, Llew Pritchard, John Hughes, Harry Roberts, John Williams, Elfed Morris, Maldwyn Lewis, John T Roberts, Len Jones, Martin Jones, Goronwy Davies, Hefin Roberts, Mair Jones, Dilys Davies, Alice Jones, Rachel Roberts, Ifan Thomas.

Roedd y tâl parcio yn Llanberis yn caniatau i ymwelwyr barcio'n rhad ac am ddim yn y Marchlyn, ond roedd angen trefnu'r safle yno hefyd, a deallwn mai aelodau o ardal Deiniolen a fu'n gyfrifol am hynny. Y mae ein diolch yr un mor ddiffuant iddynt hwythau hefyd.

Carai'r trefnwyr nodi nad yw'r swm hwn o bum mil o bunnau yn cael ei gyfrif tuag at darged pentref Llanberis tuag at y Sganer.

APÊL SGANIWR CORFF
Cynhelir noson
HWYL **'SGANIWRAMA'** HWYL
gydag eitemau
gan Ffyliaid y Fro '86
yn Ysgol Brynrefail, nos lau,
Hydref 9ed am 7.30
Arweinydd: Mr Arwel Jones
Llywydd: Dr Dan Hughes
Oedolion £1, Plant 50c

W.H. JONES
TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
FFÔN:
LLANBERIS 871470
Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Bellach mae'r plant mewn tymor newydd yn yr ysgolion dyddiol – rhai ohonynt yn newid o un ysgol i'r llall, ac o ganlyniad yn cychwyn ar amserlen wahanol, a chael cyfle i ddechrau astudio testunau na chlywsant fawr son amdanynt o'r blaen – testunau fel rheol ni chyffyrddir â hwy yn yr ysgolion elfennol.

Bwrw eu colled yn ogystal y mae'r Eglwys a'r capeli – 'St. Mair' yn gofidio o glywed am farwolaeth sydyn braidd y Parch Richard Meirion Jones, y Felinheli – yntau wedi bod yn cynorthwyo i gadw'r lamp i losgi yn 'St. Mair'. Yr un modd mae Capel Sardis yn cofio ymweliadau y diweddar Barch W. Môn Williams, Brynaman. Roedd yntau'n dod i Sardis pan ar ei gwrs paratoi ar gyfer y weinidogaeth yng Ngholeg yr Enwad ym Mangor – yn ddiweddarach pan yn weinidog ym Mhwllheli, ac yna flwyddyn neu ddwy yn ôl fe wasanaethai yng Nghyrddau Sulgwyn Sardis – sef yr Ŵyl Bregethu flynyddol. Sydyn ac annisgwyl oedd yr alwad iddo yntau i ymuno â chôr y nefoedd.

DATHLU PENBLWYDD

Yn gynnar ym mis Medi fe ddathlodd Mrs Dora Jones, 'Bryn Hyfryd' ei phen-blwydd yn 80ain oed. Er na chawn bellach ei chwmni yn yr oedfaon yn Sardis, fe fu'n ffyddlon iawn, ac mae'r achos yn Sardis yn agos iawn at ei chalon, ac fe gawn gwmni ei merch, Miss Morfudd Hughes Jones yn gyson pan ddaw ar ymweliad o Lerpwl, lle mae'n dilyn ei gwaith fel athrawes ysgol. Fe ddymunwn i Mrs Jones wenau'r nef a nerth y goruchaf.

GWELLHAD

Fe ddeallwn bod Miss Marian Jones a fu'n gofalu am y wedd ariannol yn y Gymdeithas Ddiwylliadol Undebol wedi bod am driniaeth yn yr Ysbyty yn ddiweddar, ond fe hyderwn ei bod bellach yn gwella'n foddhaol. Un o deulu 'Tŷ Newydd' yw hi.

CYMANFA GANU

Ar Fedi'r 14eg – ar ddydd Sul ymgynullodd rhai o 'St Mair' ac Eglwysi eraill o'r cylch mewn Cymanfa Ganu yn y Gadeirlan, Bangor.

TEULU TŶ'R YSGOL

Mae teulu 'Tŷ'r Ysgol' yn cadw'r faner i chwifio mewn cylch eang iawn bellach, ac yn eu sgil, fe ddaw cryn enwogrwydd i ardal Dinorwig. Fe fuont ar ymweliad â Ffrainc yn ddiweddar yn gweithio ag eraill i gynnal cyngherddau.

YN YR YSBYTY

Drwg gennym glywed bod Miss Lil Roberts – gynt o 'Faengwyn', y cyfeiriwyd ati mewn rhifyn blaenorol o'r Eco, wedi bod yn yr ysbyty am driniaeth yn ddiweddar. Derbynied hithau ein dymuniadau da tuag ati, a gobeithiwn glywed newyddion gwell amdani.

NEWYDD TRIST IAWN i'r rhai oedd yn ei adnabod oedd clywed am farwolaeth Mr Robert Rowlands, 12 Pentre Helen, Deiniolen. Fe fu'n cwyno ers rhai wythnosau bellach, ond prin y gallem gredu y buasai'n ymadael â ni mor sydyn. Yn 'Nhyddyn Difyr' y ganed ef, a'i rieni yn ei anfon ef a'i frawd, Mr William John Rowlands, sydd bellach yn byw yn Nyffryn Ogwen, i ysgol Sul Capel Dinorwig (M.C.) Roedd yn ŵr hynod o boblogaidd, a tyner oedd ei ofal am ei wraig. Yr oedd yr un oed â minnau o fewn diwrnod – ei ben-blwydd ef ar y 9fed o Ionawr a minnau ar yr 8fed o'r un mis. Yn hen ysgol Llandinorwig, oedd dan nawdd Eglwys Crist y dechreuodd ef a minnau ein gyrfa addysgol. Chwithig iawn felly i minnau yw ei golli.

SYMUD CARTREF

Mae Mr a Mrs John E Thomas wedi symud i fyw o 'Bwlch Gwynt' i dai Rhydfadog, Deiniolen. Mae eu merch Mrs Rhian Evans yn byw yn fan honno eisoes, â'i dwy ferch hithau, Eleri Wyn a Sian Wyn yn falch o weld taid a nain yn dod i fyw mor agos atynt. Fe ddeallwn bod y teulu am gadw eu cysylltiad â Sardis, ac mae eu mab Trebor Môn am ddal ei afael â'r hen gartref Bwlch Gwynt.

Mae Mr a Mrs Corless a'r ddwy ferch Jennifer Ann a Helen Jayne wedi dod i fyw bellach yn 'Nhŷ Capel Sardis', a hyfryd oedd gweld y fam a'r ddwy ferch yn yr Ysgol Sul yn Sardis. Yma wrth gwrs mae gwreiddiau'r fam.

DIOLCH

Fe ofynnir i mi gan Mrs Dora Jones, Bryn Hyfryd, ddiolch yn fawr drosti i'w theulu, cymdogion a chyfeillion am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed.

Hefyd mae Mrs Nellie Williams, 29 Tai Rhydfadog, Deiniolen yn dymuno i ni ddiolch drosti hithau am bob caredigrwydd a dderbyniodd hithau'n ddiweddar oddi wrth ei theulu a chyfeillion.

DIOLCH

Dymuna John ac Eileen Thomas, Bwlch Gwynt, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, rhoddion a dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar eu hymadawiad i'w cartref newydd yn Rhydfadog, Deiniolen. Diolch o galon i bawb.

DIOLCH

Dymuna Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir, ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, cymdogion, cyd-swyddogion Awdurdod Dŵr a ffrindiau am y llu cardiau, blodau a rhoddion a dderbyniodd yn ystod ei harhosiad yn ddiweddar yn yr ysbyty. Diolch i Staff Ysbyty Gwynedd, yn arbennig Meddygon a Staff Ward Gogarth, hefyd y meddyg teulu am ei gofal a'i sirioldeb. Diolch hefyd i'r Parch John Morris, Llanrug, Mrs Dilys Jones (Warden) Hafan Elan, Llanrug, Mr a Mrs Ifor Williams, Hafan Elan a holl denantiaid Hafan Elan am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da. Diolch i bawb.

SGANIWRAMA: Cynhelir noson o hwyl a chwerthin gan Ffyliaid y Fro yn Ysgol Brynrefail, nos lau, Hydref 9fed am 7.30. Yr arweinydd fydd Arwel Jones. Bydd elw'r noson yn mynd at apêl y Sganiwr.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

SGANIWRAMA: Cynhelir noson o hwyl a chwerthin gan Ffyliaid y Fro yn Ysgol Brynrefail, nos lau, Hydref 9fed am 7.30. Yr arweinydd fydd Arwel Jones. Bydd elw'r noson yn mynd at apêl y Sganiwr.

SASIWN CHWIORYDD ARFON: Cynhaliwyd Sasiwn Chwiorydd Arfon yng Nghapel Brynrefail (M.C.) ddydd lau, medi 11eg. Cafwyd cynulliad da yn y ddwy oedfa ar ddiwrnod o Fedi pan oedd yr hin hafaidd a'i gwahoddiad yn gweddu i gynhesrwydd y croeso ac i wres yr addoliad a'r annerch. Yng nghyfarfod y prynhawn, anerchwyd gan Mr O Aneurin Owen o Gyngor Clwyd a Gwynedd ar Alcoholiaeth. Tynnodd sylw at alcoholiaeth fel problem gymdeithasol enfawr a'r modd y ceisir addysgu'r cyhoedd i yfed yn gyfrifol ynghyd â'r hyn a wneir i gynnig help i alcoholwyr yng ngoleuni dysgeidiaeth yr ysgrythur. Yng nghyfarfod yr hwyr, anerchwyd gan Miss Gwenda Jones, Caernarfon, sydd newydd gwblhau ei chwrs gradd B.D. ac sydd ar hyn o bryd yn dilyn y Cwrs Bugeiliol ar gyfer y Weinidogaeth lawn amser. Cymerodd ei thestun o Epistol Paul at yr Effesiaid ac yn ei sylwadau llawn argyhoeddiad, ac yn wyneb y broblem a drafodwyd yng nghyfarfod y prynhawn, cafwyd sicrwydd mai yng Nghrist y gorwedd yr ateb i holl gymhlethdodau ein hoes. Yng ngeiriau'r emynyddes Ann Griffiths o Ddolwar Fach, emyn a ganwyd yn ystod yr oedfa:

"O f'enaid gwêl addasrwydd
Y Person rhyfedd hwn
Dy fywyd mentra arno
Ar arno rho dy bwn."

Llywyddwyd y cyfarfodydd gan Mrs Miriam Lewis, Deiniolen a Mrs Gillian Morris, Llanrug, a chymerwyd y rhannau arweiniol gan Mrs J C Williams, Pontrhythallt a Miss J C HUGHES, Nantlle. Bendithiwyd yr offrwm gan y Parch W O Roberts a'r Parch John Morris, Llanrug. Yr organyddion oedd Mrs Beti Peris Roberts, Dinorwig a Miss Lowri P Roberts, Brynrefail. Etholwyd Mrs Miriam Lewis yn Drysorydd Cyfeisteddfod Arfon i olynu Mrs J D Roberts, Caernarfon a roddodd ei gwasanaeth am bum mlynedd ar hugain. Cyflwynwyd rhodd iddi am ei llafur diflino. Trefnwyd lluniaeth gan chwiorydd Eglwys Brynrefail rhwng y ddau gyfarfod a diolchwyd wrth y byrddau gan Mrs J D Roberts ac ar derfyn oedfa'r hwyr, cafwyd gair o ddiolch cyffredinol gan Mrs Trefor Jones, Caernarfon. 'Roedd trefniadau'r Sasiwn dan ofal Miss J C Hughes – ysgrifennydd cyfeisteddfod chwiorydd Arfon ac ysgrifennydd y gyfeisteddfod leol, Mrs Pat Jones.

ANRHYDEDD: Hyfrydwch yw cael datgan i Miss Alice Williams, un a anwyd ac a dreuliodd ran helaeth o'i hoes ym Mrynrefail gael ei anrhydeddu yn ddiweddar drwy gael ei hethol yn Llywydd Cymdeithas Ddawnsio Gwerin Cymru. Mae yn dra anrhydedd gan ei bod yn olyniaeth enwogion fel W S Gwynn Williams, Lois Blake ac Emrys Cleaver. Gwyddom yn dda am ei dawn ym maes y dawnsio gwerin ers blynyddoedd maith ac am ei harbenigrwydd fel beirniad cenedlaethol yn uchel wyliau ein gwlad. 'Rydym fel pentrefwyr yn falch o estyn llongyfarchiadau i un sy'n gwir deilyngu'r anrhydedd a ddaeth i'w rhan. Yn ystod ei gyrfa, bu Alice Williams yn dilyn ei galwedigaeth fel athrawes mewn nifer o ysgolion yng Ngwynedd a Swydd Caer ynghyd â bod yn drefnydd Urdd Gobaith Cymru ar un cyfnod. Ers ei hymddeoliad, bu ar ymweliad ag Awstralia ac ar hyn o bryd mae yn cartrefu yng Nghaerdydd.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Yng nghyfarfod y mis, cafwyd cwmni Mr Cledwyn Williams, Llanrug a thestun ei sgwrs oedd 'Cyd-ddigwyddiadau'. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad gan Mrs Jennie Hughes. Talwyd diolch hefyd i nifer o aelodau'r gangen am eu gwaith yn casglu tuag at gronfa 'Curiad y Galon'. Trefnwyd y lluniaeth gan Mrs Gwyneth Williams a Mrs Audrey Roberts, a diolchwyd iddynt gan Mrs Jennie Maxwell. Enillwyd gwobr y raffl a gyflwynwyd gan Mrs Blodwen Roberts gan Mrs Val Davies. Cyfeiriwyd at y daith gerdded noddedig a fu brynhawn Sadwrn, Medi 13eg er budd cronfa Keith Jones, 'Rallt, pryd yr ymunodd nifer o'r aelodau ar daith bum milltir o amgylch Llyn Padarn. Nos Fercher, Medi 17eg, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf dosbarth nos Mrs Gillian Smith ar waith lledr a gwydr dan nawdd y gangen – cyfarfod a brofodd yn addawol dros ben yn ei frwdfrydedd a nifer ei aelodaeth. Nos Wener, Hydref 3ydd, am 7 o'r gloch, cynhelir Sioe Cynnyrch dan nawdd Economeg Cartref Gwynedd o Sefydliad y Merched yn y Waunfawr. Tâl mynediad fydd 30c yn cynnwys lluniaeth.

DYDD O DDIOLCH: Eleni bydd y Sul olaf o Hydref, sef y 26ain yn cael ei neilltuo i gyfarfodydd arbennig yr Ŵyl Ddiolchgarwch yn Eglwys Brynrefail (M.C.)

Bydd oedfa'r bore dan ofal y gweinidog, Y Parch John Morris, pryd y gweinyddir y Cymun ac yn oedfa'r hwyr bydd gwasanaeth o ddiolch yng nghwmni plant ac ieuenctid yr Eglwys.

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr)

SGANIWRAMA: Cynhelir noson o hwyl a chwerthin gan Ffyliaid y Fro yn Ysgol Brynrefail, nos lau, Hydref 9fed am 7.30. Yr arweinydd fydd Arwel Jones. Bydd elw'r noson yn mynd at apêl y Sganiwr.

CLWB GWYRFAI
Edrychwn yn ôl ac hefyd ymlaen – mae Clwb Gwyrfai yn 21 oed eleni. Edrychwn ymlaen am dreulio rhyw awr yng nghwmni ein gilydd a chael rhaglen amrywiol a diddorol bob yn ail dydd lau am 2 o'r gloch. Bydd y cyfarfod cyntaf yn y Ganolfan brynhawn lau, Hydref y 9fed. Croesawir aelodau hen a newydd i fwynhau ein hunain ar gyfer rhaglen amrywiol a diddorol. Trefnir bws am 1.30 yng Nghroes y Waun ac 1.45 wrth y post.

CLWB 100 PLAID CYMRU
Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Mehefin, Gorffennaf ac Awst:
1. Eurig Wyn, Y Frenni; 2. Olwen Williams, Llidiart Wen; 3. Luned Roberts, Swn y Gwynt.
1. Mrs Mary Vaughan Jones, Hafod y Coed; Haydn Jones, Rhandir Mwyn; Dic Jones, Llwyn Onn
1. Mrs Mwynwen Jones, 2 Tref Eilian; 2. Mr Gwynn Davies, Bryn Eithin; 3. Mr Gwilym Hughes, Tref Eilian.

EISTEDDFODAU YR ARDAL
Dyddiadau Pwysig
Dydd Gwener, Hydref 25ain – dyma'r dyddiad **olaf** i dderbyn y cynnyrch llenyddol, a'r llinell goll.
Dydd Mercher, Hydref 29ain – yn yr Ysgol Gynradd fe fydd y cynnyrch coginio, gwaith llaw, gwau a gwnïo, arlunio a'r ffotograffiaeth yn cael eu beirniadu. Dewch a'ch cynnyrch erbyn 6 o'r gloch os gwelwch yn dda. Eleni eto fe fydd yn bosibl ichwi gael paned a chacen rhwng y ddau gyfarfod yng nghaffi'r Eisteddfod, ac fe fydd y pwyllgor yn ddiolchgar o unrhyw gyfraniad tuag ato.

Penderfynnodd y pwyllgor mai o'r llyfr 'Ystafell Ddirgel' gan Marion Eames, y dewisir y darn darllen ar y pryd yn y gystadleuaeth 15-18 oed. Os oes rhywun yn berchen ar y llyfr "Dial Dau" gan Ifor Owen, ac yn fodlon rhoi ei fenthyg inni, a wnewch chwi gysylltu â Nan Roberts, Pant Afon, neu Olwen Williams, Llidiart Wen, os gwelwch yn dda.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR
Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Awst:
1. £40 Mr Catt, Smithy Garage; 2. £25 Mrs Bracegirdle, 21 Tref Eilian; 3. £10 Mrs Beryl Jones, Dol y Coed.

LLONGYFARCHIADAU: I Mr a Mrs Thomas Hughie Williams, Llwydiarth, ar fod yn daid a nain. Ganwyd mab, Elgan, i Delyth a Michael.

I Judith ac Alan Hughes, Llys Menai, ar enedigaeth merch fach, chwaer i Elin, Ceri a Ffion, ac i Mrs Helen Jones, Dolerddi, ar fod yn nain eto.

I Gwenan Wyn Jones, Glyn Ceris, ar lwyddo yn ei arholiad piano Gradd 3 gyda theilyngdod.

DIOLCH: Dymuna Mr Bob Eagleston, Tremallt, ddiolch o galon i bawb a gyfranodd ym mhob ffordd i wneud Ras yr Antur yn llwyddiant ysgubol.

CYDYMDEIMLWN yn fawr a Mr W M Catt, Awel-y-Môr, ar golli priod.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion at Mr Idris Owen, Llys Awel a Chapten Jackson, Trigfa, sydd yn yr ysbyty. Dymunwn lwyr wellhad buan iddynt.

ADREF O'R YSBYTY: Da yw gweld Mr Robert Lewis Parry, Rhes Eilian, adref o'r ysbyty. Gobeithio ei fod yn parhau i wella.

Dymuniadau gorau i Miss Gwladys Lewis, 'Ardref', ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

DYMUNIADAU GORAU: i Mrs R E Jones, Bryn Derwen, ar ei hymddeoliad fel athrawes ysgol Sul yng Nghapel Bethel. Diolch iddi am roi blynyddoedd o wasanaeth diflino.

SEFYDLIAD Y MERCHED
Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Waunfawr o Sefydliad y Merched yn Festri Capel Croesywaun nos lau, Medi 4ydd. Croesawyd aelodau newydd – Mrs Duncan, Mrs Ham a Mrs Elen Jones – gan y llywydd Mrs Pat Parry.

Darllenwyd y cofnodion a'r Llythyr Misol a rhoddwyd manylion o'r dosbarthiadau a'r cyfarfodydd sydd yn yr arfaeth ar gyfer y gaeaf.
Miss Smith, o Gricieth, oedd y siaradwr gwadd, a rhoddodd arddangosiad o frodio Swistirol ac impio gwaith gweu. Mwynhaodd pawb y noson a diolchwyd i Miss Smith gan Mrs Southworth.
Enillwyd y raffl gan Mrs Southworth – roedd y wobr wedi ei rhoi gan Mrs Smith.
Mrs K Wynn Jones a Mrs Smith oedd yn gyfrifol am y lluniaeth.
Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Hydref 2, pryd y dysgwylir aelod o Gyngor Gwynedd ar Gyffuriau i roi darlith.

YR YSGOL FEITHRIN
Fore dydd Gwener, Awst 29, mentrodd criw o famau a phlant bach draw i Lanberis i gymryd rhan fechan mewn rhaglen ysgafn oedd yn cael ei ffilmio gan Gwmni Ffilmiau'r Nant. Anturiaethau dau ddyn hufen iâ oedd thema'r stori, a chafodd pawb hwyl i'w ryfeddu a llond eu boliau o hufen iâ. Diolch i Ffilmiau'r Nant am y profiad difyr a chyfle i ennill arian ar gyfer yr Ysgol Feithrin.

Bu'r Ysgol Feithrin yn gyfrifol am redeg caffi ar ddiwrnod Ras yr Antur ar y 6ed o Fedi. Cafwyd pnawn prysur yn disychedu'r rhedwyr blinedig a'r rhai oedd wedi dod ynghyd i'w cefnogi. Enillwyd y gystadleuaeth pwysau'r gacen gan Mrs Gwendoline Rowlands, y ddol gan Mrs Jean Jones, a gwobr Ynys y Trysor gan Eleri Jones o Benisarwaun. Diolch i Antur Waunfawr am y cyfle i gymryd rhan yn y diwrnod cofiadwy hwn ac i bawb am eu cefnogaeth. Gwnaethpwyd elw da i'r Ysgol Feithrin.

Cynhelir Noson Paned a Stondinau nos Wener, Hydref 17eg am 6.30 p.m. yn y Ganolfan.
Croeso cynnes i bawb.

YR URDD
Dechreuodd tymor newydd yr Urdd ar nos Fercher, Medi 10, pan ddaeth criw da ynghŷd i ymaelodi, ac i gymryd rhan mewn cwis.

Nos Fercher, Medi 17eg trefnwyd Helfa Drysor i'r plant gan John Huws, Argoed, a chawsant hwyl garw yn dilyn y trywydd a osodwyd iddynt. Yr enillwyr oedd Leanne, Kailey, Awenna a Iona. Diolch cynnes i John.

Nos Fercher, Medi 24 bydd Chwaraeon yn y Neuadd Fawr dan ofal Mr Dafydd Owen, Llanrug.

Os oes gan unrhyw blentyn rhwng 8 a 12 oed awydd ymaelodi â'r Urdd ac ymuno yn yr hwyl bob nos Fercher rhwng 6 a 7 o'r gloch, mae croeso mawr iddynt.

Bydd y plant yn mynd i nofio ar Hydref 15 i'r Ganolfan Chwaraeon yng Nghaernarfon, ac ar Dachwedd 5ed byddwn yn trefnu Noson Guto Ffowc i bawb o'r pentre, fel arfer.

CLWB CHWARAEON: Bwriedir cynnal Noson Lawen yn y Ganolfan nos Wener, Tachwedd 21 er budd cronfa'r clwb, a disgwylir parti Clychau'r Grug, Ffion Williams a'r diddanwr J R Williams, Mochdre i gymryd rhan ynghyd â rhai doniau lleol.

Tîm Pêl-droed Waunfawr 1912-13

Llun gan W L Jones, Llannerch.
Rhes ôl: O'r chwith i'r dde — Dafydd Jones (Referee); Wil, Bryn Golau; Lei (Golgeidwad); Bobi, Glyn Afon; Twm, Ty'n Twll.
Rhes flaen: O'r chwith i'r dde — Yr ail yn y rhes 8 Wil, Bryn Golau; Guto Priory; Now Tom; Ifan Jones, Collfryn; Huw Huws; Robin Morris, Cyrnant Lodge; a Robin Teras.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Darparwyd rhaglen ddiddorol ar gyfer tymor newydd o'r Gymdeithas Lenyddol sydd yn cychwyn nos Lun, Hydref 27 yn y Ganolfan pan y ceir darlith gan Mr Dyfed Evans, Pencaenewydd a chyn - newyddiadurwr ar y Cymro. Bydd Mr Evans yn rhoi ei ddarlith boblogaidd a diddan ar hanes y diweddar Bob Owen, Croesor, y gŵr y bu i Dyfed Evans ysgrifennu llyfr amdano. Llywydd y noson fydd Mr R Gwynn Davies, ac anogir am gefnogaeth dda eleni eto i'r Gymdeithas, sydd heb os wedi ail ennill ei phlwyf gan i dros 70 ymuno y llynedd.

LLONGYFARCHIADAU
I Bryn Griffiths, Gorffwysfa, ar ei briodas â Linda Owen o Lanrug.

I John a Sioned Glyn, 2 Stad Tŷ Hen, ar enedigaeth mab bychan, Rhion.

I Harry ac Eirlys, Bryn Têg, ar enedigaeth merch.

MERCHED Y WAWR: Nos lau, Medi 25, dechreuodd tymor newydd o Ferched y Wawr gyda noson hwyliog iawn yng nghwmni cangen Nant Gwynant. 'Roedd doniau di-rifedi ymysg y gangen wahoddedig ac aethant a ni i frwydr y tarw hyd yn oed! Diolchodd Miss Bessie Jones yn gynnes iawn iddynt ac i aelodau'r pwyllgor am drefnu lluniaeth blasus iawn ar ein cyfer. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Iris Owen, gan Mona Lloyd. Yn ystod y noson soniodd y Llywydd, Mrs Glenys Williams, am waeledd Mrs C Pritchard a Mrs M A Owen, Tref Eilian, a phenderfynwyd anfon ein cofion atynt a dymuno gwellhad buan iddynt.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Hydref 30, yng nghwmni Eluned Roberts a Gill Brown, yn paratoi ar gyfer y Nadolig. Bydd bwrdd Moes a Phryn y noson yma. (Sylwer bod y dyddiad wedi newid y mis yma oherwydd gwyliau hanner tymor sy'n disgyn ar ein diwrnod arferol).

YR AELWYD: Bu criw'r Aelwyd ar ddau drip go ddifyr a gwahanol yn ddiweddar. Ar y pedwerydd ar ddeg o Fedi aeth llond bws i Alton Towers (. . . wel pawb ond Meirion ac Alwyn, a ddaliodd y bws yn Llanfairfechan, diolch i Cyril Fittipaldi!).

Yr ail drip oedd taith i ben yr Wyddfa yng ngolau'r LLEUAD Fedi. Doedd neb o'r criw wedi bod i fyny ar naw nos olau o'r blaen ac roedd yn brofiad newydd iawn iddynt. Cafwyd taith ddi-drafferth a gwelwyd gwawrio bythgofiadwy.

LLONGYFARCHION: I Alun Williams, Bro Waun, ar ennill y wobr gyntaf ar y brif unawd yn Eisteddfod Llithfaen ar Fedi 6ed. Cafodd hefyd ail wobr ar y Gân Werin, trydedd wobr ar yr Emyn Dôn a gwobr gyntaf gyda Humphrey Jones, Betws Garmon ar y ddeuawd. Humphrey Jones gafodd y wobr gyntaf ar y Gân Werin, ac ail wobr ar yr unawd. Yn yr un eisteddfod, enillodd Meira Turner, Collfryn, yr ail wobr ar y Brif Adroddiad; ac yn Eisteddfod Butlins ar Fedi 27ain, unwaith eto enillodd yr ail wobr ar y brif adroddiad.

AR WERTH
CLARINET
REGENT
Ffôn: WAUNFAWR
421

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

W.J. GRIFFITH
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP
Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.
Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

Dyddiadur y Mis

MERCHER, 1: LLANRUG: Cangen Plaid Cymru – Noson yng nghwmni Mr Dafydd Wigley AS.
WAUNFAWR: Adran yr Urdd.
CWM-Y-GLO: Clwb y Mamau – Arddangosfa o Emau
LLANBERIS: Clwb y Mamau.

Iau, 2: BETHEL: Noson ymaelodi yr Urdd yn y Neuadd am 6.00
WAUNFAWR: Sefydliad y Merched – darlith ar Gyffuriau.

Gwener, 3: YR ARDAL: Clwb Eryri yng Nghwesty'r Gwynedd am 7.30 – Darlith gan Mr Emyr Price, Bethel.
LLANBERIS: Te yr Henoed.
DEINIOLEN: Bingo yn Ystfell y Seindorf am 8.00
BETHEL: Disgo i'r plant yn y Neuadd. Yr elw er budd Cronfa'r Eisteddfod.

Sadwrn, 4: DEINIOLEN: 'Operation Sport' yn y Ganolfan o 10.00 tan 1.00

Sul, 5: BETHEL: Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Fair am 7.00 yng nghwmni Côr Meibion Dyffryn Nantlle.
PENISARWAUN: Gwasanaeth Cymdeithasol y Beiblau yn Eglwys Santes Helen am 2.00.
Cymanfa Ganu am 6.00

Llun, 6: DEINIOLEN: Sefydliad y Merched.

Mawrth, 7: BETHEL: Bore a Noson Goffi yn yr Ysgoldy gyda'r enw tuag at Gronfa'r Spastics.

Mercher, 8: BETHEL: Merched y Wawr – Noson yng nghwmni Mrs McShane.
WAUNFAWR: Adran yr Urdd.
LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol yn Festri Pontllyfni – y siaradwr fydd y Parch Emlyn Richards, Cemaes.

Iau, 9: YR ARDAL: Noson 'Sganiwrama' yng nghwmni Ffyliaid y Fro yn Ysgol Brynrefail am 7.30.
BETHEL: Adran yr Urdd – Noson yng nghwmni Mr Selwyn Jones.
WAUNFAWR: Clwb Gwyrfai

Gwener, 10: DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00
BETHEL: Cyfarfod Cyhoeddus yn y Neuadd am 7.00 i sefydlu Pwyllgor Apêl y Sganiwr.
LLANBERIS: 'Bingo a Bwyd' er budd Clwb yr Henoed yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30.
BETHEL: Ffair Hydref gan Glwb y Mamau.

Sadwrn, 11: DEINIOLEN: 'Operation Sport' yn y Ganolfan o 10.00 tan 1.00

YR ARDAL: Cyfarfod arbennig iawn i gofio Harri Gwyn ym Mhlas Menai, Caernarfon am 10.30 am. Wedi ei drefnu gan yr Academi Gymreig.

Mawrth, 14: LLANRUG: Merched y Wawr – Rol Williams, Waunfawr yn sôn am Drên bach yr Wyddfa.

Mercher, 15: WAUNFAWR: Adran yr Urdd yn ymweld â Chanolfan Hamdden Caernarfon.
DEINIOLEN: Menter Chwaraeon – Cyfarfod yn y Ganolfan am 7.00

Iau, 16: LLANRUG: Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr – noson yng nghwmni Parti Glannau Menai.
Cymdeithas Chwiorydd Pontrhythallt.

Gwener, 17: PENISARWAUN: Gyrfa Chwist er budd Cronfa Atgyweirio Eglwys Santes Helen yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
LLANBERIS: Te yr Henoed
DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00
CAEATHRO: Cangen Plaid Cymru – Noson 'Doniau Lleol' yn yr Hen Ysgol, Bontnewydd
WAUNFAWR: Noson Paned a Stondinau am 6.30 yn y Ganolfan er budd yr Ysgol Feithrin.

Sadwrn 18: DEINIOLEN: 'Operation Sport' yn y Ganolfan o 10.00 tan 1.00

Llun 20: PENISARWAUN: 'Ffair Hydref' yn Neuadd yr Eglwys am 6.30. Yr elw er budd yr Eglwys.

Mawrth, 21: LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol
PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen

Mercher, 22: WAUNFAWR: Adran yr Urdd

Iau, 23: WAUNFAWR: Clwb Gwyrfai

Gwener, 24: DEINIOLEN: Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi

Sadwrn 25: DEINIOLEN: Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi

Llun, 27: WAUNFAWR: Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan – Darlith gan Mr Dyfed Evans, Pencaenewydd ar hanes Bob Owen, Croesor.

Mercher 29: WAUNFAWR: Adran yr Urdd

Iau, 30: LLANBERIS: Sefydliad y Merched

Gwener 31: PENISARWAUN: Cystadleuaeth Calangaeaf yn Neuadd yr Eglwys
LLANBERIS: Te yr Henoed
DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00

DYDDIAU I'W COFIO
Tachwedd 1: Eisteddfod Bethel
Tachwedd 16: Gwasanaeth Sul yr Urdd yn Waunfawr
Tachwedd 21: Ffair Nadolig Clwb yr Henoed, Llanberis
Tachwedd 21: Noson Lawen yng Nghanolfan Waunfawr.

CLWB CODI PWYSAU PŴER DINORWIG

Aelodau ifanc y Clwb yn dangos eu tystysgrifau

Rhai o dlysau pencampwyr cryf Dinorwig.

ADRODDIAD AR GYNNYDD Y CLWB

Nid chwarae ar eiriau yw'r bwriad, ond dengys llwyddiant y Clwb Codi Pwysau Pŵer, os yn wir dyna'r cyfieithiad o 'power lifting' ei fod yn mynd o nerth i nerth.

Yng Ngorffennaf, bu chwe aelod o'r clwb yn cystadlu ym mhencampwriaeth Gwynedd a daeth pump ohonynt yn gyntaf a'r llall yn ail yn eu gwahanol ddosbarthiadau. Yn y llun isod, yn y rhes uchaf, o'r chwith i'r dde gweler Haydn Williams, (67 a hanner kg dosbarth Iau – cyntaf); Raymond Jones (87 a hanner kg – Cyntaf) a Cemlyn Thomas (75kg – cyntaf). Yn y rhes isaf, Gerwyn Jones (67 a hanner kg – ail); Len Jones, hyfforddwr y clwb (67 a hanner kg – cyntaf) a Jason Jones (60kgdosbarth Iau – cyntaf).

Ym Mehefin, daeth yr anrhydedd am yr ail flwyddyn yn olynnol, i Len, Raymond a Gerwyn i gynrychioli Gogledd Cymru yn erbyn y De, ac i goroni'r holl lwyddiant, dewiswyd Len yn aelod o garfan tîm Codi Pwysau Cymru.

Ym mhencampwriaeth Gogledd Cymru, ym mis Awst, yn rhyfedd iawn, yr un oedd yr ystadegau – pump cyntaf ac un ail ymysg y chwech fu'n cystadlu dros y Clwb, a hwy yn naturiol oedd y mwyaf llwyddiannus o'r holl dimau. Daeth Haydn Williams yn ail yn y dosbarth 67 a hanner kg, a buddugol fu Ian Roberts (67 a hanner kg dosbarth Iau), Len Jones (60kg), Terry Evans (52kg dosbarth Iau), Raymond Jones (82 a hanner kg) a Gerwyn Jones (67 a hanner kg)

Gyda'i lygaid ar ddyfodol y Clwb, mae Len Jones hefyd yn awyddus dros ben i annog ieuenctid yr ardal i ymgymeryd â'r sbôrt; ac fel y gweler yn y darlun, bu nifer yn llwyddiannus, gan ennill tystysgrifau gradd. Yn y rhes uchaf, o'r chwith i'r dde; Melvin Brookes, Darren Parry, Malcolm Griffiths, Terry Evans a Kevin Jones. Yn sefyll o'u blaen, Daryl Williams, Jonathan Fraser Jones, Neil Williams, Kevin Cyster a Christopher Allen.

Dymunwn bob llwyddiant i'r Clwb yn y dyfodol, gan hyderu y cawn glywed mwy am eu campau yn ystod y tymor.

Mae mwy o ddewis nag erioed gan
JOHN A ROBERTA GRIFFITH
Y STORFA
SGWÂR LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2790
Bwydydd, Llysiau, Diodydd, Gwlân Sirdar, Patrymau, Gweill Aero
Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.
Agored tan 8.00 p.m. nos Wener a
9.30 - 12.30 fore Sul
Archebwch dros y ffôn – fe'i danfonwn at eich drws

TACSIS
AMBERLINE
UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER
Ffôn 670555

CHWARAEON

CLWB PÊL-DROED LLANBERIS

Draw i Lanbêr y mis hwn i gael cipolwg ar weithgareddau'r Locomotives, ac i adnabod ychydig ar y rhai sy'n gysylltiedig â'r clwb.

Does angen fawr o ddychymyg i sylweddoli mai o'r ffaith mai cwmni Lein Fach yr Wyddfa sy'n noddi'r clwb y daw'r enw. Daeth hyn yn arferiad pur gyffredin dros y blynyddoedd diwethaf, ac y mae lle i ddiolch i'r cwmniau a'r sefydliadau lleol am gefnogi'r clybiau drwy eu dilladu ac arddangos ar y crysau eu harwyddluniau. Cwmni Lein Y Llyn rhoddodd y dillad iddynt.

Fel y gŵyr pawb fu'n moduro heibio i'r cae'n ddiweddar, y mae'r gwaith o adeiladu wal gerrig rhyngddo a'r ffordd yn prysuro rhagddo. Bu'r clawdd-adeiladwyr, a gyflogir dan gynllun yr MSC, yn brysur ers rhai misoedd a gobeithir gorffen y gwaith yn fuan. Y clwb pêl-droed sy'n gyfrifol am brynu'r deunydd. Bydd hyn yn hyrwyddo'r ffordd i ychwanegu o leiaf ddwylath at lêd y cae, a thrwy hynny ddileu'r gŵyn gyffredinol amdano, sef ei fod yn rhy gul.

Buddsoddwyd peth amser ac arian ar yr ystafelloedd newid hefyd, ac y mae bellach bedair cawod i ymolchi tanddynt.

Ymunodd y clwb eleni â Cynghrair Gwynedd a bu hefyd gryn drafod ar y posibilrwydd o chwarae ail dîm yng Nghyngrair Sain Caernarfon a'r Cylch. Penderfynwyd o'r diwedd mai hybu ieuenctid y pentref fyddai o'r budd mwyaf i ddyfodol y clwb, ac felly ail dîm y pentref, fel petai, yw'r ieuenctid dan 18 oed, sy'n chwarae yng Nghyngrair Iau Sain. Llanberis, Pwllheli a thref Caernarfon. Hogia Llanbêr yw'r tri arall, sef y mwyaf profiadol ohonynt i gyd, Percy Allen, gynt gyda Watford, Bangor, Rhyl, Llanberis, Llanfairpwll a Benllech. John Williams, Llanberis, Benllech a Llanrug, a Terence Griffiths fu'n

Rhai o 'sgwad' y tîm cyntaf.

Iwan Williams, brodor o'r pentref, fu'n gysylltiedig â'r clwb ers blynyddoedd bellach yw'r rheolwr, a chrêd fod ganddo garfan o 20 chwaraewr a ddylai fod yn uchel iawn yn y tabl erbyn diwedd y tymor.

Y gol-geidwad yw David R Griffiths, hogyn o Fôn a phrofiad ganddo o chwarae yng Nghyngrair Gogledd Cymru gyda Llanfairpwll a Phwllheli. Yn eilydd teilwng iddo mae John Wyn Roberts, un o'r pentref a fu'n ffyddlon i'r clwb am flynyddoedd, ag eithrio cyfnod byr yn Nefyn.

Mae saith o gefnwyr yn y garfan, sef Iolo Evans a Gareth P Jones, y ddau o Lanberis, Robert John Williams o Fethel, Iwan Evans, yr Is-gapten sy'n byw bellach yng Nghaernarfon a phrofiad ganddo efo Pwllheli, Caernarfon a Bethesda, Gwyndaf a Kevin Jones, brodyr o Ddinorwig, y ddau wedi chwarae i Gaernarfon, Gwyndaf i Bwllheli a Kevin i Lanrug. Kelvin Jones o Lanberis yw'r seithfed, mae wedi cynrychioli Llanrug a Blaenau Ffestiniog yn ogystal â Llanberis yn y gorffennol. Mae hyn yn wir am yr holl amddiffynwyr.

Yng nghanol y cae mae Peter Roberts, brodor o Benygroes sydd wedi ymgartrefu bellach yng Nghaernarfon. Pete yw capten y tîm, a bu'n chwarae â Nantlle Vale, Llanrug a Llanfairpwll. Daw Gareth Wyn Jones o Fethel a bu'n chwarae dros Caernarfon Utd., ffyddlon i Lanberis drwy ei yrfa.

Y blaenwyr yw Bryn Williams o'r Groeslon (Tref Caernarfon), Steven Williams o Glynnog (Nantlle Vale), Derfel Roberts o Gaernarfon (Tref Caernarfon a'r Felinheli), Richard Williams o Benygroes (Nantlle Vale a Llanberis) a Neil Thomas Walmsley – un o Lundain sydd newydd ymsefydlu yn yr ardal ar ôl cyfnod yn chwarae yn y drydedd adran yn Awstralia!

Mae un dyn bach ar ôl, sef Gwilym Williams, bellach o Fethel, ond Gwil bach Llanbêr fydd o am weddill ei oes. Hwn fydd y pedwerydd tymor ar hugain iddo yn cynrychioli'r pentref! Tipyn o record ynte?

Arwyn Roberts yw rheolwr y tîm ieuenctid ac y mae yntau wedi casglu carfan gref o'i gwmpas gan gynnwys Terry Saynor, Dylan Roberts, Jason Roberts a Darren Price o Lanberis. O Fethel daw Alwyn Williams, Richard Sharpe, Myfyr Jones ac Alan Williams. Daw'r mwyafrif, yn rhyfedd iawn o Lanrug, sef Martin Williams, Pat McGuiness, Bruce Johnson, Gareth McGuiness, Dewi Morris, Chris V. Owen a Gareth Parry. Yn cwblhau'r garfan mae Ceirion Williams a Dafydd M Jones, y ddau o Benisarwaun, Neil Roberts o Frynrefail a Gareth Rhys Roberts o Fangor.

Dymunwn bob llwyddiant i'r clwb drwy'r tymor hir sydd o'i flaen.

PYSGOTA

Adroddiad H.P. Hughes, Bethel

Bu'r Seiont hyd at ddechrau Medi yn 'sgota'n dda am eog a sewin i gymharu â'r blynyddoedd diweddaf, er nad yw'r pysgod wedi gwastraffu amser yn gwneud eu ffordd i ddiogelwch Llyn Padarn.

Y rhai fu'n ddigon ffodus i gael y gloyw i'r lan oedd Jim Carr, Llanberis – dau am 9 a 7 bwys. Gwyndaf Jones, Llanrug – 2 am 7 bwys yr un – y pedwar o ardal Pont Rhythallt. A Gibsberg, Bethel – 1 am 5 pwys. John Jones (John Bwlch), Penisarwaun – 1 am 10 pwys. M. Marris, Y Felinheli – 4 i fyny i 12 pwys. Emyr Jones, Deiniolen – 2 am 7 pwys yr un. Huw Jones, Maes Tryfan – 2 am 7 a 9 pwys. T. Christy, Maes Tryfan – 2 am 9 a 5 pwys. Rhain i gyd o Bont Rug i fyny at Crawia, hefyd daliwyd nifer rhwng Pont Rug a Chaernarfon. Daliodd N. Davies, Caernarfon 2 am 7 bwys. G. Pape, Caernarfon – 2 am 9 a 7 bwys. D. Davies, Caernarfon – un am 5 pwys. J. Griffith, Caernarfon – un am 7 pwys, a T. Brown, Caernarfon – 2 am tua 7 bwys yr un.

Bu pysgota'r sewin hefyd yn eithriadol o dda yn enwedig o Crawia i lawr. Cafodd Clifford Thomas, Felin, ddeunaw mewn ychydig nosweithiau gyda'r gorau yn 5 pwys.

Ers blynyddoedd bellach, bu llawer o drafodaethau i geisio ffordd i roi gwaharddiad ar rwydo eogiaid a sewin yng ngheg yr Afon Seiont – y canlyniad yw fod Ysgrifennydd Cymru ar fin arwyddo'r ddogfen fydd yn dod a hyn i rym, yn obeithiol o 1987 ymlaen. Felly yr arwyddion yw y bydd llawer nwy o'r pysgod yma yn rhedeg y Seiont, yn ogystal a'r Llyfnwy, ble bydd gwaharddiad ar rwydo masnachol hefyd.

Pencampwriaeth Sgïo Ysgolion Cymru

Bu timau yn cynrychioli 23 o ysgolion Cymru yn cystadlu am y bencampwriaeth ar lethr sych Pontypŵl ar Fedi 20fed, a thim o Ysgol Brynrefail ddaeth i'r brig.

Nid dyma'r tro cyntaf i'r ysgol gael ei choroni'n orau drwy Gymru, ac felly dychwelyd i gael ei arddangos yn y Neuadd fu hanes y tlws a gyflwynir gan gwmni Hourmont. Daeth timau eraill o'r ysgol yn bedwerydd ac yn ddegfed yn yr un gystadleuaeth.

Mewn cystadleuaeth i unigolion, daeth Kirsty McCann yn ail o'r holl enethod, a Mathew Ingle yn ail yn y dosbarth i fechgyn dan 18 oed. Steven Wroe enillodd y gystadleuaeth i fechgyn dan 14 oed; ail oedd Tammy Massey o dan 13 oed a daeth Michael Wroe yn drydydd dan 15 oed.

Daeth buddugoliaeth hefyd i Caitlin Wroe, sy'n ddisgybl yn Nhan y Coed, Penisarwaun, yn y dosbarth i blant dan 11 oed.

O ganlyniad i'r llwyddiant yn Mhontypŵl, gwahoddwyd y ddau dîm gorau o'r ysgol i gynrychioli Cymru yn Mhencampwriaeth Ysgolion Prydain yng Nghaeredin ar Ragfyr 6ed. Y llynedd, yn yr un gystadleuaeth, fe'u dyfarnwyd yr ysgol orau y tu allan i ffiniau'r Alban, gan guro holl dimau Lloegr a Gogledd Iwerddon. Timau o'r Alban ddaeth i'r pedwar safle cyntaf.

Dymunwn bob llwyddiant iddynt, a gobeithiwn gyhoeddi yn rhifyn lonawr o'r Eco, iddynt ddod i'r brig dros holl ysgolion Prydain.

Symudiad yn arwain at gôl gan y tîm yn erbyn Harlech ar y 27fed o Fedi.

Iwan Williams, rheolwr y tîm cyntaf a'i gapten, Peter Roberts.

Y tîm ieuenctid yn chwilio am gôl yn erbyn Bangor. Dilledir gan Westy'r Fictoria.

MAE MWY O CHWARAEON AR DUDALEN 10 ac 11, 13 ac 19.

Atodiad S4C ar gyfer holl Bapurau Bro Cymru

Bro

Hydref '86 · Rhif 3

Bowen a'i Bartner

Newidiadau yn Amserlen S4C.
Actor Tramor
Blas yr Heli
Bowen a'i Bartner

Cystadlaethau i Blant ac i Oedolion

BOWEN O BEN DRAW'R BYD

Dychmygwch y sefyllfa — gŵr a ffodd o ysgol fonedd pan yn blentyn yn ymfudo i Seland Newydd. Yno mae'n gwneud enw iddo'i hun fel actor a dramodydd ac yna'n cael y cyfle i chwarae'r brif ran mewn cyfres deledu Gymraeg.

Fe allai fod yn sail i sgript ar gyfer opera sebon. Ond yn yr achos hwn mae'n wir.

Y gŵr dan sylw yw Jeffrey Thomas, sy'n chwarae rhan Bowen, y ditectif preifat yn *Bowen a'i Bartner*.

Un o fois y sosban yw Jeffrey, mab i blismon a chyn-ddisgybl yn ysgol Gymraeg Dewi Sant yn y dref. Symudodd y teulu i Landybie ac enillodd Jeffrey ysgoloriaeth i Goleg Llanymddyfri.

Anhapus fu ei ddyddiau yno, ac ar ôl ychydig dros flwyddyn cefnodd ar y coleg a cherdded adre'r holl ffordd i Landybie. Mynychodd Ysgol Ramadeg Llandeilo. Yna, ar ôl cyfnod fel maintfesurydd aeth i Brifysgol Lerpwl i ddilyn cwrs Astudiaethau Celtaidd.

Pan ddaeth hi'n amser i chwilio am waith ceisiodd gael mynediad, ond yn aflwyddiannus, i fyd teledu felly trodd at waith ymchwil yng Ngholeg Linacre, Rhydychen lle cyfarfu ag Ismay Barwell o Seland Newydd. Bu'r ddau'n ddigon ffodus i sicrhau swyddi darlithio — Ismay yn Melbourne, Awstralia a Jeffrey yn nhalaith Victoria. Yna symudodd y ddau i Wellington, Seland Newydd lle cafodd Ismay swydd. Ac er i Jeffrey fethu yn ei gais am swydd yn yr adran ddrama yno cychwynnodd actio ar y radio a'r teledu.

Cafodd lwyddiant fel dramodydd hefyd gyda Theatr Clwyd yn perfformio un o'i waith *Playing the Game*. Enillodd wobr yr Academi Gymreig am ei ddrama *Man of Steel*.

'Rown i wedi cyfarfod â Sion Eirian rhai blynyddoedd yn ôl ac mae'n rhaid ei fod e'n cofio amdana i gan iddo awgrymu fy enw i ar gyfer chwarae rhan Bowen yn ei gyfres,' medd Jeffrey. 'Dw'i ddim yn cael llawer o gyfle i siarad Cymraeg yn Wellington felly 'rwy'n ei chael hi'n anodd bod yn "naturiol" yn yr iaith wrth actio.'

Bellach, yn olygydd sgriptiau gyda Radio Seland Newydd mae Jeffrey ac Ismay, a'r plant — Elinor Rhiannon, saith oed, ac Owen Emrys, sy'n dair, wedi ymgartrefu yn y wlad.

'Mae'n lle braf, o fewn munudau i'r traeth ger Wellington. Yn y cefndir mae mynyddoedd ag eira arnyn nhw. A ma' coeden lemwn gyda ni yn yr ardd....'

Ond yn wahanol i ffrwyth y goeden mae bywyd i Jeffrey yn felys.



Bowen a Bobby Boyle — Bowen a'i Bartner

Cyflwynwyr newydd Hel Straeon

HEL STRAEON Y DYDD HEDDIW

Pan fu rhai o swyddogion S4C ar ymweliad â gwahanol rannau o Gymru yn ddiweddar yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus wrth geisio cael barn y bobl, cafwyd un gŵyn gyffredin. Teimlai nifer fawr o'r rhai a ddaeth i'r gwahanol gyfarfodydd fod bwlch yn y ddarpariaeth cyn belled ag yr oedd rhaglen gylchgrawn yn y cwestiwn. Soniai llawer am y golled ar ôl eitemau ysgafn, bachog a geid gynt ar raglenni fel *Heddiw* a'r *Dydd*.

Y canlyniad yw y caiff cyfres gylchgrawn newydd, *Hel Straeon* ei lansio nos Fercher, 15 Hydref wedi'i seilio ar yr hen batrwm llwyddiannus a phoblogaidd.

Dau gynhyrchydd y rhaglen newydd fydd Wil Aaron, a arferai weithio ar *Heddiw*, ac Ifan Roberts a fu am flynyddoedd yn ohebydd gyda'r *Dydd*. Bydd uned camera yn Ne Cymru ac un yn y Gogledd yn bwydo eitemau i'r rhaglen gan ddefnyddio'r technegau electronig diweddaraf, ar fformat Betacam.

'Y gobaith yw y bydd cysylltiad agos rhwng *Hel Straeon* a'r papurau bro led led Cymru,' medd Wil Aaron. 'Os oes gan bapur bro stori dda sy'n haeddu sylw yna medrwn ddod i ddealltwriaeth â'n gilydd fel bod yr eitem yn y papur bro yn ymddangos tua'r un pryd ar y teledu. Bydd hyn nid yn unig yn gyhoeddusrwydd i'r papur bro ond bydd tâl sylweddol hefyd i'r papur am y stori.'

Gobeithir yn ogystal y bydd cymdeithasau ac unigolion yn cynnig syniadau am eitemau yn ogystal â newyddiadurwyr professiynol.

Pryf gyflwynydd *Hel Straeon* fydd Gwyn Llywelyn, un o newyddiadurwyr mwyaf profiadol Cymru. Bu'n gyflwynydd cyson ar raglenni newyddion a nodwedd ar y BBC a HTV a bu tan yn ddiweddar yn un o brif gyflwynwyr *Newyddion Saith*.

Gydag ef bydd Lyn Ebenezer, yntau wedi bod yn newyddiadurwr gyda'r *Cymro* am 18 mlynedd. Ef fu'n cyflwyno'r rhaglen banel *Pwy sy'n Perthyn?* o'r cychwyn.

Trydydd aelod y tîm yw Catrin Beard o Caerdydd, cyn-gyflwynydd y rhaglen gwis boblogaidd i blant, *Ysgoloriaeth* a chyflwynydd y gyfres bresennol o *Talent-Iau*.

Rhaglen ar gyfer yr holl gynhyrchwyr annibynnol fydd hon sy'n ei gwneud yn fenter unigryw. Cyd-gysylltir y rhwydwaith o gynhyrchwyr annibynnol trwy gynnig iddynt raglen ganolog y gallant ddarparu eitemau ar ei chyfer fel bo angen.

Os oes gan unrhyw gymdeithas, papur bro neu unigolyn stori a allai fod o ddefnydd *Hel Straeon* dylid ffonio Caernarfon (0286) 77595.

GWAED HALLT YR ADMIRAL

Peth annifyr i rywun sy'n methu nofio fyddai bod dros ei ben a'i glustiau yn y môr. Ond mae bod dros eich pen a'ch clustiau mewn cariad â'r mor, fel y mae Aled Eames, yn fater arall.

Canlyniad blynyddoedd o garwriaeth rhwng Aled a'r môr yw'r gyfres *Halen yn y Gwaed*, a deledir bob nos Fercher am 8.30.

Brodor o Landudno yw Aled. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd gwasanaethodd yn y Llynges. Yna, ar ôl cyfnod fel cynrychiolydd y Cyngor Prydeinig yn y Gogledd, a chyfnod arall fel athro aeth yn ddarlithydd mewn Addysg i Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, lle bu gynt yn fyfyriwr.

Er iddo ymddeol o'r swydd honno ym 1982 ni orffwysodd ar ei rwyfau. I'r gwrthwyneb. Bu'n brysur yn ysgrifennu — mae'n awdur dwsin o lyfrau am y môr — ac yn cyfrannu o'i wybodaeth eang a diddorol i wrandawyr radio a gwylwyr teledu.



Pan estynnodd Selwyn Roderick, cynhyrchydd gyda'r BBC, wahoddiad i Aled i gydweithio ar gyfres am yr hen longau hwyliau 'roedd yr Admiral, fel y caiff ei adnabod, wrth ei fodd.

'Mae stori morwyr a llongau Cymru wedi ei hesgeuluso'n rhy hir ac, yn wahanol i lawer hanes arall, testun balchder sydd yma,' meddai.

Fe adlewyrchir y balchder hwnnw yn *Halen yn y Gwaed*, cyfres a fydd yn ein tywys ar hyd teithiau hen forwyr y llwybrau masnach. Cawn ail-fyw cyfnod y sgwneriaid, y barciau a'r llongau 'full-rig' ar hyd llwybrau'r gwynt.

GWYN EI FYD YMHLITH Y SÊR





Mae gan wylwyr ifanc S4C eu hoff sêr pop, yn ddigon naturiol, a'u breuddwyd fawr fyddai cael cyfarfod â hwy. Mae gŵr o Fethesda, felly, yn destun eiddigedd, mae'n siwr, gan ei fod ef fel rhan o'i waith bob dydd yn cyfarfod a chymysgu â phrif sêr pop y byd.

Mae John Gwyn yn gynhyrchydd ar *The Tube* ac yn gweithio yn stiwdio Teledu Tyne Tees yn Newcastle. Yn gyn gitarydd blaen gyda'r grŵp Cymnraeg 'Brân' ac yn gyn gitarydd bâs gyda 'Jip' mae John yn hoff o bob math o gerddoriaeth gyfoes. Ond nid oes ganddo unrhyw ffefryn arbennig yn y byd pop.

'Pwrpas *The Tube* yw adlewyrchu holl sbectrwm cerddoriaeth gyfoes,' medd John. 'Mae nifer dda o grwpiau o Gymru sy'n canu'n Saesneg wedi ymddangos gyda ni yn ogystal â grwpiau Cymraeg fel Maffia, Y Brodyr a Louis a'r Rocyrs.'

Ar ffilm, a hynny adeg Gŵyl Ddewi y llynedd, yr ymddangosodd y grwpiau Cymraeg ond mae dros drichwarter y rhaglen yn cael ei darlledu'n fyw.

Ond sut mae penderfynu pwy sy'n ymddangos o wythnos i wythnos?

'Chaiff neb ymddangos heb fod yna reswm da dros hynny,' meddai. 'Mae'n rhaid i'r perfformwyr fod naill ai yn gerddorion da iawn, yn weledol ddiddorol neu fod yn y newyddion. Dyna oedd y tu ôl i'r penderfyniad i ddangos y grwpiau Cymraeg ar Ddydd Gŵyl Dewi.'

Y tro nesaf y byddwch chi'n llesmeirio wrth wylio'ch arwyr ar *The Tube* cofiwch mor lwcus mae'r Cymro Cymraeg o Fethesda o gael cydweithio â hwy. Gwyn ei fyd!

DRWY SBECTOL REBECCA

Ofewn yr wythnosau nesaf caiff gwylwyr lleiaf S4C gyfarfod â chymeriad bach newydd o'r enw Rebecca.

Merch fach sy'n gwisgo sbectol, yw Rebecca a bydd yn mynd i'r coed a'r caeau gyda'i sbienddrych a'i chwyddwydr i edrych ar ryfeddodau natur.

Pyped yw Rebecca, a dywed ei chreawdwr, John Pickstock, mai fersiwn bywddarluniol o Ted Breeze Jones neu David Attenborough yw hi. Ac fel y ddau hynny, bydd yn mynd allan yn bersonol i weld nythod adar a gloynnod byw yn hytrach na chael ei hychwanegu at y ffilm yn y stiwdio.

'Mae naturiaethwyr yn annog plant i fynd allan i'r wlad i fwynhau a gwerthfawrogi byd natur, ond ar ôl deng munud, os na chânt weld yr hyn maent am ei weld tueddant i ddiflasu', medd John. 'Bwriad y gyfres hon yw dweud wrth blant rhwng pedair a saith oed beth allant ei wneud a beth na ddylent ei wneud, a hynny drwy gyfrwng Rebecca.

'Yn aml iawn, pan fo mam neu dad yn dweud wrth eu plant beth i'w wneud caiff y cyfan ei anghofio. Ond o uniaethu eu hunain â Rebecca ein gobaith ni yw y bydd y neges yn para a'r plant yn cael mwy o fwynhad wrth werthfawrogi a pharchu natur.'

Gobaith arall John yw y bydd y cyfuniad o'r pyped a'i ffilmiau yn ategu gwaith y dosbarth a'r bwrdd natur yn yr ysgol. Disgrifia'r gyfres fel fersiwn fechan o *The World About Us*.

Eisoes cafodd y gyfres groeso brwd. Yn ogystal â chael ei dangos ar S4C fe'i derbyniwyd hefyd gan C4 Lloegr yn ogystal â nifer o wledydd tramor, gan gynnwys y Taleithiau Unedig.

AMSERLEN NEWYDD I'R PLANT

Bydd ychydig o newid yn amserlen eich rhaglenni chi'r plant yn ystod yr wythnosau nesaf hyn, a hynny er gwell.

O Hydref 12 ymlaen bydd y Clwb yn cychwyn am 4.00 yn y prynhawn ac yn gorffen tua 5.30. Ac fe fydd y Clwb yn cynnwys rhaglenni i'r plant lleiaf, fel *Pili Pala* a *Ffalabalam*, rhaglenni sydd wedi arfer cael eu dangos yng nghanol y prynhawn.

Ac mae newydd da arall — o Hydref 19 ymlaen bydd *Yr Awr Fawr* i'w gweld rhwng 9.00 a 10.00 o'r gloch ar fore Sul.

Criw yr Awr Fawr

John a Menna — Cyflwynwyr Pentymora

PENCAMPWYR BYD Y WELINGTONS

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd ffermwyr ifainc yn cynrychioli wyth o wahanol siroedd yn cystadlu am y fraint o fod yn bencampwyr *Pentymora*.

Rhyw fath ar *It's a Knockout* amaethyddol yw *Pentymora* gyda thimau o ffermwyr ifainc o bob rhan o Gymru yn defnyddio'u cyhyrau a'u dyfeisgarwch, eu menter a'u pwyll wrth gystadlu mewn pob math o gampau anodd a chyffrous.

Bydd y timau yn cynrychioli Ynys Môn, Clwyd, Eryri, Meirion, Maldwyn, Ceredigion, Penfro a Chaerfyrddin gyda'r rowndiau go-gyn-derfynol yn cychwyn nos Iau, 25 Medi ym Mhantyderi, Sir Benfro.

Yn ôl Robin Ifans, sy'n cyfarwyddo'r gyfres o saith rhaglen ar ran Cwmni Na Nog, bydd y campau yn cynnwys rasio jalopi, codi cell da byw drwy osod 18 o ddarnau gyda'i gilydd, tynnu rhaff ar draws afon neu lyn, a ras dros gwrs rhwystrau. Bydd y ras rhwystrau yn arbennig o anodd gan y bydd rhaid i'r cystadleuwyr gario sach o wlân dros ddŵr, ac yna ei chludo heb iddi gyffwrdd â'r ddaear dros wahanol rwystrau amaethyddol.

'Ffermwyr ifainc fydd yn cymryd rhan ac yn cyflwyno,' medd Robin, 'ond bydd pawb, 'rwy'n siwr, yn medru mwynhau'r hwyl.'

Y cyflwynwyr fydd John Davies o Glwb Ffermwyr Ifainc Eglwyswrw a Menna Owen o Glwb Ysbyty Ifan, a hwn fydd y tro cyntaf iddynt wneud gwaith cyflwyno ar y teledu.

Sbec

MWY O SBECIAN

Oddechrau Tachwedd ymlaen bydd *Sbec* ar ei newydd wedd. Y newid mwyaf, o ran diwyg, yn ôl Marred Jones, y golygydd, yw y bydd *Sbec* yn datblygu'n fwy o gylchgrawn. 'Bydd yn llai o ran maint y tudalen ond bydd nifer y tudalennau yn cynyddu o 12 i 20 tudalen,' meddai. 'Byddwn yn newid pwyslais y cynnwys hefyd trwy gyflwyno nifer o atyniadau newydd.'

Ymhlith y cyfraniadau newydd hyn bydd colofn lythyrau ynghyd â thudalen gyfan i ffilmiau.

Gobeithir cynnwys croesair yn weddol rheolaidd a bob wythnos trafodir pwnc dadleuol cyfoes.

Ceir tudalen i'r plant, 'Clwb ar y Cefn'. Ar y tudalen ôl y bydd atyniadau'r plant. Cynhwysir gwahanol gystadlaethau a bydd yr eitemau ar y tudalen ynghlwm wrth weithgareddau Clwb S4C.

Un atyniad newydd sy'n sicr o gael croeso gan ddarllenwyr *Sbec* fydd *Clec Sbec*, colofn farddol o dan olygyddiaeth Gerallt Lloyd Owen. Bydd y golofn yn trefnu cystadleuaeth englyn y mis.

Cofiwch am *Sbec* ar ei newydd wedd felly, o ddechrau mis Tachwedd ymlaen. Ar glawr y rhifyn diwygiedig cyntaf bydd llun allan o'r gyfres newydd o *Torri Gwynt*. Cawsoch eich rhybuddio!

MWY O SYLW I MAGI GOCH

Fe brofodd yr actores Sue Roderick ei dawn fawr wrth gymeriadu wrth bortreadu Hilda Sos Coch yn *'Hafod Henri*. Yn *Minafon*, fel Magi Goch, gwelwyd hi'n creu cymeriad cwbl wahanol. A'r newydd da i ddilynwyr *Minafon* yw y bydd Magi yn chwarae rhan flaenllaw yn y gyfres newydd.

Dim ond rhyw deirgwaith y gwelwyd Magi yn y gyfres gyntaf. Gwelwyd hi am y tro cyntaf gan y gwylwyr pan ymddangosodd yn nrws ei thŷ pan fu'n rhaid i Dic Pŵal fynd adre â'r Hyw Twm meddw.

Ond er mai prin fu ei hymddangosiadau ar y dechrau fe gymerodd y gwylwyr ati. A chred awdures y gyfres, Eigra Lewis Roberts, mai dawn Sue fel actores sydd yn gyfrifol am yr apêl.

'Fe gafodd Magi afael yn y gyfres gyntaf, ac fe welwyd fod yna berthynas ddiddorol rhyngddi hi a Hyw Twm a Pŵal. Ac erbyn y gyfres newydd hon mae Magi'n cael llawer mwy o sylw,' medd Eigra.

'Mae cymeriad Magi yn llawer mwy cymhleth nag mae'n ymddangos ar y wyneb. Er ei bod hi'n dipyn o storman, mae 'na ochr arall i'w chymeriad, rhyw dynerwch a theimladrwydd. Ac mae modd dod rownd iddi ond ei thrin yn y ffordd iawn. Ac 'rwy'n teimlo fod Sue wedi deall y cymeriad o'r dechrau.'

Er nad yw Eigra am ddatgelu unrhyw gyfrinachau am gynnwys y gyfres newydd mae'n gaddo y bydd datblygiadau diddorol rhwng Magi a Pŵal. Ac fe gaiff y gwylwyr gryn hwyl gyda Magi yn synjeri'r doctor.

Mwy na hynna, ni chaiff y gwylwyr wybod. Ond fe gânt ddilyn hanes trigolion *Minafon* bob nos Fawrth dros y misoedd nesaf.

CLECS CWMDERI

Mae pawb yn gwylio *Pobol y Cwm* ond faint ohonoch sy'n gallu cofio beth sydd wedi digwydd? Dyma gyfle i chwi fwynhau diwrnod yng nghwmni'r criw ar ddiwrnod ffilmio *Pobol y Cwm* os fedrwch ateb y cwestiynau canlynol.

1. Beth yw enw'r cartref hen bobl? .....
2. Enwch yr actores sy'n chwarae rhan Bella Davies. .....
3. Beth yw enw'r dafarn leol? .....

Enw .....

Cyfeiriad .....

.....

.....

Anfonwch eich atebion at: Cystadleuaeth Clecs Cwmderi, 25 Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, erbyn 10 Tachwedd. Bydd y cyntaf o'r het yn ennill y wobr.

CYFRINACHAU CWMDERI RHWNG DAU GLAWR

Nos Fercher, Hydref 16, 1974, am 7.10 o'r gloch, cafodd gwylwyr teledu yng Nghymru eu cipolwg cyntaf ar gyfres newydd yn adrodd hanes trigolion Cwmderi.

A ninnau bellach ar fin cael mwynhau'r 13eg gyfres, sy'n gwneud *Pobol y Cwm* yr opera sebon hiraf yn hanes y BBC ym Mhrydain, cyhoeddir cyfrol sy'n datgelu llawer o gyfrinachau'r gyfres.

Awdur y gyfrol *Clecs Cwmderi* yw Lyn Ebenezer, a gafodd brofiad o ysgrifennu storïau a sgriptiau ar gyfer y gyfres.



Ynddo ceir sylwadau gan John Hefin a Gwenlyn Parry, y ddau a osododd seiliau'r gyfres. Maent yn datgelu fod tri chymeriad wedi eu creu cyn bod sôn am lunio'r sgript gyntaf — sef Bella, Harri Parri a Maggie'r Post. Yn naturiol, rhoddir cryn sylw i'r tri sy'n eu portreadu, Rachel Thomas, Charles Williams a Harriet Lewis.

Ond sut brofiad ydy e' i adael cyfres boblogaidd? Mae Gillian Elisa Thomas, a fu'n chwarae rhan Sabrina, yn sôn am hynny. Ceir pennod hefyd ar Jonathan Morgan, y plentyn a fu'n chwarae rhan Gareth Wyn o'r cychwyn.

Ar ben hyn ceir cipolwg ar yr ochr gynhyrchu a sgriptio ac mae'r gyfrol yn cloi gyda phrofiadau'r diwrnod cyntaf o recordio cyfres newydd.

Yn llawn o luniau hanesyddol a diddorol, cyhoeddir *Clecs Cwmderi* yn yr hydref gan Hughes a'i Fab.

PORTREAD O'R GWLEIDYDD CRAFF

Meddyliwch am raglen deledu sy'n cynnwys sgyrsiau â gwleidyddion mor amlwg â Harold Wilson a James Callaghan, Neil Kinnock a Michael Foot, Willie Whitelaw ac Is-Iarll Tonypandy.

Ychwanegwch at hyn areithiau hanesyddol ar ffilm gan Lloyd George, Megan Lloyd George, Aneurin Bevan, Winston Churchill a Clement Attlee a dynai chi glamp o ddogfen deledu yn adlewyrchu gwleidyddiaeth ym Mhrydain o gyfnod y Rhyfel Mawr hyd heddiw.

Ond y mae un elfen bwysig arall sy'n rhoi slant gwbl Gymreig a Chymraeg i'r rhaglen — presenoldeb Arglwydd Penrhos, Cledwyn Hughes, un o wleidyddion mwyaf amlwg a mwyaf llwyddianus Cymru'r ganrif hon a thestun y gyfres.

Y gŵr a gafodd y gwaith enfawr o ymchwilio a threfnu'r gyfres yw Emyr Price, hanesydd gwleidyddol a chyn-olygydd *Y Faner*, swydd y rhoddodd y gorau iddi er mwyn canolbwyntio ar y gwaith hwn.

'Mae'r gyfres yn gwneud mwy nag olrhain gyrfa gwleidydd amlwg,' medd Emyr. 'Mae hi hefyd yn codi nifer o gwestiynau dadleuol am berthynas rhai gwleidyddion â'i gilydd ac yn codi cwestiynau hefyd am y rhan a chwaraewyd gan Arglwydd Penrhos ei hun mewn gwleidyddiaeth ar wahanol adegau.'

Beth yw barn bersonol Emyr am y gwleidydd?

'Fe'i cefais yn ŵr mwyn, dymunol a phenderfynol, yn wleidydd gofalus a chraff sy'n gwybod beth sy'n ymarferol. 'Rwy'n meddwl fod Is-Iarll Tonypandy wedi'i ddisgrifio'n hynod gryno wrth siarad ar y gyfres. Fe'i galwodd yn "the great survivor".'

DAL YN GYFOES AR ÔL 30 MLYNEDD

Petai'r dramodydd Huw Lloyd Edwards wedi byw buasai'n dathlu ei 70fed pen-blwydd eleni.

Fel coffâd i un o'n dramodwyr mwyaf dawnus penderfynodd y BBC fynd ati i lunio cynhyrchiad newydd o un o ddramâu mwyaf arwyddocaol y dramodydd, *Ar Ddu a Gwyn*.

'Mae stori ddiddorol y tu ôl i'r ddrama hon,' meddai'r cynhyrchydd-gyfarwyddwr, George Owen. 'Fe'i hysgrifennwyd yn wreiddiol fel drama fer-hir ar gyfer Cwmni Garthewin. Fe'i gwelwyd gan Dafydd Gruffydd ac ymddiddorodd yn fawr ynddi ac aeth ati i'w lled-gyfieithu a'i darlledu'n fyw ar y rhwydwaith ym 1957.

'Ddeng mlynedd yn ddiweddarach dyma Dafydd yn ail-gydio yn y ddrama gan gael rhywun i'w datblygu'n ddrama hir awr-a-hanner o hyd. Yn y cyfamser ail-afaelodd Huw Lloyd Edwards ei hun ynddi a'i throi yn ddrama Gymraeg dair act.'

Hwn felly fydd y trydydd telediad o'r ddrama gyda chast proffesiynol, a'r telediad cyntaf erioed ohoni fel drama hir yn Gymraeg.

'Roedd hi'n ddrama gyfoes iawn yn ei chyfnod, ac yn awr, 30 mlynedd yn ddiweddarach, mae hi'n dal yr un mor gyfoes,' medd George Owen. 'Un cyd-ddigwyddiad rhyfedd yw mai enw'r prif gymeriad yn y ddrama, gŵr ariannog a dylanwadol yn wleidyddol ac yn gymdeithasol, yw Botha.'

Prif actorion *Ar Ddu a Gwyn* yw Conrad Evans, Mari Rowland Huws, Ifan Huw Dafydd, Dafydd Hywel a David Lyn.

Teledir *Ar Ddu a Gwyn* nos Sul, 26 Hydref.

RARGIAN FAWR! DYNA I CHI HWYL

Mae hi'n brynhawn o Fehefin ac mae'r drafnidiaeth yn gyrru dros Bont Menai. Ond beth yw hyn? Caiff ambell i gar modur ei stopio gan bobl mewn lifrau. Ie, swyddogion y tollau ydyn nhw ac maen nhw'n archwilio ceir a bagiau'r bobl sy'n teithio yn y ceir.

Beth yw'r rheswm am hyn oll? Wel, mae'n debyg fod y bont yn rhy fregus i ddal pwysau trwm felly mae'n rhaid cymryd rhai bagiau oddi ar y teithwyr. Ac mewn rhai enghreifftiau mae'n rhaid gwacau'r dŵr sydd ar gyfer golchi'r ffenest flaen er mwyn ysgafnhau'r cerbyd!

Ond buan y cafodd y teithwyr wybod mai tipyn o hwyl oedd y cyfan, stynt ddoniol ar gyfer *Rargian Fawr!*, rhyw gyfuniad gan Gwmni'r Castell o *Candid Camera* a *Game for a Laugh*.

Ar gyfer ffilmio'r gyfres ymunodd Gari Williams â thri o actorion — Mair Tomos Ifans, aelod o'r grŵp 'Pryd ma' Te?', Derek Daniels, gŵr o Lerpwl sydd wedi dysgu Cymraeg, a loan Hefin, aelod o'r grŵp 'Eryr Wen'.

Teithiodd y criw led led Cymru yn chwarae pob math o stranciau. Mewn un tref perswadiwyd pobl i helpu Gari a Derec i 'ddwyn' cist arian o siop. Mewn tref arall cafwyd ymateb aelodau o'r cyhoedd o weld un o weithwyr y cyngor yn gwthio sbwriel yr oedd newydd ei grynhoi i mewn i fag Mair. Ac mewn ardal yn y Gogledd cafwyd ymateb ffermwr, sy'n gas ganddo garafanau, o weld rali Clwb Carafanio Cymru wedi glanio ar y clos.

'CYSTADLEUAETH' 'DWI'N 'NABOD HWNNA'

Faint ohonoch welodd nifer o sêr S4C yn crwydro meysydd Eisteddfod Bethesda ac Abergwaun eleni? Ond dipyn anoddach yw adnabod yr hanner wynebau yma. Nodwch enw'r person wrth y lythyren iawn, ac anfonwch eich atebion at: 'Dwi'n 'nabod hwnna', 25 Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, Dyfed, erbyn 10 Tachwedd. Gwobr: Copi o lyfr *Siôn Blewyn Coch* i'r tri buddugol.



ENW

A ---------- Enw ----------

B ---------- Cyfeiriad ----------

C ---------- ----------

CH ---------- ----------

D ---------- ----------

DD ----------

YN EISIAU.....STRAEON NEWYDD I BLANT

Mae Hughes a'i Fab, cwmni cyhoeddi S4C, yn chwilio am straeon newydd i blant, oedran 7-9, oddeutu 3,000 o eiriau, i'w cyhoeddi y flwyddyn nesa'.

Gwahoddwn awduron i anfon teipysgrifau gorffenedig erbyn 28 Tachwedd at: Mari Beynon Owen, Rheolwr, Hughes a'i Fab Cyf, Clos Sophia, Caerdydd CF1 9XY.

HWYL A THAIL 'CEFN GWLAD'

WRTH fwynhau rhaglen orffenedig ar y teledu ni chaiff y gwylwyr unrhyw syniad o'r trafferthion a'r hwyl a geir yn aml iawn wrth ffilmio. Bydd rhaglen fel *It'll be Alright on the Night* yn casglu'r darnau hyn sy'n adlewyrchu digwyddiadau chwithig a digrif gan greu hanner awr neu awr ddifyr o wylio.

Mae'n siwr y byddai modd gwneud yr un peth gyda rhaglenni Cymraeg gan fod pethau doniol dros ben yn medru digwydd wrth ffilmio.

Cymerwch y gyfres *Cefn Gwlad*, er enghraifft. Mae gan y cyflwynydd ffraeth, Dai Jones, stôr o hanesion doniol am ddigwyddiadau wrth ffilmio led led Cymru.

'Un sy'n aros yn fyw iawn yn y cof yw'r rhaglen honno a wnaed gyda Margaret Hughes o Sir Drefaldwyn,' medd Dai.

'Y beudy oedd lleoliad y rhan olaf gyda golygfa o Margaret a finne'n carthu. Ar waelod y sodren 'roedd drws, ac fe frwshwyd y cyfan allan drwyddo yn deidi.

'Ond yn anffodus fe aeth rhywbeth o'i le ac 'roedd angen "take" arall, sef ail-saethu'r darn o ffilm. Ond 'roedd y sodren erbyn hyn yn lân. Felly bu'n rhaid i ni gario tail gwartheg yn ôl mewn berfa a'i osod yma ac acw fel petae ni'n adeiladu cestyll o dywod ar lan y môr!

'Ac nid oedd unrhyw dail gwartheg yn gwneud y tro. 'Roedd yn rhaid iddo fod o'r union liw ac ansawdd â'r un gwreiddiol er mwyn i'r ffilm ymddangos yn ddilys!'

A dyna i chi'r stori honno wedyn yn Henllan Amgoed, a'r criw newydd ffilmio buwch yn geni llo. 'Roedd y ffermwr wedi dod i ddeall beth oedd ystyr 'take one' a 'take two'. A'i sylw bachog, wedi i'r llo ymddangos oedd—'Gwnewch chi fel mynno chi a'ch "takes"—alla'i ddim rhoi'r llo 'nôl!'

Bydd *Cefn Gwlad* yn ôl ddiwedd mis Hydref gyda darnau o ffilm o bob rhan o Gymru. Ceir y gymysgedd arferol o'r difrif a'r digrif. Ond chewch chi ddim gweld y darnau bach a dorwyd allan wedi i bethau fynd o chwith—os na cheir rhaglen Gymraeg fel *It'll be Alright on the Night*.

Treialon Dai Jones

PECYN CHWARAEON I'R DYSGWYR

Un peth yw mynd ati i ddysgu Cymraeg. Peth arall yw ymgynefino â geiriau a thermau sy'n gysylltiedig â maes arbennig.

Gyda hyn mewn golwg mae S4C wrthi'n paratoi pecyn i ddysgwyr sydd am ddilyn y rhaglen y *Maes Chwarae* yn haws.

Mae'r pecyn yn cynnwys tâp a llyfryn y gall y dysgwyr sydd am ddilyn sylwebaeth Huw Llywelyn Davies ar rygbi, dyweder, wrando ar eirfa yn ymwneud â safleoedd y chwaraewyr, enwau rhannau o'r cae chwarae ac ati yn ogystal â throi at y llyfryn am gyfarwyddyd.

Lluniwyd y pecyn ar y cyd gan Elen Rhys o'r Cyd-Bwyllgor Addysg Cymraeg a'r Uned Iaith ym Mhontypridd a dylai fod yn barod erbyn canol mis Medi.

Dylid nodi nad pecyn ar gyfer dysgu Cymraeg fel y cyfryw fydd hwn ond dull o ddilyn y *Maes Chwarae* yn well drwy ymgynefino â geirfa chwaraeon.

Bydd S4C yn cyhoeddi mwy o fanylion am y pecyn yn y dyfodol agos.





CAIS AM SYLWEBWYR RYGBI

Mae 'Y *Maes Chwarae*' yn chwilio am Huw Llywelyn Davies arall.

Mae Huw, wrth gwrs, yn feistr ar sylwebu ar rygbi a gobaith y rhaglen yw denu eraill sydd â diddordeb mewn sylwebu i ymuno mewn cystadleuaeth, sy'n cynnig gwobr arbennig iawn.

'Gwahoddwn sylwebwyr, rhwng 15 a 22 oed, i fynd i unrhyw gêm rygbi a pharatoi tâp o ddim mwy na deng munud a'i ddanfon aton ni,' medd Geraint Evans, cynhyrchydd *Y Maes Chwarae*.

Ar ôl gwrando ar y tapiau a dderbynnir gwahoddir y tri gorau i'r gêm y bydd *Y Maes Chwarae* yn rhoi sylw iddi ar y pryd.



Gwobr yr enillydd fydd ymuno â chriw'r rhaglen wrth ddarlledu'r gêm rhwng Cymru ac Iwerddon ar y Maes Cenedlaethol ar 17 Ionawr.

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn cystadlu ddanfon eu tapiau i: *Geraint Evans, Y Maes Chwarae, Adran Chwaraeon, Canolfan y BBC, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ.*

BREUDDWYD SIÂN— MERC. DWY-SEDD

I Siân Thomas, cyflwynwraig *Ar y Ffordd*, mae car modur yn angenrheidiol ar gyfer teithio rhwng ei chartref yn Llandaf a'i gwaith yng Nghlos Sophia bob dydd. Ond i Siân, un o gyflwynwyr sefydlog S4C, nid gorchwyl yw gyrru ond mwynhad pur.

'Fe wnes i ddysgu gyrru yn ystod fy mlwyddyn olaf yng Ngholeg y Brifysgol yn Abertawe,' medd Siân. 'Ac o'r cychwyn cyntaf 'rwy wedi joio gyrru.'

Ei char cyntaf oedd hen gar ei thad, a etifeddodd wedi iddo ef brynu Triumph Dolomite.

'Herald oedd e', a 'doedd e' ddim mewn cyflwr da, a dweud y lleiaf. 'Roedd handl y drws yn dod bant a'r bonet yn codi heb unrhyw rybudd. Ac un diwrnod, pan oedd Dad yn gyrru, fe daflwyd Mam yn ddiseremoni i'r sedd ôl!'

Pan ddechreuodd Siân weithio, prynodd Volkswagen Golf a thri mis yn ôl fe'i newidiodd am Sirocco lliw du.

Hyd yma mae Siân wedi bod yn ddigon ffodus i osgoi unrhyw ddamwain. Er iddi unwaith daro'r biben ddŵr ar adeilad S4C.

'Fi oedd y cyntaf i wneud hynny ond mae 'na lawer wedi gwneud wedyn. Mae'r Cyfarwyddwr, Mr. Owen Edwards, yn cwyno'n aml 'mod i'n parcio'n fler gan flocio pawb. Ac un bai arall, falle, yw 'mod i'n hoff o yrru'n gyflym.'

Yn ystod y gyfres newydd o *Ar y Ffordd* bydd Siân yn cael cyfle i fwynhau dulliau eraill o deithio — mewn awyren, ar drên ac mewn cwch — ac fe gaiff hefyd gyfle i fwynhau campau dŵr.

Caiff gyfle hefyd i deithio mewn Rolls Royce yn rali flynyddol perchnogion y ceir urddasol hyn yn Swydd Buckingham.

Ond petai Sian yn cael dewis unrhyw gar modur yn y byd, beth fyddai hwnnw?

'Petai gen i ddigon o arian, Mercedes dwy-sedd. A phetai gen i arian mawr iawn, Mercedes a drysau 'gull-wing' amdani!'

Siân Thomas/Ar y Ffordd

Cynhyrchwyd a Chynhyrchwyd gan Stwdio Strata, Aberystwyth, Dyfed.